Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 24 MEDI 2024 10.00 o'r gloch** | **TUESDAY 24 SEPTEMBER 2024 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2024.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**5 MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 1, 2024/25** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid.

**6 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24** (Tudalennau 33 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwm - AD a Thrawsnewid.

**7 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1, 2024/25** (Tudalennau 65 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2024/25** (Tudalennau 91 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI - CHWARTER 1, 2024/25** (Tudalennau 105 - 114)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2025/26 - 2026/27** (Tudalennau 115 - 146)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

11 **NEWID Y CYFANSODDIAD – POLISI PRYDERON A CHWYNION A RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU** (Tudalennau 147 - 152)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf, 2024 yn yr Ystafell Bwyllgor a thrwy Zoom

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Gary Pritchard (Dirprwy Arweinydd), Neville Evans, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rhaglen (GP)<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ)<br>Rheolwr Rhaglen Cyflenwi Ynys Ynni (AC)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Carwyn Jones, Mrs Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Douglas Fowlie (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE,<br>R. Llewelyn Jones, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (EA) (ar gyfer eitem 5). |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024 yn gywir.**



DRAFT

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch eitemau newydd ar y Blaen Raglen Waith ynghyd ag eitemau a oedd wedi'u haildrefnu ar gyfer y cyfnod adrodd.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL 2024

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys adroddiad hunanasesu corfforaethol blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai fel y trydydd adroddiad hunanasesu a gynhyrchwyd gan y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r adroddiad yn sail dystiolaeth o sut mae'r Cyngor wedi perfformio dros y flwyddyn gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. O'r saith maes allweddol sy'n ganolbwynt i'r hunanasesiad, asesir bod pedwar maes (cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a rheoli perfformiad) yn rhagori ar ddisgwyliadau tra asesir bod tri maes (rheoli asedau, caffael a rheoli contractau, a rheoli risg ac archwilio) yn bodloni disgwyliadau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cyfleoedd i wella a monitro sawl maes yn ystod 2024/25 a chraffwyd ar y gwaith gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adborth ar yr adroddiad Hunanasesiad Corfforaethol o'i gyfarfod ar 13 Mehefin 2024 gan gadarnhau bod y Pwyllgor, wrth gymeradwyo'r adroddiad, wedi gofyn am ddiweddariad ymhen chwe mis ynghylch y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu mewn perthynas â'r tri maes allweddol a aseswyd fel rhai sy'n bodloni disgwyliadau (yn hytrach na rhagori ar ddisgwyliadau), a bod yr adroddiad hunanasesu ar gyfer 2024/25 yn dangos sut mae'r camau hynny wedi gwella'r perfformiad ar gyfer y tri maes allweddol hynny.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y meysydd lle nodwyd bod cyfleoedd i wella a monitro a rhoddodd sicrwydd eu bod i gyd yn cael sylw a'u bod yn symud ymlaen yn dda.

Croesawodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr adroddiad fel tystiolaeth o ymrwymiad parhaus a gwaith caled staff a'u parodrwydd i fynd y filltir ychwanegol fel yr adlewyrchir gan y meysydd yr aseswyd fel rhai sy'n rhagori ar ddisgwyliadau. Diolchodd yr Aelodau i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r hunanasesiad a'r broses gadarn o herio perfformiad ar hyd y flwyddyn. Mae'r canlyniad yn glod i'r Awdurdod mewn cyfnod anodd yn ariannol ac mae'n dangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymdrechu i gynnal perfformiad a gwneud yn well lle y bo'n bosibl. Yn y cyd-destun hwn, tynnodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol sylw at wydnwch ariannol y Cyngor fel un o'r meysydd i'w monitro yn y flwyddyn ariannol bresennol yn sgil pwysau costau byw a gostyngiad mewn cyllid. Pwysleisiodd ei fod yn bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol y gallai gwasanaethau fod mewn risg os nad yw'r cyngor hwn a chynghorau eraill yn derbyn setliad ariannol teg ar gyfer 2025/26.

Gofynnodd y Cynghorydd Dafydd Roberts am sicrwydd bod y mater RAAC yn asedau'r cyngor wedi cael sylw penodol.



DRAFT

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y cyfeiriad at RAAC yn yr adroddiad mewn perthynas â chwblhau'r gwaith adnewyddu yn y ddwy ysgol uwchradd lle'r oedd RAAC yn bresennol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod llawer iawn o waith wedi'i wneud yn y flwyddyn ers i RAAC gael ei ddarganfod yn y ddwy ysgol a bod y ddwy ysgol wedi ailagor yn llawn ym mis Ionawr 2024. Mae'r gwaith mawr wedi'i gwblhau gydag ambell dasg fach i'w gorffen dros yr haf cyn dechrau'r tymor newydd ym mis Medi.

**Penderfynwyd mabwysiadu dogfen Hunan-asesiad Corfforaethol 2023/24 fel fersiwn terfynol yn dilyn ystyriaeth a sylwadau ar ei gynnwys gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2024.**

## 6. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – ALLDRO 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 4 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa alldro'r gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac roedd yn cynnwys dadansoddiad o amrywiannau cyllidebol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyngor Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2023/24, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £1.732m. Mae hyn yn 0.99% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2023/24. Er bod hwn yn ganlyniad cadarnhaol, rhaid cofio bod £3.78m o'r Gronfa Gyffredinol wedi cael ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at gydbwyso cyllideb 2023/24 felly mae'r canlyniad i bob pwrpas yn lleihau lefel cyfraniad y Gronfa Gyffredinol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y ffaith bod ad-daliadau'n gysylltiedig â gwerth ardrethol mewn perthynas ag Oriel Ynys Môn ac eiddo arall wedi cyfrannu £1.6m yn ychwanegol tuag at incwm y Cyngor sydd i'w drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol. Mae tanwariant yn y rhan fwyaf o wasanaethau ac eithrio Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac mae'r gwasanaeth hwnnw'n yn adrodd y rhagwelir gorwariant o £1.715m ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i gynnydd yn y galw am leoliadau a chostau lleoli plant. Mae perfformiad ariannol Gwasanaethau Oedolion wedi gwella oherwydd incwm grant ychwanegol. Gwasanaethau Plant yw'r risg ariannol fwyaf i'r Cyngor wrth symud ymlaen gan y gall newid bach yn nifer yr achosion gael effaith sylweddol ar gost y gwasanaeth yn gyffredinol ac mae'n faes y mae Llywodraeth Cymru yn ei adolygu. Gofynnwyd hefyd i wasanaethau leihau costau yn y flwyddyn drwy beidio â llenwi swyddi gwag cyhyd â phosibl fel strategaeth tymor byr.

Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai fod y pwysau ar gyllidebau gofal cymdeithasol plant, a'r galw arnynt, i'w deimlo drwy'r wlad ac mai'r argyfwng costau byw yw un o'r ffactorau sy'n gyfrifol am hyn. Er bod y Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darpariaeth gofal maeth mewnol a chartrefi clyd yn ogystal ag mewn gwasanaethau ataliol, ni ellir rhagweld yr heriau o ran galw ond mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ymateb iddynt.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mai darpariaeth arbenigol i'r unigolion hynny sydd wedi profi trawma lefel uchel sy'n costio fwyaf, ac nad yw'r Cyngor yn gallu eu diwallu oherwydd yr arbenigedd sydd ei angen a'r gost gysylltiedig. Er y byddai'r gorwariant yng Ngwasanaethau Plant wedi bod yn sylweddol uwch pe na bai'r Cyngor wedi buddsoddi i ddatblygu ei ddarpariaeth gofal maeth a chartrefi clyd, mae achosion mwy cymhleth gan gynnwys plant ag anableddau, yn aml yn gofyn am ddarpariaeth y tu allan i'r ardal, sy'n gostus.



DRAFT

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd at y newid o ran demograffeg ac at boblogaeth sy'n heneiddio ar Ynys Môn sydd â goblygiadau o ran y galw am wasanaethau gofal. Mae'r system gyllido bresennol yn anghynaladwy ac mae angen ei diwygio o ystyried yr heriau cynyddol ym maes gofal cymdeithasol a'r pwysau ar gyllidebau neu fel arall bydd mwy o gynghorau mewn trafferthion ariannol oherwydd nad ydynt yn gallu rheoli'r galw o fewn system gyllido nad yw'n addas i'r diben.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a osodwyd yn Atodiad A a B yn yr adroddiad mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.**
- **Nodi'r crynodeb ar gyfer cyllidebau wrth gefn 2023/24, fel y nodwyd yn Atodiad C.**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH, D a DD.**
- **Nodi bod balans o £15.694m yn cael ei amcangyfrif ar gyfer balansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024.**

**7. ALLDRO CYFALAF 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 sy'n destun archwiliad i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a roddodd grynodeb o'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn unol â pharagraff 1.2 yr adroddiad. Cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 oedd £67.788m, o'r swm hwnnw, gwariwyd £50.574m neu 75% ohono hyd at 31 Mawrth 2024 gan roi tanwariant o £17.214m.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bwysigrwydd arian grant yn rhaglen gyfalaf y Cyngor, gyda 63% o'r gyllideb a 59% o'r gwariant gwirioneddol yn cael ei ariannu gan grantiau cyfalaf - rhai ohonynt yn cael eu sicrhau drwy broses gystadleuol. Nid yw lefel y tanwariant ar y rhaglen yn annisgwyl o ystyried nifer y prosiectau mawr, cymhleth dan sylw ac mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn ymwneud â phrosiectau mawr lle mae materion neu oedi annisgwyl wedi digwydd gan achosi i brosiectau lithro; darperir trosolwg o'r prosiectau hyn ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad. Mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn wedi'i sicrhau a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25 ac ni fydd y Cyngor yn colli adnoddau. Fodd bynnag, mae disgwyl i danwariant ar y Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol gael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru. Eglurodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai nad oedd yn bosibl cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor sy'n cynnwys gwaith yn gysylltiedig â RAAC yn Ysgol Uwchradd Caergybi. Gwnaed cais i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i ddwyn y tanwariant ymlaen ond ni chafodd ei gymeradwyo.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn dibynnu ar arian grant ar gyfer cyfran uchel o'i gynlluniau cyfalaf a diolchodd i'r Swyddogion am neilltuo eu hamser a'u gwaith yn cystadlu am nifer o'r grantiau sy'n allweddol i gynnal rhaglen gyfalaf y Cyngor. Er i'r aelodau bwysleisio pwysigrwydd gwneud y mwyaf o gyfleoedd grant, nodwyd hefyd y gall nifer o grantiau a ddyfernir fod at ddiben penodol ac ar gyfer prosiectau nad ydynt efallai'n flaenoriaeth i'r Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr, pan fo grantiau'n cael eu dyfarnu drwy broses gystadleuol, fod angen amser, arbenigedd ac elfen o fenter gan Swyddogion i nodi cyfleoedd a sicrhau'r cyllid yn ogystal â rheoli'r gwariant ar ôl hynny. Fodd bynnag, wrth i'r Cyngor gwtogi capasiti, mae

perygl y bydd llai o gapasiti ac arbenigedd i ymgeisio am grantiau yn y dyfodol a fydd yn golygu bod angen rheoli disgwyliadau ac efallai y bydd yn rhaid blaenoriaethu'r grantiau y mae'r Cyngor yn cystadlu amdanynt.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2023/24 fydd yn destun Archwiliad.**
- **Cymeradwyo dwyn ymlaen £15.499m i 2024/25 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 yw £59.337m.**

## 8. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – ALLDRO 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 ar gyfer y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a nododd fod gwarged a gynlluniwyd o £8.044k. Y gyllideb cyfalaf gros ar gyfer 2023/24 oedd £19,988k gyda grant a chyllid arall o £6,898k yn lleihau'r gyllideb £13,090k. Roedd y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg cyllidebol wedi'i gynllunio o £5,046k a fyddai'n cael ei ariannu o gronfa wrth gefn y CRT.

Mae gwir warged refeniw CT o £8, 727 yn uwch na'r lefel gwarged a gynlluniwyd o £683k fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad. Roedd tanwariant o £182k ar alldro o ran gwariant cyfalaf fel y nodir yn Atodiad B. Roedd incwm grant £801k yn uwch na'r gyllideb gyda chyfraniadau eraill £538k yn is na'r gyllideb. Ar alldro, roedd tanwariant o £44k o ran gwariant cyfalaf net. Derbyniwyd swm ychwanegol o £509k trwy werthu 4 annedd dan drefniant rhannu ecwiti, cafodd hwn ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn a glustnodwyd. Ar alldro, roedd y diffyg (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £3,918k, £1,127k yn is na'r gyllideb. Mae hyn yn golygu fod balans cau cronfa wrth gefn y CRT yn £8,189k. Mae'r balans wedi'i glustnodi a dim ond ar gael i ariannu gwariant y CRT yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y strategaeth CRT fel y'i nodir yng Nghynllun Busnes 30 mlynedd y CRT fel un sydd i ddefnyddio gwarged refeniw y CRT fel cyfraniad tuag at wariant cyfalaf i gynnal y stoc bresennol yn unol â safonau SATC gyda chronfa wrth gefn y CRT yn cael ei defnyddio i ariannu datblygiad cartrefi newydd. Wrth i gronfa wrth gefn y CRT ostwng i'r lefel y cytunwyd arni yn y Cynllun Busnes, sef tua £1m i £1.5m, bydd y cyngor yn benthyca i barhau â'r broses adeiladu a'r costau'n cael eu hariannu o'r incwm a geir o'r cartrefi newydd a ddatblygwyd eisoes.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a osodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24.**

## 9. CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2023/24 A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft (CIES) ar gyfer 2023/24 a chyflwynwyd y Fantolen ddrafft ar 31 Mawrth 2024 i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o falansau cyffredinol y Cyngor, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, balansau ysgolion a chronfa'r CRT.

DRAFT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a nododd fod cyfrifon drafft y Cyngor wedi cael eu hanfon ymlaen i Archwilio Cymru i'w harchwilio o fewn y dyddiad cau a bennwyd ac wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Gorffennaf 2024.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y CIES sy'n dangos sefyllfa incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer 2023/24 gan gynnwys cost gwasanaethau yn seiliedig ar arferion cyfrifyddu yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o drethi. Adroddodd ar y newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn a balansau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024 fel y'u crynhoir ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad a dywedodd fod y ffigurau a gyflwynir yn destun archwiliad ac y gallent newid. Y balans ar y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2024 yw £15.604m (gan gynnwys y tanwariant o 2023/24) neu 8.95% o gyllideb gwariant net 2023/24. Defnyddiodd y Cyngor £4.425m o'r gronfa wrth gefn hon fel cyllid ar gyfer cyllideb 2024/25 sy'n lleihau'r balans net sydd ar gael i £11.179m neu 6.08% o gyllideb gwariant net 2024/25. Argymhelliad y Swyddog Adran 151 a gymeradwywyd gan y Cyngor yw y dylid cadw 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net fel isafswm balans o'r gronfa wrth gefn ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Yn seiliedig ar yr argymhelliad hwn, dylai'r isafswm balans fod yn £9.2m sy'n golygu bod £2m o falansau i'r Cyngor uwchlaw'r isafswm ffigur hwn. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2025/26 yn ymddangos yn heriol. Mae'r gwarged mewn balansau cyffredinol yn cryfhau sefyllfa'r Cyngor ac yn rhoi cyfle iddo ddefnyddio ei falansau cyffredinol yn 2024/25 yn ychwanegol at setliad Llywodraeth Cymru a chyllid y Dreth Gyngor. Hefyd bydd cadw at y gyllideb yn helpu sefyllfa'r Cyngor gan y bydd yn rhaid i unrhyw orwariant ddod o'r balansau cyffredinol. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer 2025/26 eisoes wedi dechrau.

Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 hefyd at falansau ysgolion sydd, er eu bod wedi gostwng, yn parhau i fod mewn cyflwr cymharol iach yn gyffredinol, ac at gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac a gedwir at ddibenion penodol. Mae Tabl 4 yr adroddiad yn nodi'r cronfeydd wrth gefn newydd a grëwyd yn 2023/24 a'r rhesymau dros eu creu a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo hyn.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith yn cwblhau'r cyfrifon drafft ar amser a'u cyflwyno i'w harchwilio.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon Drafft llawn ar gyfer 2023/24 ar y ddolen a ganlyn:-** [Datganiad-or-cyfrifon-Drafft-2023-2024.pdf (llyw.cymru)]
- **Nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor, sef £15.604m.**
- **Nodi balans y Cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sef £16.778m, a chymeradwyo creu £1.553m o gronfeydd wrth gefn newydd clustnodedig.**
- **Cymeradwyo, yn ffurfiol, trosglwyddo £2.002m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i Falansau Cyffredinol y Cyngor.**
- **Nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion, sef £5.577m.**
- **Nodi balans cronfa'r CRT, sef £8.189m.**

**10. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD: CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y

Pwyllgor Gwaith i sefydlu cynllun dirprwyo i sicrhau bod Cyngor yn cyflawni ei swyddogaeth statudol mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd.

Rhoddodd Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni drosolwg o broses archwilio'r NSIP a rôl statudol y Cyngor mewn perthynas ag NSIP a dywedodd ei bod yn ystyried bod angen sefydlu cynllun dirprwyo i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol o ran ymwneud â phrosiect mawr sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol er mwyn gallu cyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiad cau a bennir gan yr Arolygiaeth Gynllunio a chymryd rhan yn y broses archwilio naill ai drwy wrandawiadau neu ymchwiliadau. Gan mai'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gosod amserlen yr archwiliad, nid yw'n bosibl sicrhau bod y dyddiadau cau i'r Cyngor gyflwyno sylwadau a thystiolaeth yn cyd-fynd â chylch pwyllgorau'r Cyngor. Am y rheswm hwn, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi cynllun dirprwyo sy'n caniatáu i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn perthynas â NSIP. Rhoddodd Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni sicrwydd y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud ym mhob cam i roi cyfle i gymaint o fewnbwn gwleidyddol â phosibl drwy drefniadau llywodraethu presennol.

Yn yr un modd, nid yw'r amserlen archwilio a gadarnhawyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn caniatáu digon o amser i gyfieithu ceisiadau'r Cyngor erbyn y dyddiad cau. Felly gwneir cais i wyro oddi wrth ofynion polisi Iaith Gymraeg y Cyngor er mwyn caniatáu i'r gwaith o gyfieithu ceisiadau'r Cyngor ar gyfer y broses archwilio gael ei wneud ar ôl y dyddiad cau. Ni fydd hyn yn cael effaith ar gydymffurfio â safonau darparu gwasanaeth statudol, sy'n sicrhau gohebiaeth Gymraeg/ddwyieithog gyda'r cyhoedd a phobl eraill yng Nghymru. Darperir fersiwn Gymraeg o geisiadau'r Cyngor bob amser ac ni fydd unrhyw ddogfen yn cael ei chyhoeddi nac ar gael i'r cyhoedd nes bod cyfieithiad Cymraeg ar gael.

Ychwanegodd y Cynghorydd Nicola Roberts eu bod wedi trafod yn anffurfiol y posibilrwydd o ysgrifennu at yr Arolygiaeth Gynllunio i dynnu sylw at y ffaith nad yw'r amserlen archwilio fel y'i pennwyd yn caniatáu i'r cyngor gyflwyno dogfennau dwyieithog, gyda'r bwriad o adolygu'r amserlen ar gyfer y dyfodol fel bod modd gwneud hynny.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai llythyr i'r perwyl hwnnw'n cael ei anfon at yr Arolygiaeth Gynllunio.

**Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn cefnogi'r canlynol -**

- **I ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd (neu pa bynnag wedi ei ddirprwyo i Ddeilydd Portffolio a enwebwyd gan yr Arweinydd), i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ac sy'n gofyn am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel y diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**
- **Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), i ddiweddaru adran 3.5.3.10 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau a roddwyd gan y penderfyniad.**
- **Caniatâd i wyro oddi wrth ofynion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor er mwyn galluogi i gyfieithiad Cymraeg o sylwadau'r Cyngor gael ei hanfon at yr Arolygaeth Gynllunio yn dilyn eu cyflwyno yn y Saesneg. (Mae'r eithriad ei angen oherwydd nad yw**

DRAFT

**amserlen archwiliad NSIP yn caniatáu amser digonol i sylwadau'r Cyngor gael eu cyfieithu erbyn y dyddiad cyflwyno).**

**11. CYFLWR ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL GOGLEDD YNYS MÔN A'R ACHOS DROS FUDDSODDI A CHYMORTH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Adroddiad Effaith Economaidd-Gymdeithasol Gogledd Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai fel sail dystiolaeth i nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol sy'n wynebu Gogledd Ynys Môn yn ogystal ag uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer buddsoddi i fynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol penodol yn yr ardal. Mae Gogledd yr Ynys wedi bod yn dirywio ers nifer o flynyddoedd wrth i fusnesau cyflogi mawr gau, wrth golli swyddi o ansawdd da ac wrth i siaradwyr Cymraeg a phobl o oedran gwaith adael yr ynys gan adael ar ei hôl boblogaeth sy'n heneiddio ac economi sydd mewn trafferthion. Er bod Gogledd Ynys Môn yn cynnwys traean o'r Ynys, mae gan yr ardal lai na 10% o'r holl swyddi yn Ynys Môn ac mae ei thref fwyaf, Amlwch, o fewn y 30% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth gadarn a chyfiawnhad dros ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at y materion, yr heriau a'r cyfleoedd o ran Gogledd Ynys Môn ac i ddadlau dros fuddsoddi a chymorth i fynd i'r afael â dirywiad economaidd yr ardal.

Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd, er bod yr adroddiad wedi'i lunio o safbwynt datblygu economaidd, ei fod yn berthnasol i holl wasanaethau'r Cyngor a'i fod yn bwysig felly bod unrhyw ymyriadau/atebion yn cael eu gwneud ar sail Cyngor cyfan a bod y Cyngor hefyd yn parhau i ymgysylltu'n agos â Llywodraethau Cymru a San Steffan a gyda phartneriaid strategol eraill i fwrw ymlaen â'r mater hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi cymryd y cam beiddgar o ddod â'r heriau sy'n wynebu Gogledd Ynys Môn i sylw'r cyhoedd mewn adroddiad sy'n ddeunydd darllen dyrys iawn. Er bod y Cyngor yn gwneud pob ymdrech gyda'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r sefyllfa yng Ngogledd Ynys Môn, mae ystyriaethau polisi ar lefelau llywodraeth Cymru a'r DU a thrwy'r NDA sy'n ymestyn y tu hwnt i gyrhaeddiad y Cyngor. Mae'r llythyr arfaethedig at Lywodraeth Cymru yn bwysig ac mae angen ei gylchredeg yn fwy eang a chynnal trafodaethau brys am y sefyllfa er mwyn osgoi dirywiad pellach. Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Ynys Môn hefyd yn gysylltiedig â newid o ran demograffeg a cholli trigolion rhwng 25 a 50 oed dros y degawd diwethaf a fydd, os bydd y tueddiad yn parhau, yn arwain at oblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'n gofyn am gynllun strategol i nodi weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal gan ystyried anghenion y genhedlaeth nesaf. Mae'r Cyngor, drwy gyhoeddi'r adroddiad a'r asesiad o'r materion, yn cymryd y dull strategol hwnnw gyda'r nod o ddod â'r sefydliadau perthnasol ynghyd i osod amcanion a sicrhau y bydd y penderfyniadau a wneir yn creu dyfodol gwell i'r genhedlaeth nesaf yng Ngogledd Ynys Môn.

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith fod Gogledd Ynys Môn yn ardal sydd angen sylw a'i bod yn adlewyrchu'r dirywiad sy'n gallu digwydd pan fydd busnesau'n cau, cyfleoedd gwaith yn lleihau a phobl yn symud allan o'r ardal yn sgil hynny. Mae'r dystiolaeth a'r data a gasglwyd yn darparu sail ar gyfer cymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r problemau yng Ngogledd Ynys Môn ac i hybu'r gwaith o adfywio'r ardal.

**Penderfynwyd –**



DRAFT

- **Nodi Adroddiad Effaith Economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn a chynnwys yr adroddiad fel ei fod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa bresennol, y tueddiadau, y cyfleoedd a'r heriau.**
- **Cefnogi'r Arweinydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet newydd dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r materion, heriau a chyfleoedd.**
- **Cefnogi gweithgareddau parhaus y Cyngor i nodi a sicrhau cyllid allanol i hwyluso gweithgareddau adfywio yn y dyfodol.**
- **Sicrhau bod Swyddogion ac Aelodau Etholedig yn defnyddio'r data sydd yn yr Adroddiad Effaith i wneud penderfyniadau gwybodus fel Cyngor llawn i gyflawni Cynllun y Cyngor (2023-2028).**

**Y Cynghorydd Robin Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Medi 2024 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard<br>Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2024 – Mai 2025;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2024 – Mai 2025 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Cyfnod: Hydref 2024 – Mai 2025

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 13 Medi 2024

## Hydref 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 22 Hydref 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd | Cyng Robin Williams | |
| | Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2023/24 | Cyng Robin Williams | |
| | Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol | Cyng Dafydd Rhys Thomas | |



## achwedd 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 26 Tachwedd 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 14 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>5 Tachwedd 2024 |
| | Sylfaen y Dreth Gyngor 2025/26 | Cyng Robin Williams | |
| | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 20 Tachwedd 2024 |
| | Cynllun Strategol Môn Actif | Cyng Neville Evans | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 14 Tachwedd 2024 |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn – Achos busnes llawn | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Asesiad y Farchnad Dai Leol | Cyng Gary Pritchard | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 14 Tachwedd 2024 |



## Rhagfyr 2024

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 10 Rhagfyr 2024 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Cyng Carwyn Jones | |

## Ionawr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Ionawr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |

## Chwefror 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 18 Chwefror 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |

## Mawrth 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25 Mawrth 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | Cynllun Strategol ruag at Sero Net | Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 12 Mawrth 2025 |
| | Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd Lleol | Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 11 Mawrth 2025 |

Tudalen 18

## Ebrill 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 29 Ebrill 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |

## Mai 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod mis Mai 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Robin Williams | |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Medi 2024 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1 (2024/25) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Mae dangosyddion plant a theuluoedd i gyd yn wyrdd yn erbyn eu targedau
- 29 o ysgolion wedi eu dynodi yn eco-sgolion
- Holl ddangosyddion Tai yn wyrdd yn erbyn eu targed
- Mae'r dangosyddion cynllunio (Economi 4 & 5) yn wyrdd ac yn perfformio yn well na'r targedau.

**1.3** **Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.**

**1.4** Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

**1.4.1** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen;
**1.4.2** Canran o fusnesau risg uchel wedi cael eu arolygu yn unol a safonau hylendid bwyd, a
**1.4.3** Gweithio gyda Gwasanaethau i sicrhau y gellir adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol lle nad oes ganddynt ddata ar gyfer Ch1, o Ch2 ymlaen er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o berfformiad a thueddiadau.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai dangosyddion perfformiad o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| | (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 17/09. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 1 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2024/25

## Adroddiad Chwarter 1



**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Medi 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**Yr Iaith Gymraeg** | **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | **Addysg** | **Tai** | **Economi** | **Newid Hinsawdd**

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

Tudalen 23

1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 24/25 wrth gyflawni gweithgareddaru dydd i ddydd y Cyngor sy’n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.

1.3 Mae nifer o DPA yn newydd, nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd tueddiadau’n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2024/25 gyda’r nod o osod targedau yn 2025/26.

1.4 Mae’n darparu’r dystiolaeth i alluogi’r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arwainyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.

1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio i gyd yn gronnol ac felly bydd colofn tuedd ar gael o Ch2 i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i’r llall chwarter.

1.6 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o’r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy’n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na’r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na’r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i’r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (94%) y dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Dim ond dwy ddangosydd oedd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn targedau, sef:

2.2.1 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – COCH – 71%, Targed – 80%

Arolygwyd 22 o'r 31 arolygiad a oedd i fod i'w cynnal yn ystod Ch1. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod y targed o 80% yn cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn drwy fonitro argaeledd staff i gynnal yr arolygiadau ac adleoli gwaith arall os oes angen. Wrth ddal i fyny â'r archwiliadau, bydd y gwasanaeth yn blaenoriaethu'r busnesau sydd â'r risg uchaf i'r cyhoedd yn y lle cyntaf.

2.2.2 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – AMBR – 83%, Targed – 90%

Cafwyd cyfanswm o 247 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod Ch1 ac ymatebwyd i 205 ohonynt o fewn yr amserlen. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynyddu'r gyfradd ymateb ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth, ond oherwydd yr angen i wneud arbedion, mae rhywfaint o leihad mewn capasiti i ymdrin â thasgau o fewn y gwasanaethau yn golygu bod y targed o 90% yn parhau i fod yn un anodd.

2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

2.3.1 Roedd 95% o'r holl oedolion oedd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol
2.3.2 Mae holl ddangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (dangosyddion Gofal Cymdeithasol a Llesiant 6 – 10) yn wyrdd yn erbyn targedau
2.3.3 Mae 29 o ysgolion wedi eu dynodi yn Eco-Sgolion ar yr ynys
2.3.4 Mae'r holl ddangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr amcan Tai yn Wyrdd yn erbyn targedau
2.3.5 Mae'r dangosyddion cynllunio gyda thargedau (Dangosyddion Economi 4 a 5) yn wyrdd ac yn perfformio'n well na'r targedau ar gyfer y chwarter
2.3.6 Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff a adroddwyd (Newid Hinsawdd 4-5) yn Wyrdd yn erbyn targedau

## 3. Yr Iaith Gymraeg

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 01) Canran o swyddi hysbysebir gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 4 neu 5 | | | | Data ar gael Ch3 |
| 02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg | 43 | | | |
| 03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg | 2 | | | |
| 04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg | 0 | | | |
| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg | 8% | | | |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg | 15% | | | |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor | 23% | | | |
| 08) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth fel rhan o raglen ARFOR | 15 | | | |
| 09) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] | 68.46% | 69.30% | Melyn | |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol | 212 | 224 | Melyn | |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol | 89.36% | 90% | Melyn | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol | 94.95% | 85% | Gwyrdd | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal, fel ac yr oedd pethau ar 31 Mawrth | 289 | 352 | Gwyrdd | |
| 05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 94.30% | 93% | Gwyrdd | |
| 06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter | 142 | 270 | Gwyrdd | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr | 0 | 15 | Gwyrdd | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 7.50% | 15% | Gwyrdd | |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 94.12% | 90% | Gwyrdd | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni | 100% | 85% | Gwyrdd | |
| 11) Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden | 130704 | 115000 | Gwyrdd | |
| 12) Canran y cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | | | | Data ar gael Ch3 |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) | 91.98% | | | |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) | 87.10% | | | |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] | | | | |
| 04) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd | | | | |
| 05) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn | 1 | | | |
| 06) Nifer yr ysgolion â statws Eco-ysgol | 29 | | | 2 Ysgol Uwchradd a 27 Ysgol Cynradd |
| 07) Môn Actif – Nifer y plant sy'n cael gwersi nofio drwy gydol y flwyddyn | 1847 | 1900 | Melyn | |
| 08) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol | 14 | | | Canlyniad 2023/24 |
| 09) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol | 6 | | | |

# 6. Tai

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol | | | | Data ddim ar gael oherwydd problemau cael adroddiadau o'r sustem. Dylai'r data bod ar gael yn Ch2 |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol | 88% | 85% | Gwyrdd | |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | 26 | 35 | Gwyrdd | |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau bach a chanolig (<£36k) | 185 | 185 | Gwyrdd | |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau mawr (>£36k) | - | 211 | | Dim addasiadau mawr yn Ch1 |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor | 22 | 11 | Gwyrdd | |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol | 3.02 | 3.1 | Gwyrdd | |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag | 16 | 12 | Gwyrdd | |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref | 92.60% | 85% | Gwyrdd | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) | 185 | - | | |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd | 85 | - | | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 01) Y % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd | 38% | | | |
| 02) Canran yr unedau busnes a osodwyd gan y Cyngor | 86% | | | |
| 03) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol | 179 | | | |
| 04) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | 97% | 90% | Gwyrdd | |
| 05) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 97% | 80% | Gwyrdd | |
| 06) Nifer yr apeliadau cynllunio a ganiatawyd (fel % o'r holl ceisiadau cynllunio) | 1% | | | |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | 71% | 80% | Coch | Arolygwyd 22 o'r 31 arolygiad a oedd i fod i'w cynnal yn ystod Ch1.<br>Bydd y gwasanaeth yn sicrhau y bydd y targed o 80% yn cael ei gyrraedd yn ystod y flwyddyn. |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd | 98% | 95% | Gwyrdd | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 | Sylwadau Ch1 |
|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladu'r cyngor (tC02e) | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | | | | Nid yw'r data llawn ar gyfer Ch1 ar gael eto |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu'r Cyngor | 48.28% | | | |
| 04) Canran y strydoedd sy'n lân | 96.60% | 96% | Gwyrdd | |
| 05) Nifer y dyddiad a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 0.04 | 1 | Gwyrdd | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e) | 162 | | | |
| 10) Cyfran y cerbydau carbon isel (trydan) yn fflyd y Cyngor | 12% | | | |
| 11) Nifer y gwefrwyr cerbydau trydan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt | 49 | | | |

# 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | RAG | Budget | Actual | Variance (%) | Forcasted Actual | Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) | Melyn | £179,738,000 | | | £180,418,000 | 0.38% |
| 02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) | | £69,361,000 | | | £68,659,000 | -1.01% |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd | -£4,088,676 | -£4,522,447 | 10.61% | | |
| 04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn | | | | | -£10,991,950 | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer | Gwyrdd | 2.62% | | | 2.62% | |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb | | | 1 | | | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | Melyn | | 97.6% | | | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | Melyn | | 93.2% | | | |

| | Ch1 | Targed Ch1 | CAMG Ch1 |
|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol | 7 | 12 | Gwyrdd |
| 10) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | 83% | 80% | Gwyrdd |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | 100% | 80% | Gwyrdd |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser | 83% | 90% | Ambr |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) | 50% | | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2406 | | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 2.09 | 2.13 | Gwyrdd |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.93 | | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.16 | | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) | | | |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith | | | |

## 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 94% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.

10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn::**

10.3.1 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd;

10.3.2 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser;

10.3.3 Gweithio gyda Gwasanaethau i sicrhau y gellir adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol lle nad oes ganddynt ddata ar gyfer Ch1, o Ch2 ymlaen er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o berfformiad a thueddiadau.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 24 Medi 2024 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (2023/24) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

1 **Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor. Argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu yr adroddiad yn y cyfarfod Cyngor Medi 26**

**2** Mae'r adroddiad yn rhoid diweddariad ar berfformiad y Cyngor, yn cynnwys, crynhoi:

**2.1.1** Dogfen Gyflawni Blynyddol 2023/24

**2.1.2** Cerdyn sgorio 2023/24

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn crynhoi perfformiad y Cyngor yn ystod 23/24 a sut mae'r Gwasanaethau wedi perfformio yn erbyn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol, Dogfen Gyflawni Blynyddol a Cyllideb. Mae'n rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrwydd o berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad o fewn rhai meysydd o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, bydd hyn yn bwydo mewn i'r cerdyn sgorio a dogfen gyflawni y flwyddyn ganlynol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn yr adroddiad mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, Stena a Busnesau Lleol, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 17/09. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# Adroddiad Blynyddol Perfformiad a Llesiant 2023/24

**Paratowyd gan –** Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi –** Medi 2024


Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg / This document is available in English


# Cyflwyniad

Mae’r Adroddiad Perfformiad a Llesiant blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn rhoi trosolwg o’r gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cydweithrediad â’n cymuned wydn.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno blwyddyn o gyflawniadau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein hynys ac yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi Cynllun y Cyngor er gwaethaf yr heriau economaidd sydd o'n blaenau.

Isod ceir rai o’r uchafbwyntiau allweddol ym mherfformiad eleni. I gael gwybod sut y byddwn yn monitro perfformiad ewch i [www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad](www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad)




Tudalen 37

# Datblygiadau yn erbyn chwe amcan strategol y Cyngor

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau Cynllun y Cyngor 2023/24 yn cael eu trafod yn yr adran nesaf hon o'r adroddiad.

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

## Yr Iaith Gymraeg

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Gweithredu cynllun gwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), gan ddefnyddio dull integredig ac adrodd ar ei gyflawni** | Yn ystod y flwyddyn hon, mae ysgolion wedi cael cefnogaeth y Gwasanaeth Dysgu, y canolfannau iaith, y Siarter Iaith a GwE i sicrhau darpariaeth o safon sy'n adlewyrchu categorïau ysgolion ac anghenion plant y sir.<br><br>Datganodd Ysgol Uwchradd Caergybi ei bwriad i symud tuag at ysgol cyfrwng Cymraeg (categori 3) erbyn 2029 ac mae bwrdd prosiect CSGA wedi'i sefydlu i gefnogi'r ysgol.<br><br>Trafododd y Pwyllgor Sgriwtini Partnership ac Adfywio adroddiad cynnydd ar CSGA ym Mehefin 2024. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **b) Cydweithio i hyrwyddo ap OgiOgi fel adnodd defnyddiol i helpu rhieni a gofalwyr i wella eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant** | Mae Swyddog Marchnata a gyflogir gan Menter Môn ac a ariennir hyd at fis Rhagfyr 2024 wedi'i phenodi yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith hyrwyddo ar y gweill.<br><br>Mae ap OgiOgi yn cynnig trysorfa o wybodaeth gyda mwy na 400 o ddolenni defnyddiol i adnoddau lleol a chenedlaethol - gan gynnwys gwybodaeth am feichiogrwydd, iechyd, gwasanaethau, hawliau, lles, a chyfleoedd hamdden. Mae hefyd yn cynnwys adran ar ddatblygiad plant ac arweiniad ar fanteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg o'r crud. Mae yna hefyd ddigonedd o weithgareddau hwyliog i blant a rhieni eu mwynhau. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **c) Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg ar gael i staff a gweithio gyda Phrifysgol Bangor i dreialu'r rhaglen ARFer, sy'n ceisio newid arferion iaith fel bod cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi datblygu'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg) yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith** | Tri dosbarth Cymraeg i staff yn cael eu cynnal ar lefel mynediad, sylfaen a chanolradd ers Medi 2023.<br><br>Nid oedd y brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor dreialu ARFer yn ystod y flwyddyn ond bu'r Cyngor yn cydweithio â'r brifysgol i gynnig mwy o gyfleoedd ymarfer i ddysgwyr lefel uwch. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **d) Sicrhau, drwy asesiad blynyddol ac arolygon siopwyr cudd, ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg** | Asesodd y Tîm Rheoli Corfforaethol gydymffurfiaeth y Gwasanaethau â dyletswyddau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Roedd sicrwydd cyffredinol bod gwasanaethau yn bodloni gofynion y safonau a'n polisi iaith. Daw hyn yn bennaf oherwydd bod ein swyddogion yn gallu'r Gymraeg a lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r gofynion yn ogystal â chanlyniadau ymarfer siopwyr cudd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.<br><br>Nodwyd rhai heriau, yn benodol anawsterau wrth recriwtio swyddogion cymwys i swyddi o natur arbenigol. Ceir heriau hefyd o ran allanoli gwasanaethau i gwmnïau nad ydynt yn deall natur ddwyieithog gwaith y Cyngor. Mae cydweithio â chwmnïau preifat, sy'n darparu arbenigedd technegol yn bennaf, yn aml yn golygu ymdrech ychwanegol sylweddol gan swyddogion y Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n ddwyieithog.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg yn yr adroddiad blynyddol. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **e) Gweithio gyda Fforwm Iaith Ynys Môn i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned ac adnabod ffynonellau i ariannu gweithgareddau cymunedol** | Mae sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth yr ynys yn parhau i fod yn flaenllaw yng ngwaith Fforwm Iaith Ynys Môn.<br><br>Un o brif gyfrifoldebau'r fforwm yw cadw golwg strategol ar y Gymraeg mewn addysg ac, eleni, hefyd, mae'r fforwm wedi sefydlu is-grwpiau thematig i sicrhau bod ei dargedau'n cael eu cyflawni ar y cyd. Y targedau yw: 'Y Gymraeg yn y gweithle', 'Trosglwyddo teulu ac iaith', 'Cymuned a phobl ifanc', 'Addysg' a 'Seilwaith a gwaddol'. Crynhowyd adnoddau i gyfoethogi'r gwaith oedd eisoes yn digwydd ac i ychwanegu gwerth. Mae modd cael rhagor o wybodaeth yma. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Hyrwyddo gwersi Cymraeg ymhlith rhieni, newydd-ddyfodiaid a ffoaduriaid a sicrhau bod deunyddiau dysgu'r Gymraeg ar gael ar ein gwefan** | Mae pecynnau croeso ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffoaduriaid wedi cael eu dosbarthu ledled cymunedau Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.<br><br>Mae gwybodaeth wedi'i diweddaru am y Gymraeg ym Môn gan gynnwys sut a lle i ddysgu Cymraeg, Cymraeg mewn addysg, Cymraeg mewn busnes, enwau lleoedd a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar wefan y Cyngor. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **g) Darparu adnoddau ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau ar Caru Iaith** | Mae adnoddau mewnrwyd Caru Iaith ar gyfer ysgolion a lleoliadau wedi eu diweddaru yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru am y flwyddyn. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **h) Bydd llyfrgelloedd yn gweithio gyda darparwyr addysgu a dysgu i gynnig cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg yn eu cymunedau** | Wrth weithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r Cyngor wedi –<br>• nodi anghenion dysgu Cymraeg y gymuned<br>• cynnal digwyddiad cwrdd â'r prynwr ar gyfer darparwyr posibl<br>• sefydlu fframwaith i is-gontractio darparwyr i ymgymryd â'r cyrsiau<br>• Diweddaru'r gwahanol ffyrdd o ddysgu Cymraeg yn y gymuned ar wefan dysgucymraeg.cymru<br><br>Y bwriad yw ei weithredu ym Medi 2024 | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **i) Sefydlu a darparu grant newydd Cymunedau Mentrus Arfor ar Ynys Môn, a sicrhau digon o gapasiti ar gyfer ei gyflawni'n effeithiol** | Mae 14 o geisiadau wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm grantiau gwerth £550,000 wedi'u dyfarnu. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **j) Cymryd rhan mewn cynlluniau a rhaglenni rhanbarthol Arfor 2 a gwneud y mwyaf o'r buddion i Ynys Môn.** | Mae pedwar prosiect ar Ynys Môn wedi eu cymeradwyo drwy'r Gronfa Her a'u gweithredu, gan gynnwys rhai gan M-Sparc a chwmni Haia. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

Tudalen 41

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Ymgynghori â'r cyhoedd ar ddyfodol Cyfleoedd Dydd ar yr ynys gyda'r nod o gryfhau cyfleoedd cymunedol trwy weithio ac integreiddio gyda'n Hybiau Cymunedol** | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda defnyddwyr a thrafodaeth yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gymeradwyo argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn –<br><br>Integreiddio defnyddwyr gwasanaeth o fewn y gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynd i weithgareddau i gael canlyniadau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd y darperir Gwasanaethau Dydd gyda phwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd a wneir o Morswyn wedi lleihau, dod a'r gwasanaeth presennol i ben. Datgan nad oes angen yr eiddo mwyach a gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan adrannau eraill. Os na nodir defnydd, gwerthu'r eiddo, a throsglwyddo'r derbynebau i Adran y Gwasanaethau Oedolion. Sicrhau bod mesurau trosiannol ar gael i ddefnyddwyr a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei addasu i ddefnyddwyr dros dro. Sicrhau hefyd fod adnoddau/cyfleusterau yn y gymuned yn briodol ac yn cwrdd ag anghenion unigolion. | Wedi'i gwblhau |
| **b) Mapio'r holl weithgareddau a gwella gwybodaeth am ddata lleol i fynd i'r afael â thlodi ar yr ynys gan ganolbwyntio ar dlodi bwyd a thanwydd yn ogystal â lleihau digartrefedd a dyled** | Defnyddiwyd gweithgareddau a data i greu Dangosfwrdd Costau Byw sydd ar gael i staff a Chynghorwyr. Defnyddir y data hwn i helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chânt eu diweddaru'n rheolaidd.<br><br>Mae tudalen we sydd ar gael i'r cyhoedd ar gostau byw wedi'i diweddaru ar wefan y Cyngor. Arni mae gwybodaeth am sefydliadau a all helpu unigolion a theuluoedd, cyllid sydd ar gael tuag at gostau'r cartref a budd-daliadau, cymorth gyda gofal plant, gwybodaeth am ddigartrefedd, cymorth gydag iechyd meddwl a lles, a llawer mwy. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **c) Lansio'r Strategaeth Drws Cywir trwy ddatblygu ac ehangu'r trefniadau hwb cynnar yn broses cyfeirio fyw gan weithio mewn fforwm amlddisgyblaethol** | Mae gwaith wedi mynd rhagddo i roi'r Strategaeth Drws Cywir ar waith yn ystod 2023/24. Mae'r ganolfan ymyrraeth gynnar yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos i sicrhau y caiff cyfeiriadau eu trafod, a bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer unigolion.<br><br>Mae proses newydd hefyd ar gyfer plant ag awtistiaeth, neu sy'n aros am ddiagnosis swyddogol o awtistiaeth, wedi'i rhoi ar waith i symleiddio penderfyniadau ac ymyraethau. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **d) Datblygu cyfleoedd i bobl ag anghenion iechyd meddwl** | Cynhaliwyd rhaglen lwyddiannus o weithgareddau ymyrraeth ar gyfer unigolion â diagnosis iechyd meddwl trwy gydol y flwyddyn. Sefydlwyd partneriaeth gydag Oriel Môn lle bu unigolion yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau celf dros gyfnod o chwe wythnos, gyda'r gwaith celf a gynhyrchwyd ganddynt yn cael ei arddangos i bob ymwelydd ei weld. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **e) Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan trwy wella'r gwasanaeth a gynigir yn yr Hybiau Cymunedol Integredig gan gynnwys datblygu a darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar integreiddio a hygyrchedd** | Sefydlwyd canolfan dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni.<br><br>Mae sesiynau hyfforddi ar hygyrchedd ac integreiddio wedi'u cynnal mewn hybiau cymunedol ledled yr ynys.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn gyda'r Bws Dementia sy'n fodd i bobl brofi'r daith synhwyraidd o sut y gallai deimlo i fyw gyda dementia, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddementia a sicrhau bod gwell cefnogaeth yn y gymuned. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol drwy'r fforymau Pobl Hŷn a Lleol fel y gall unigolion ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisïau a chyflawni gwasanaethau** | Cyfarfu fforwm pobl hŷn, a gydnabyddir yn ffordd effeithiol o sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn mewn fforymau cymunedol lleol, yn ogystal â'r fforwm ynys gyfan.<br><br>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, hefyd, ar gyfer pobl dros 50 oed drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dau ddiwrnod agored yng Nghaergybi a Llangefni i gynyddu ymwybyddiaeth a niferoedd i gymryd rhan. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **g) Sefydlu a Datblygu Rhwydwaith Oed-gyfeillgar a dod yn aelodau o Rwydwaith Byd-eang Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).** | Mae Ynys Môn wedi'i derbyn yn aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang o Gymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys dros 1,400 o gymunedau mewn 51 o wledydd ar draws y byd. Yn aelod newydd o'r rhwydwaith, daw Ynys Môn yn rhan o fudiad byd-eang sy'n gweithio i greu cymunedau lle gall pawb yno edrych ymlaen at heneiddio'n dda. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **h) Adolygu'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol a gweithio gyda darparwyr tai i sicrhau opsiynau llety addas** | Mae adolygiad o'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol wedi'i gynnal. Cynhaliwyd, hefyd, drafodaethau gyda darparwyr allanol a theuluoedd. Cymerodd y gwaith hwn fwy o amser nag a feddyliwyd yn wreiddiol oherwydd gostyngiad yn y cyllid oedd ar gael a bod angen adolygu'r ddarpariaeth gyda rhai darparwyr allanol. | Gwaith yn parhau yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol am 24/25 |
| **i) Agor ein trydedd darpariaeth Cartref Clyd (Cartrefi Grŵp Bach).** | Agorwyd trydydd Cartref Clyd yn Rhos-y-bol yn Awst 2023 | Wedi'i gwblhau |
| **j) Gweithio tuag at ddod yn Ynys sy'n ystyriol o drawma drwy sicrhau bod pum ysgol wedi'u hachredu yn Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma.** | Mae llawer o weithgareddau wedi'u cynnal o ran yr Ynys sy'n Ystyriol o Drawma yn ystod y flwyddyn.<br>Aeth dros 150 o staff i sesiynau hyfforddi gyda Dr Coral Harper ar drawma<br>Defnyddiwyd arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin fel bod Ynys Môn yr awdurdod cyntaf yn y DU i gynnal cwrs ar drawma yn benodol ar gyfer rhieni maeth.<br>Hyfforddiant pellach i staff ysgol yn ogystal â llywodraethwyr ysgol | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
| --- | --- | --- |
| **k) Buddsoddi £1m yn adeiladau ein canolfannau hamdden a rheoli gwaith gosod cae 3G newydd yn Ysgol Uwchradd Bodedern** | Mae gwaith gwella gwerth dros £1m wedi'i wario ar adeiladau canolfannau hamdden Ynys Môn drwy gydol y flwyddyn. Ymhlith y pethau y gwariwyd arnynt mae–<br>• Cae 3G yn Ysgol Uwchradd Bodedern<br>• Llawr newydd ei osod yn y brif neuadd, gwaith atgyweirio i'r cyrtiau sboncen, ffenestri newydd, atgyweirio to a gwelliannau i'r ystafelloedd newid yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.<br>• Mae gwaith helaeth wedi'i wneud yng Nghanolfan Hamdden Amlwch gyda buddsoddiad o hyd at £600,000 ar brosiectau amrywiol. Ymhlith y prosiectau mae ystafell newid gwlyb newydd i'r anabl, toiledau newydd, drysau awtomatig newydd, ffenestri newydd, gwaith to a lloriau newydd gan gynnwys llawr newydd yn y neuadd chwaraeon.<br>• Llifoleuadau LED newydd ar gae 3G Plas Arthur, gan gynnwys ychwanegu dwy golofn newydd er mwyn cael mwy o orchudd.<br>• Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw amrywiol yng Nghanolfan Hamdden David Hughes | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **l) Rhoi cyfleoedd nofio am ddim i ofalwyr ifanc a gweithio tuag at gynyddu nifer y plant sy'n cael gwersi nofio, wrth gynnal 500,000 o ymweliadau â'n canolfannau hamdden yn flynyddol** | Bu 515,000 o ymweliadau i wneud gweithgareddau corfforol yn y canolfannau hamdden drwy gydol 2023/24.<br><br>O'r ymweliadau hynny, cafodd bron i 1900 o blant a phobl ifanc wersi nofio gan staff MônActif. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

## Addysg

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn ei le ym mhob ysgol a bod systemau wedi'u datblygu i fesur effaith gwaith sy'n ymwneud â llesiant, cynhwysiant a lles ar blant, pobl ifanc a'r gweithlu.** | Dilynir Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol.<br><br>Mae systemau digonol ar waith i sicrhau bod llesiant dysgwyr a'u cynnwys yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Mae data i bawb yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Gwasanaeth Dysgu a'r Panel Craffu Addysg yn ogystal â diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gynnydd.<br><br>Trefnwyd digwyddiad Iechyd a Llesiant ar gyfer staff ysgol Corn Hir gyda thua 70 o staff yn mynd i'r digwyddiad. Mae digwyddiad tebyg wedi'i gynllunio ar gyfer 24/25. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| **b) Sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i roi prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd.** | Mae pob ysgol gynradd yn rhoi prydau ysgol am ddim i ddisgyblion.<br><br>Derbyniodd Ysgol Gynradd Bodffordd uned symudol newydd er mwyn trosglwyddo ystafell ddosbarth o'r prif adeilad. Bydd hyn yn fodd i'r hen ystafell ddosbarth gael ei defnyddio fel ffreutur ac i'r ysgol ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion ar y tro. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| **c) Cryfhau trefniadau cydweithio integredig gyda gwasanaethau / asiantaethau allanol i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i blant, pobl ifanc ac ieuenctid Ynys Môn, mewn modd cynhwysol ac arloesol** | Bu i'r berthynas a'r cydweithio rhwng gwasanaethau mewnol ac allanol â'r Cyngor gryfhau drwy gydol y flwyddyn.<br>Mae peth o'r gwaith ynghylch Ynys sy'n Ystyriol o Drawma wedi'i ddiweddaru yn j uchod.<br>Mae'r cydweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid wedi'i gryfhau i nodi a gweithio gyda darpar fyfyrwyr NEET yn gynharach.<br>Mae'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (ADYaCh) yn parhau i weithredu'r Strategaeth Cynhwysiant ADY gan weithio ar y cyd â llawer o arbenigwyr allanol gan gynnwys Prifysgol Betsi Cadwaladr a SNAP Cymru.<br>Mae gwaith yn parhau i gryfhau ymhellach y cymorth sydd ei angen ar ein plant a'n pobl ifanc. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
| --- | --- | --- |
| **d) Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ar draws yr Ynys, mewn cydweithrediad â GwE** | Darparwyd llawer o gyfleoedd gyda GwE yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhaglen datblygu arweinyddiaeth i staff addysgu a datblygiad llywodraethwyr gyda llywodraethwyr ysgol.<br><br>Yn dilyn penderfyniad cenedlaethol i ddirwyn i ben gonsortiwm rhanbarthol, gan gynnwys GwE, yn 24/25, ni fydd cyfleoedd pellach i ddatblygu arweinyddiaeth gyda GwE. Datblygir trefniadau amgen i gymryd lle'r hyn a gynigir gan GwE. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| **e) Cyflwyno'r cynllun i ddenu cynorthwywyr addysgu i'r proffesiwn, gan gynnwys gweithio gyda'r coleg a darparu cyfleoedd hyfforddi lleol** | Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses recriwtio newydd o fewn Addysg mewn perthynas â denu cynorthwywyr addysgu i'r proffesiwn o'r coleg. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| **f) Gweithredu'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned** | Wrth weithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r Cyngor wedi –<br>• nodi anghenion dysgu Cymraeg y gymuned<br>• cynnal digwyddiad cwrdd â'r prynwr ar gyfer darparwyr posibl<br>• sefydlu fframwaith i is-gontractio darparwyr i ymgymryd â'r cyrsiau | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| **g) Ymgynghori ar y strategaeth newydd i Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, ei mabwysiadu a gweithredu'r rhaglen waith gysylltiedig** | Moderneiddio Cymunedau Dygu and Darblygu'r Gymraeg<br>Cytunwyd ar y strategaeth ac mae rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn unol â hynny. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| **h) Ymchwilio i ddulliau o foderneiddio a datblygu darpariaeth ôl-16 a chyfleoedd dysgu er mwyn gosod cyfeiriad a mabwysiadu strategaeth ôl-16** | Mae gwaith ar droed i ymchwilio i ddulliau o foderneiddio a datblygu darpariaeth ôl-16 a chyfleoedd dysgu er mwyn gosod cyfeiriad a mabwysiadu strategaeth ôl-16. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |

| | Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|---|
| i) | **Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n gallu rhedeg y Cynllun SHEP (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol) yn ystod gwyliau'r haf** | Bellach mae chwe ysgol yn eu lle i redeg y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) yn ystod gwyliau'r haf | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| j) | **Mabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer darparu Gwasanaethau Llyfrgell a dechrau ei chyflwyno** | Mae strategaeth ddrafft wedi'i pharatoi ar gyfer darparu Gwasanaethau Llyfrgell. Mae disgwyl i'r pwyllgorau drafod y drafft yn ystod 2024/25. | Yn parhau i mewn i 24/25 |
| k) | **Sicrhau bod ein plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i leisio eu barn yn ystod y flwyddyn pan fydd y Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ar wahanol faterion yn ymwneud ag addysg** | Mae fforwm Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn wedi ei sefydlu gyda dau gynrychiolydd o bob ysgol yn cael gwahoddiad i bob fforwm. Mae un fforwm wedi ei gynnal gyda chyflwyniadau a thrafodaethau ar fersiwn ddrafft y Strategaeth Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Drafft a'r ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 24/25. | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |
| l) | **Adolygu Strategaeth yr Archifau ac Oriel Môn a'u cysoni fel bod modd helpu i barhau i gadw ein statws achredu** | Roedd y ddwy strategaeth wedi'u cysoni er mwyn helpu i barhau i gadw'r statws achredu | Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau |

## Tai

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy** | Mae gwaith datblygu ar gyfer Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol newydd wedi symud yn ei flaen yn dda yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cyflwynwyd yr Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru.<br><br>Y bwriad yw llunio cais cyn-cynllunio yn gynnar yn 2024/25. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **b) Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu trwy Ddulliau Adeiladu Modern yn unol â Thystysgrif Perfformiad Sylfaenol Ynni gradd A** | Mae pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â'r Dulliau Adeiladu Modern, gan gynnwys y stad newydd yn Llys Llwydiarth, Pentraeth. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **c) Cyfrannu at weithredu Strategaeth Tai Lleol y Cyngor drwy ddatblygu 30 o dai newydd a phrynu 15 o gyn-dai Cyngor.** | Mae 18 o Gyn-dai Cyngor wedi'u prynu yn ystod 2023/24 ac mae gwaith wedi'i wneud neu wrthi'n cael ei wneud i'w hychwanegu at y stoc sydd ar gael.<br><br>Mae deg uned newydd yn Llys Llwydiarth, Pentraeth wedi eu cwblhau ac mae tenantiaid wedi symud i mewn. Mae gwaith wedi dechrau ar hen safle Ysgol Niwbwrch lle mae 14 o unedau newydd yn yr arfaeth. Mae deg uned wedi eu prynu ym Mharc y Coed, Llangefni. Mae wyth uned yn y broses o gael eu hadeiladu yng Ngharreglwyd, Caergybi. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **d) Defnyddio Premiwm Treth y Cyngor i hwyluso gwaith adfer 70 o gartrefi gwag, cynorthwyo hyd at 20 o brynwyr tro cyntaf sy'n dod i mewn i'r farchnad eiddo a rhoi cymorth i aelwydydd lleol sy'n ceisio tai sy'n fforddiol eu rhent ar y farchnad agored yn eu cymunedau.** | Bu Premiwm Treth y Cyngor yn gymorth i adfer 71 o gartrefi gwag yn ystod y flwyddyn.<br><br>Cyflwynwyd 18 grant i brynwyr tro cyntaf Ynys Môn yn ystod 2023/24, yn ogystal ag i wyth o drigolion ychwanegol a brynodd gyda chymorth cytundeb ecwiti a rennir gyda Tai Teg. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **e) Defnyddio data a gasglwyd yn Arolwg Cyflwr Stoc 2022 i nodi'r buddsoddiad sydd ei angen yn y dyfodol i sicrhau y gall Stoc Tai Cyngor fodloni Safonau newydd Ansawdd Tai Cymru.** | Yn dilyn penodi cwmni arbenigol, mae'r Cyngor wedi dechrau ar y gwaith o sefydlu Llwybrau Ynni Targed unigol ar gyfer yr holl stoc tai. Y disgwyl yw cwblhau'r gwaith hwn yn 2024/25.<br><br>Cytunwyd ar y manylebau technegol ar gyfer y gwaith gofynnol a'r disgwyl yw y bydd y dogfennau tendro'n fyw ar GwerthwchiGymru erbyn diwedd Chwarter 2 2024/25. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Lansio ein porth tenantiaid Digidol newydd er mwyn gwella'r dulliau cyswllt i'n tenantiaid** | Mae'r Porth Tenantiaid Digidol bron wedi'i gwblhau ond nid yw wedi'i lansio. Y prif reswm am yr oedi yw'r gwaith uwchraddiadau TG ychwanegol yr oedd angen i'r tîm Tai eu cwblhau cyn lansio'r porth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae'r prosiect yn llithro i mewn i waith 2024/25, gyda'r nod o lansio'r porth yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. | Heb ei gwblhau |
| **g) Paratoi ar gyfer y newid i system ddigidol yn 2025 drwy asesu ein systemau mynediad drws Stoc Tai'r Cyngor ac ailfodelu ein datrysiadau teleofal gwifrau caled i fod yn atebion cludadwy sy'n seiliedig ar anghenion unigol** | Mae gwaith i uwchraddio'r stoc Teleofal wedi dechrau gyda thua 900 o unedau wedi'u prynu gan y darparwr newydd, Chiptech.<br><br>Cyhoeddodd BT na fydd y Newid i System Ddigidol bellach yn digwydd tan Ionawr 2027. Mae'r Cyngor, felly, ar y blaen ac mae ganddo amser i sicrhau bod y systemau newydd yn gweithio fel y dylent. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **h) Paratoi, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Tai Gwag newydd ar gyfer 2023-2028** | Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar Strategaeth Tai Gwag yn ystod 2023/24. Pwrpas y Cynllun Strategol Tai Gwag yw sicrhau y cedwir nifer yr eiddo gwag cyn ised â phosibl ac annog perchnogion i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd. | Wedi'i gwblhau |
| **i) Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Chymru i gefnogi pobl sy'n dod i fyw i Ynys Môn o ganlyniad i loches drwy weithredu Pecyn Cymorth Gwasgaru Lloches Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru.** | Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r DU i gefnogi pobl sy'n dod i fyw i Ynys Môn o ganlyniad i loches. Ni chafwyd ceisiadau am loches am ran helaeth o'r flwyddyn, ond mae'r Cyngor wedi derbyn nifer fach o geisiadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Cwblhau unedau busnes ychwanegol yn Llangefni a Chaergybi yn ogystal â sicrhau caniatâd cynllunio llawn ar fwriadau i adeiladu unedau busnes yn Amlwch.** | Mae unedau busnes Llangefni a Chaergybi wedi eu cwblhau ac mae ganddynt denantiaid ynddynt neu maent ar gael i'w rhentu. Mae caniatâd cynllunio llawn i adeiladu unedau busnes yn Amlwch hefyd yn ei le. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **b) Ymgynghori ar y Strategaeth Ganol Trefi a Chynlluniau Creu Lleoedd newydd ar gyfer y pum tref yn Ynys Môn a sicrhau cyllid i gyflawni gwelliannau i Ganol ein Trefi** | Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar Strategaeth Gwella Canol Trefi newydd ym Medi 2023 yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus<br><br>Mae dwy swydd wedi'u llenwi er mwyn helpu i greu cynlluniau ar gyfer canol y trefi yn ogystal â chael gafael ar arian am y datblygiadau. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **c) Darparu grantiau'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i ogledd Ynys Môn yn ogystal â gweithio ar y cyd â phartneriaid i fwrw ymlaen â datblygiad Parcdir Trefol** | Cytunwyd ar ganiatâd cynllunio llawn i greu unedau busnes yn Amlwch.<br>Mae cais cynllunio llawn ar gyfer datblygiad parcdir trefol gyda Chymdeithas Amlwch wedi ei gyflwyno.<br>Mae grantiau cymunedol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear wedi cael eu dosbarthu yng ngogledd Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.<br>Ceir rhagor o wybodaeth am Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn ar wefan y cyngor | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **d) Gweithio gyda Stena, Llywodraeth Cymru a'r DU a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau cyfleoedd buddsoddi i Borthladd Caergybi** | Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Stena, Llywodraeth Cymru a'r DU i chwilio am gyfleoedd buddsoddi i Borthladd Caergybi.<br><br>Sicrhawyd arian tuag at adfer Morglawdd Caergybi. Mae'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn wrthi'n cael eu datblygu i'w cyflwyno yn 24/25. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **e) Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sefydlu parth tollau diogel yng Nghaergybi a safleoedd eraill ar Ynys Môn** | Sicrhaodd Cyngor Môn a Stena Line Statws Porthladd Rhydd yn 2023 ac yna gyflwyno Achos Busnes Amlinellol am Borthladd Rhydd Môn, prosiect trawsnewidiol sydd ar fin ysgogi twf economaidd a chreu nifer o gyfleoedd swyddi ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru.<br><br>Yn yr Achos Busnes Amlinellol, a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ceir manylion helaeth am sut y mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn bwriadu gweithredu. Yn ogystal â hyn, diffinnir lleoliadau treth a thollau cychwynnol penodedig fydd o fewn ffin y Porthladd Rhydd.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am y Porthladd Rhydd, gan gynnwys diweddariadau ar y gwaith a wnaed yn Prosperity Parc (hen safle Alwminiwm Môn) ar gael ar Wefan Porthladd Rhydd Ynys Môn. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Cydweithio â Rhaglenni Twf Gogledd Cymru a dylanwadu arnynt i sicrhau'r manteision lleol gorau posibl** | Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn aelod o amrywiol Fyrddau Rhaglen o fewn y Bwrdd Uchelgais i ddylanwadu ar y prosiectau a ddarperir ar Ynys Môn i wneud y mwyaf o gyfleoedd a buddion. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **g) Gweithredu Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus.** | Mae gan y Cyngor dîm cyflawni ar waith ar gyfer y rhaglen.<br><br>Mae'r rhaglen yn cynnwys datblygu eiddo gwag yng Nghaergybi, trawsnewid blaenau'r traeth ar Draeth y Newry, ehangr Cyfadeilad yr Empire, ehangu Canolfan Celfyddydau Ucheldre, trawsnewid Sant Cybi ac Eglwys y Bedd, gwneud gwelliannau i fannau ymwelwyr ym Morglawdd Caergybi ac adnewyddu eiddo yng nghanol y dref. Ceir rhagor o wybodaeth am y datblygiadau a diweddariadau ar y cynnydd gyda'r gwaith ar Wefan y Cyngor.<br><br>Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn rhan o agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a bydd yn rhoi cyfanswm o £16.1 miliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol ar Ynys Môn erbyn mis Mawrth 2025.<br><br>Gyda chymorth partneriaid lleol, dewisodd Cyngor Sir Ynys Môn 25 o brosiectau o bob rhan o Ynys Môn iddynt gael cyllid o ddyraniad Ynys Môn o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Wefan y Cyngor. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
| --- | --- | --- |
| **h) Sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel i'w defnyddio ac yn cael eu cynnal a'u cadw** | Parhau i fod mewn cyflwr da oedd hanes ffyrdd Ynys Môn yn ystod 23/24. Roedd y tri dangosydd yn ymwneud â chyflwr y ffyrdd yn Wyrdd yn erbyn y targed –<br><br>1. Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael - 2.7%<br>2. Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael - 2.3%<br>3. Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael - 7.5% | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **i) Rheoli asedau morol a chefn gwlad y Cyngor yn ddiogel ac yn effeithiol gan gynnwys rheoli Ynys Llanddwyn, Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy a Pharc Gwledig Morglawdd Caergybi.** | Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod asedau morwrol a chefn gwlad y Cyngor yn cael eu rheoli'n ddiogel. Mae peth o'r gwaith a wnaed yn ystod 23/24 yn cynnwys:<br>• Cynnal a chadw a nodi gwaith cynnal a chadw ym Mhorth Amlwch, Pier San Siôr a Phier Biwmares,<br>• Adolygu ffïoedd a thaliadau'r angorfeydd morwrol, cofrestriadau cychod a lansiadau<br>• Agorwyd swyddfa newydd i wardeniaid ym Mharc Gwledig y Morglawdd<br>• Cynhaliwyd arolygon coed yn Nant y Pandy a chael gwared â choed anniogel<br>• Cynlluniau a chyllid wedi'u rhoi yn eu lle i uwchraddio'r llwybr pren presennol yn Nant Eirias yn ystod 2024/25 | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **j) Gosod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr yn ogystal â gwella llwybrau troed, cyfleusterau beicio, cyfleusterau ailgylchu, mannau gwefru cerbydau trydan a mynediad ac arwyddion ledled yr ynys.** | Sicrhawyd cyllid Y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae gwaith wedi dechrau i wella pum treial arfordirol cylchol, cyfleusterau beicio a mwy.<br><br>Gohiriwyd gosod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr a dygwyd cyllid ymlaen i 2024/25. | Rhywfaint o waith wedi'i gwblhau ond y gwaith yn parhau i mewn i 24/25 |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **k) Mabwysiadu a chyflwyno Cynllun Rheoli AHNE a Chynllun Cyrchfan, a hynny mewn ymgynghoriad â phartneriaid a thrigolion** | Lansiwyd yn llwyddiannus Gynllun Rheoli AHNE newydd yn ystod y flwyddyn. Pwrpas Cynllun Rheoli'r AHNE yw gwerthuso a phennu nodweddion arbennig yr AHNE, ac mae'n nodi pa gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu cadw a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Cafodd Cynllun Rheoli Cyrchfan ei lansio yn ystod y flwyddyn, hefyd. Mae'r cynllun hwn yn ceisio gwella ysbryd o gydweithio a meddwl cyfannol i ddatblygu arlwy sy'n gwella'r rhinweddau allweddol hyn ac yn rhoi manteision economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau lleol. | Wedi'i gwblhau |
| **l) Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a newid parthau 30mya i barthau 20mya ac ymgynghori â chymunedau penodol (sydd wedi'u heithrio o'r rheol 20mya) i gyflwyno ardaloedd 20mya mewn ardaloedd poblog (adeiledig)** | Cafodd yr holl barthau 20mya eu nodi a'u newid yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru | Wedi'i gwblhau |
| **m) Cyflawni gwelliannau seilwaith twristiaeth fel rhan o Raglen Ariannu Y Pethau Pwysig 2** | Cwblhawyd prosiect Pethau Pwysig Ynys Môn oedd yn gwella cyfleusterau cyhoeddus ym Menllech, Porth Swtan, Trearddur a Phorth Dafarch yn ystod 23/24. | Wedi'i gwblhau |
| **n) Croesawu 50 o longau mordeithio i'r ynys a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithgareddau Llongau Mordeithio ar y tir** | Llwyddodd Llongau Mordeithiau i ddocio ym Mhorthladd Caergybi drwy gydol y tymor a chroesawyd gweithgareddau ar y tir. | Wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **o) Cynyddu gwaith monitro meysydd parcio a strydoedd sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn annog ymddygiad da ymwelwyr o ran parcio** | Bu mwy o fonitro meysydd parcio a strydoedd y Cyngor drwy gydol 23/24. Dim adroddiadau o faterion difrifol ac ymddygiad da gan fwyafrif helaeth yr ymwelwyr. | Wedi’i gwblhau |
| **p) Gweithredu Cod Ymddygiad Afon Menai i sicrhau y caiff y Fenai ei rheoli’n ddigonol ac yn effeithiol** | Cynhaliwyd adolygiad o'r tîm morwrol ac mae cynllun gwella wedi'i ddatblygu i weithredu a rheoli Cod Ymddygiad Afon Menai yn effeithiol. Bydd y Cynllun Gwella’n cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn 2024/25 | Wedi’i ohirio oherwydd gwaith adolygu’r tîm arforol. Gwaith yn parhau i mewn i 24/25 |

## Newid Hinsawdd

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **a) Buddsoddi yn ein hadeiladau i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau'r defnydd o ynni, a lleihau allyriadau carbon y Cyngor** | Mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu ei raglen ReFit i osod mesurau effeithlonrwydd ynni ac mae gwaith datblygu'r Porthladd Solar Ceir yn parhau.<br><br>Er mwyn parhau i fuddsoddi yn ein hasedau, mae'r Cyngor wedi cael £14M mewn grant Gwres Carbon Isel i fuddsoddi mewn pympiau gwres ffynhonnell aer, mesurau perfformiad ynni a gwaith uwchraddio seilwaith mewn 27 o leoliadau ar draws yr Ynys. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **b) Cyflawni ein cynllun trawsnewid fflyd trwy gynyddu nifer y cerbydau trydan yn ein fflyd a chynyddu'r defnydd a wneir ohonynt wrth ddarparu ein gwasanaethau** | Ehangodd ein fflyd cerbydau trydan gyda 22 o gerbydau'n cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn, O'r herwydd, cynyddu ei maint i 10% o'r fflyd gyffredinol.<br><br>Defnyddiwyd y fflyd cerbydau trydan gan staff y cyngor i yrru 120,466 o filltiroedd yn ystod 2023/24, gan leihau'r allyriadau carbon o ganlyniad i ostyngiad yn y defnydd a wnaed o'r fflyd petrol, disel ac LPG. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **c) Newid sut rydym yn gweithio i leihau'r defnydd a wnawn o ynni ac allyriadau carbon e.e. trwy symud i ddatrysiadau TG yn y cwmwl** | Gwnaethpwyd llawer o waith i foderneiddio ein systemau TG a chronfeydd data yn ystod y flwyddyn. Cafodd caledwedd, gan gynnwys gliniaduron a gweinyddwyr, eu huwchraddio i offer mwy newydd a mwy effeithlon. Symudodd y Cyngor hefyd dair cronfa ddata TG fawr i dechnoleg cwmwl. Bydd y cam hwn yn helpu i leihau allyriadau carbon ar y safle yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd a gwydnwch y tair system.<br>Dechreuwyd hefyd ar ragor o waith i symud mwy o systemau i dechnoleg cwmwl yn ystod 2023/24 a'r disgwyl yw y cânt eu cwblhau yn 2024/25. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **d) Gweithio tuag at darged Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% erbyn 2025** | Llwyddodd y Cyngor i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 64.67% yn ystod 2023/24, y gyfradd uchaf ers sawl blwyddyn. Mae gwaith yn parhau tuag at gyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2025. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **e) Ceisio sefydlu Strategaeth Economi Gylchol mewn partneriaeth â Menter Môn i gyfrannu at wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff ar draws Ynys Môn** | Sicrhawyd arian grant yr Economi Cylchol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Y cynllun yw gweithio gyda Menter Môn i sefydlu lleoliadau trwsio ar yr Ynys yn ystod 2024/25. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **f) Sicrhau teithio cynaliadwy drwy weithredu cynlluniau teithio llesol yn Lôn Graig i Lôn Refail, Llanfairpwll, a gwelliannau llai eraill i'r rhwydwaith teithio llesol.** | Gyda chefnogaeth grant y prif gais Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru, cynhaliwyd gwaith i wella darpariaeth teithio llesol yng Nghaergybi a Bae Trearddur i wella isadeiledd ar gyfer cerddwyr a beicwyr, a chodi ymwybyddiaeth teithio llesol rhwng y ddau anheddiad.<br><br>Drwy'r rhaglen teithio llesol a chefnogaeth ariannol o £1.74m gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau mewn isadeiledd er mwyn annog teithio lleol carbon isel. Gyda phrif gynllun yng Nghaergybi i Fae Trearddur ar fin cael ei chwblhau, cynhwysodd y gwelliannau i osod llwybr aml ddefnydd newydd drwy lledu'r lled presennol, croesfannau newydd a gosod arwyddion i godi ymwybyddiaeth teithio llesol yn yr ardal.<br><br>Trwy'r grant craidd fe gwblhawyd gwaith man welliannau yn Amlwch, Malltraeth ac Y Fali er mwyn gwella diogelwch yr holl ddefnyddwyr drwy cymysgfa o welliannau yn y setliadau gan gynnwys: gwella gwyneb y llwybr, gwella croesfannau, arwyddion newydd ble yn briodol, ail-marcio'r ffordd, ac adnewyddu'r parth cyhoeddus yn benodol yn Malltraeth.<br><br>Yn ogystal â'r gwaith ar y ddaear, fe barhawyd i weithio ar astudiaethau blaen ddatblygu yn ardal Porth Amlwch i Amlwch, Benllech, a Phont Marcwis i Niwbwrch ble chynnalwyd ymgynghoriadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Hefyd parhawyd gyda dyluniadau manwl yn Llanfairpwll a dechrewyd astudiaethau yn ardal Gaerwen - Llanddaniel ac Llanfihangel yn Nhowyn - Y Fali. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

Tudalen 58

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **g) Defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a pharhau i weithredu'r Cynllun Mannau Gwefru drwy osod mannau gwefru cerbydau trydan mewn gwahanol leoliadau** | Mae mannau gwefru cerbydau trydan yn gyflym a osodwyd gan y cyngor sir yn boblogaidd gyda thrigolion ac ymwelwyr.<br><br>Yn ystod y 12 mis diwethaf maent wedi'u defnyddio bron i 5,000 o weithiau - gan sicrhau y gwefrir y cerbydau am 390,768 o filltiroedd o deithio - sy'n cyfateb i deithio o amgylch y Ddaear 15 o weithiau. Mae hyn wedi atal 75 tunnell o garbon rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer.<br><br>Mae modd gweld map gyda lleoliadau holl fannau gwefru cerbydau trydan Ynys Môn ar Wefan ZapMap a rhestr gyfredol o fannau gwefru'r cerbydau ar wefan y Cyngor. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **h) Parhau gyda gwaith cynnal y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybr yr arfordir** | Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, yn ogystal â chydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chynghorau Cymuned lleol i gynnal y llwybrau cyhoeddus a'r llwybrau arfordirol i safon mor uchel â phosibl. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **i) Cyflwyno prosiectau i wella bioamrywiaeth a gorchudd coed ar draws Ynys Môn a mapio ardaloedd addas ar gyfer ailblannu coed** | Mae prosiectau i wella bioamrywiaeth wedi parhau ar draws yr ynys gyda phrosiectau ar y gweill i wella pyllau bywyd gwyllt ym Mharc Gwledig y Morglawdd a datblygiadau natur a chynefinoedd newydd. Mae prosiectau plannu coed, hefyd, wedi arwain at blannu 2000 o goed yng Nghaergybi, Bodorgan, Benllech ac Aberffraw. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **j) Datblygu strategaeth 'Rheoli perygl llifogydd lleol' i nodi a blaenoriaethu ymyraethau tymor hir ar draws Ynys Môn.** | Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd bellach ar ffurf drafft terfynol a bydd yn dilyn proses ymgynghori cyhoeddus y Cyngor yn Ch2 2024/25 ac yna broses fabwysiadu'r Cyngor. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gwaith mabwysiadu'r strategaeth yn llawn wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2025. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **k) Cyflwyno cynlluniau rheoli llifogydd ar raddfa fach ar draws yr ynys a datblygu bwriadau ariannu ar gyfer ymyraethau risg llifogydd mawr** | Cyflwynwyd dau gynllun bach a chytunwyd ar y dyluniad ar gyfer pedwar cynllun bach arall.<br><br>Mae'r gwaith dylunio a datblygu ar ddau gynllun mawr yn parhau, gydag astudiaethau'n parhau mewn pedwar lleoliad arall y gellid bod angen cynllun ar raddfa fawr ar eu cyfer. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | Statws |
|---|---|---|
| **l) Sefydlu tîm polisi mewnol i gefnogi a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol** | Mae Tîm Polisi Cynllunio wedi'i recriwtio ac mae bellach yn ei swydd. Mae Cytundeb Cyflawni drafft wedi'i baratoi a fydd yn cyfrannu at greu Cynllun Datblygu Lleol newydd. | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **m) Ymgysylltu â datblygwyr prosiectau ynni mawr a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer manteision economaidd-gymdeithasol trawsnewidiol i'r ynys, gan fabwysiadu'r egwyddor agosrwydd a sicrhau manteision cymunedol a pherchnogaeth leol** | Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol ar brosiectau ynni mawr.<br>• Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU cyn prynu safle Wylfa ac wedi hynny, yn ogystal â chyda Great British Nuclear<br>• Ymgysylltu â llawer o randdeiliaid allweddol â diddordeb gan gynnwys yr Adran dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ), M-Sparc, Prifysgol Bangor, Coleg Menai, Menter Môn a mwy<br>• Fforymau niferus Ynys Ynni gyda chyflwyniadau gan Great British Nuclear ar ddatblygiadau ynni a Stena ar y Statws Porthladd Rhydd<br>• Cynrychiolaeth niferus mewn digwyddiadau yn Llundain (Wythnos Niwclear, wythnos arloesi Cymru) a Chaerdydd (Ynni Niwclear ac Economi Cymru) | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |
| **n) Cymryd rhan lawn yn y prosesau caniatáu statudol ar gyfer unrhyw brosiectau ynni carbon isel** | Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Cyngor wedi cymryd rhan lawn drwy'r rhaglen Ynys Ynni ac wedi rheoli ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses ganiatáu statudol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar:<br>• Hyb Hydrogen Caergybi<br>• Morlais<br>• Fferm Solar Traffwll<br>• System Storio Ynni Batri Carrog<br>• Materion cynllunio mewn perthynas â'r Safleoedd Porthladd Rhydd<br>• Ffermydd gwynt Morgan a Mona | Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau |

## Perfformiad Cyffredinol Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae 92% o ddangosyddion perfformiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn perfformio uwchlaw'r targed neu o fewn goddefiant o 5% i'w targedau am y flwyddyn. Dyma'r adroddiad cerdyn sgorio sy'n perfformio orau ers ei gyflwyno.

Dengys perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn y Cyngor ar gyfer yr holl ddangosyddion cymaradwy (cyfanswm o 35) bod 20 (57%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 13 (37%) wedi dirywio a 2 (6%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.
At ei gilydd, roedd 89% o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro'r Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn targed y flwyddyn.
Mae'r adroddiad cerdyn sgorio'n amlygu rhai o'r perfformiadau da. Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau hyn mae:

- Dangosyddion y Gymraeg mewn Ysgolion
- Dangosyddion Canolfan Hamdden MônActif a NERS;
- Nifer y tai gweigion a gafodd eu hailddefnyddio ar ôl bod yn segur;
- Dangosyddion Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion Rheoli Gwastraff,
- Dangosyddion Priffyrdd; a
- Y Dangosyddion Cynllunio 5.5 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn targedau.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu tri maes a danberfformiodd yn erbyn targedau a osodwyd. Trafodwyd y rhain gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith a bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn arwain y gwaith gwella ac yn ei fonitro. Y dangosyddion yw:

1. Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen;
2. Canran y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 ac sy'n NEET; a
3. Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i ddarparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Mae rhagor o wybodaeth, yn cynnwys yr holl ddangosyddion, i'w gweld yng Ngherdyn Sgorio Ch4 ar gyfer 2023/24

## Hunanasesiad Corfforaethol

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nodwyd gwaith monitro perfformiad pob awdurdod lleol ar sail hunanasesiad.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd ac a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn un o'r pum maen prawf ac wedi hynny fe'u heriwyd ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig a elwir yn broses Adolygu Gwasanaeth:


Nododd yr asesiad cyffredinol yn dilyn y broses Adolygu Gwasanaeth y graddfeydd a ganlyn:

| Maes a nodwyd | Sgôr y Perfformiad |
|---|---|
| **Cynllunio Gwasanaethau** | Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau |
| **Cynllunio Ariannol** | Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau |
| **Cynllunio'r Gweithlu** | Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau |
| **Rheoli Asedau** | Yn Bodloni Disgwyliadau |
| **Rheoli Contractau a Chaffael** | Yn Bodloni Disgwyliadau |
| **Rheoli Risg ac Archwiliadau** | Yn Bodloni Disgwyliadau |
| **Rheoli Perfformiad** | Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau |

Rhagor o wybodaeth ar Hunanasesiad Corfforaethol

## Alldro Refeniw Ariannol 2023/24

Mae rhaniad yr alldro refeniw fesul gwasanaeth am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2024, gan gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai, i'w weld yn y siart isod:




Rhagor o wybodaeth am yr Alldro Refeniw am 23/24 a'r CRT

Tudalen 63

## Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae amcanion strategol y Cyngor a amlinellwyd yng nghynllun y cyngor ac yr adroddir arnynt uchod, wedi'i llunio er mwyn cefnogi'r Cyngor yn ei ddyletswydd i gwrdd â'i hamcanion llesiant er budd cenedlaethau'r presennol a hefyd chenedlaethau'r dyfodol. Amcanion llesiant y Cyngor yw:

1. Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
2. Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
3. Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r amcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac amcanion strategol y Cyngor:

| Amcanion Llesiant y Cyngor | Amcanion Strategol y Cyngor | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Mwy Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Llesiant 1** - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir | Yr Iaith Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg, Tai a'r Economi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Amcan Llesiant 2** - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib | Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg a Tai | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Amcan Llesiant 3** - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | Yr Iaith Gymraeg, Economi, Newid Hinsawdd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 MEDI 2024** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2024/25** |
| **Deilydd Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN - RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**Argymhelliad**

**(i)** Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25;
**(ii)** Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH;
**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD.

**Rheswm**

Y sefyllfa gyffredinol a ragwelir ar gyfer y gyllideb refeniw ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw gorwariant o £90k (0.05%) ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 30 Mehefin 2024. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei grynhoi hefyd. Dylid nodi bod rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 1 yn anodd, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae rhai meysydd allweddol sy'n anodd eu rhagdybio a'u rhagweld mor gynnar â hyn yn y flwyddyn, a'r meysydd allweddol hynny yw:-

1. Newid yn y ceisiadau am wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw, yn bennaf lleoli plant mewn gofal, y galw am wasanaethau oedolion, digartrefedd, cludiant ysgol ac addysg all-sirol.
2. Cyddli grant a dderbynnir yn ystod y flwyddyn nad oedd yn hysbys.
3. Gwariant unwaith ac am byth nad oedd wedi cael ei rhagweld.
4. Anawsterau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at fwy o swyddi gweigion nag a ragwelwyd.
5. Dyfarniadau cyflog a chyllido costau cyfraniadau pensiwn uwch.

O ganlyniad i'r sefyllfa a rhagwelir a newidiadau eraill, bydd gan y Cyngor falans cyffredinol o £10.991m (6.96% o gyllideb refeniw net 2024/25) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac mae hyn £1.78m yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell i'r Cyngor.

Oherwydd bod y rhagolwg ariannol cyffredinol yn rhagweld gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chan fod disgwyl i lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, nid oes angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw gamau unioni.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol - Adroddiad monitro yw hwn ac nid yw'n cynnwys opsiynau i'w hystyried.

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae monitro cyllideb y Cyngor yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

| | | |
|---|---|---|
| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi. | | |
| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi, ond mae unrhyw newid o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei nodi yn yr adroddiad. | | |
| **Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill, i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Bydd yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2024/25 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2024 ac ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 1 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2024. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2024/25
- Atodiad B - Tabl Alldro Dros Dro 2024/25
- Atodiad C - Dadansoddiad o’r Amrywiant a Ragwelir fesul Gwasanaeth a’r Rhesymau
- Atodiad CH - Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2024/25
- Atodiad D - Gwybodaeth ynglŷn â monitro Staff Asiantaeth 2024/25
- Atodiad DD - Gwybodaeth ynglŷn â monitro ymgynghorwyr 2024/25

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)**

Cyllideb Refeniw 2024/25 (fel y’i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 29 Chwefror 2024 a’i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 7 Mawrth 2024).

# ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1 2024/25

## 1. Y GYLLIDEB REFENIW A GYMERADWYWYD AR GYFER 2024/25

**1.1** Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 fel a ganlyn:-

**Tabl 1**

**Cyllideb a Chyllid a Gymeradwywyd ar gyfer 2024/25**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwariant Refeniw wedi ei Gymeradwyo | 184,164 | |
| Diwygiadau i'r Gyllideb ers Cymeradwyaeth | | |
| Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | (4,425) | |
| Cyllideb Gymeradwy Gyfredol ar gyfer 2024/25 (Net o Gronfeydd wrth Gefn) | | 179,739 |
| **Cyllidwyd gan:** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 127,586 | |
| Debyd y Dreth Gyngor Safonol a Godwyd | 48,387 | |
| Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag | 3,766 | |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25** | | **179,739** |

## 2. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER Y GYLLIDEB AR DDIWEDD CHWARTER 1 2024/25

**2.1** Mae amcangyfrif o'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd chwarter 1 wedi'i gynnwys yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**

**Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol a Rhagwelir ar ddiwedd Chwarter 1**

| | 2024/25 Cyllideb | Ch1 Rhagolwg (Tan) / Gorwariant | % Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | % |
| Cyllidebau Gwasanaeth | **165,854** | **1333** | **0.8** |
| Cyllidebau Corfforaethol | **18,310** | **(652)** | **(4.7)** |
| Cronfeydd wrth Gefn | **(4,425)** | **0** | **0** |
| **Gwariant Refeniw Net** | **179,739** | **681** | **(3.9)** |
| Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun | **127,586** | **0** | **0** |
| Y Dreth Gyngor Safonol | **48,387** | **(68)** | **0.14** |
| Premiwm y Dreth Gyngor | **3,766** | **(523)** | **13.89** |
| Cyllid | **179,739** | **(591)** | **0** |
| **Rhagolwg Net (Tan) / Gorwariant** | **0** | **90** | **(0.33)** |

**2.2** Mae amcangyfrif o sefyllfa Balansau Cyffredinol y Cyngor i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**

**Amcangyfrif o Falansau Cyffredinol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2025**

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £'m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | (15,606) | Cronfa wrth Gefn Gyffredinol heb ei archwilio ar 31 Mawrth 2024 |
| Defnyddiwyd ar gyfer Cyllideb 2024/25 | 4,425 | |
| **Balans Diwygiedig Cronfa Gyffredinol y Cyngor** | **(11,181)** | |

**2.3** Rhyddhawyd swm o £100k o'r Balansau Cyffredinol yn ystod 2024/25 i gwrdd â chost delio gyda phroblem sydd wedi codi mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid. Mae cais am gyllid ychwanegol i gwrdd â'r cyfan neu ran o'r costau sy'n gysylltiedig â'r mater hwn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Os derbynnir cyllid ychwanegol bydd yn cael ei ychwanegu at falansau'r Cyngor, ond, ar ddiwedd chwarter 1 2024/25, cyfanswm y cyllid oedd ar gael oedd £11.081m.

## 3. PERFFORMIAD ARIANNOL FESUL GWASANAETH

**3.1** Dengys y sefyllfa gyfun gyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor fod gorwariant o £1,966k yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r dadansoddiad fesul gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Nhabl 4, isod:-

**Tabl 4**

**Dadansoddiad o'r Sefyllfa sy'n cael ei Ragweld ar gyfer y Gyllideb, fesul Gwasanaeth**

| | (Tan) / Gorwariant £'000 | % |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | (391) | (1.02) |
| Gwasanaethau Plant | 1,775 | 7.61 |
| Priffyrdd | (139) | (1.68) |
| Datblygu Economaidd | (135) | (4.13 |
| Adnoddau | (105) | (2.6) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer (Yswiriant, Costau Cyfalaf Pensiynau a Darpariaeth Dyledion Drwg) | 500 | |
| Gwasanaethau Arall (Amrywiant gwerth llai na £100k) | (172) | |
| **Cyfanswm Amrywiant Gwasanaeth** | **1,333** | **1.19** |

**3.2** Mae'r prif resymau am yr amrywiant yn cael eu crynhoi yn Nhabl 5, isod, ac mae dadansoddiad mwy manwl fesul Gwasanaeth ac Is-wasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad C:-

**Tabl 5**

**Dadansoddiad o'r Amrywiant a Ragwelir yn ôl Rheswm**

| | **Amrywiant a Ragwelir £'000** |
|---|---|
| Amrywiant mewn costau o ganlyniad i newid yn y galw am wasanaethau | 2,062 |
| Amrywiant mewn costau staffio sy'n codi o swyddi gweigion, net o gostau staff dros dro ychwanegol a staff asiantaeth | (907) |
| Newidiadau mewn prisiau contractau na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb a gymeradwywyd | 127 |
| Newidiadau mewn cyllid grant sy'n cynyddu neu'n lleihau'r gofyn am gyllid o'r gyllideb graidd | (74) |
| Incwm o ffioedd a thaliadau sy'n (uwch) / is na'r targed incwm | (620) |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig ag adeiladau | 123 |
| Amrywiant mewn costau sy'n gysylltiedig â chyflogi ymgynghorwyr allanol | 71 |
| Trosglwyddo cyllid i / (o) gronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol | (103) |
| Camgymeriadau yn y broses gosod cyllideb y gellir eu hadnabod yn rhwydd | 11 |
| Rhesymau amrywiol | 643 |
| **CYFANSWM YR AMRYWIANT A RAGWELIR** | **1,333** |

**3.3** tabl uchod yn amlygu mai cynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n parhau i greu'r prif bwysau ar gyllideb y Cyngor, ac mae'n gyfrifol am werth £2.06m o bwysau ychwanegol ar y gyllideb. Mae'r prif faes sy'n peri pryder o fewn y Gwasanaethau Plant, lle gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n gorfod cael eu lleoli gyda darparwyr all-sirol a chynnydd yng nghost pob lleoliad. Er hynny, mae'r sefyllfa yn y Gwasanaethau Oedolion wedi sefydlogi, ac mae'r gyllideb yn ddigonol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd. Mae'r galw am gludiant ysgol hefyd yn is, ond gallai'r sefyllfa newid ym mis Medi wrth i'r flwyddyn academaidd newydd gychwyn.

**3.4** Mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella o ganlyniad i swyddi gweigion, a rhagwelir tanwariant o £907k ar gyflogau, heb gynnwys unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o gyflogi staff dros dro a staff asiantaeth. Er hynny, mae problemau recriwtio yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor ac o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol yn golygu bod costau staff asiantaeth yn uwch na'r gyllideb staffio yn y gwasanaethau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am gostau asiantaeth i'w gweld ym mharagraff 7 ac yn Atodiad D.

**3.5** Bydd prisiau prydau ysgol yn codi ym mis Medi, a bydd hyn yn creu pwysau ar y gyllideb gan na fydd y cyllid grant ar gyfer y cynllun prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd yn cynyddu. Gellid lleihau'r pwysau hwn trwy godi cost prydau ysgol i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd.

**3.6** Mae'r sefyllfa wedi gwella mewn rhai meysydd o ganlyniad i gynnydd mewn cyllid grant, ond mae'r grant a ddefnyddir i gyllido Canolfannau Iaith Gymraeg wedi gostwng yn 2024/25, gan olygu fod gorwariant o £101k yn cael ei ragweld ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**3.7** Mae bob amser yn anodd rhagweld incwm a gynhyrchir trwy ffioedd a thaliadau, yn enwedig mor gynnar â hyn yn y flwyddyn ariannol, ond mae'r arwyddion yn awgrymu y bydd cyfanswm yr incwm £620k yn uwch na'r gyllideb, ac mae'r incwm yn y gwasanaethau Hamdden a Phriffyrdd yn sylweddol uwch na'r targed incwm.

## 4. PERFFORMIAD ARIANNOL CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

**4.1** Mae'r sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol yn cael ei ddangos yn Nhabl 6, isod:-

**TABL 6**

**Y Sefyllfa Ariannol a Ragwelir ar gyfer Cyllidebau Corfforaethol 2024/25**

| | 2024/25 Cyllideb £'000 | Ch1 Rhagolwg (Tan) / Gorwariant £'000 | Amrywiant % | Rheswm am yr Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| Ardollau | 4,931 | 0 | 0.00 | |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 105 | 26 | 24.48 | |
| Cyllido Cyfalaf | 5,753 | (604) | (1.21) | Llai o fenthyca a dychweliadau uwch ar fuddsoddiadau |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 7,392 | (498) | (6.73) | Llwyth achosion llai na'r disgwyl |
| Cyfraniad gwasanaethau Cefnogaeth gan CRT | (800) | 0 | 00.0 | |
| Arbedion cyllideb i'w cyflawni | (1,000) | 452 | 00.0 | Gwaith yn parhau i gyflawni'r arbedion |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac eraill | 1,929 | (28) | (1.470) | |
| Defnydd o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol | (4,425) | 0 | 0 | |
| **CYFANSWM** | **13,885** | **(652)** | **(0.85)** | |

## 5. CASGLU'R DRETH GYNGOR

**5.1** Mae cyllideb cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2023. Nid yw'n caniatáu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd a fu, addasiadau i rwymedigaethau yn codi o flynyddoedd y gorffennol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, neu ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn pan osodir y gyllideb ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Yn hanesyddol, bydd yr incwm a ragwelir ar gyfer y Dreth Gyngor yn gostwng yn ystod y flwyddyn wrth i gamau adennill gael eu cymryd ac wrth i drethdalwyr hawlio eithriadau a disgowntiau sy'n ddyledus iddynt. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £68k yn uwch na'r gyllideb.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, fel y cyfryw, mae risg y gallai nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, gosodwyd sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sy'n talu'r premiwm ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn cynhyrchu gwarged. Mae'r newid yn y rheolau cymhwystra yn gysylltiedig â threthi busnes ar gyfer llety hunanarlwyo yn golygu bod nifer o eiddo wedi cael eu trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Treth Gyngor, gan olygu fod mwy o eiddo yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi, ac mae hyn yn gwrthbwyso'r gostyngiad yn nifer yr eiddo yn sgil codi'r premiwm o 75% i 100%. Oherwydd hyn, rhagwelir gwarged o £523k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. ARBEDION CYLLIDEBOL 2024/25

**6.1** Fel rhan o'r gyllideb, gosodwyd targed o arbed £1m ar gostau staff. Byddai'r arbedion yn cael eu creu trwy asesu'r angen am swyddi wrth iddynt ddod yn wag. Nodwyd £548k o arbedion hyd yma ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi arbedion pellach wrth i swyddi ddod yn wag.

**6.2** Roedd y gyllideb hefyd yn cynnwys pecyn o arbedion cyllidebol gwerth cyfanswm o £1.165m, a oedd yn cynnwys dileu cyllidebau nad oeddent yn cael eu defnyddio, cynhyrchu incwm ychwanegol, lleihau grantiau i gyrff allanol a chwtogi rhai gwasanaethau. Nid yw'r gwaith monitro cyllideb wedi nodi unrhyw broblemau o ran gwireddu'r cynigion arbedion a wnaed.

## 7. COSTAU ASIANTAETH AC YMGYNGHORWYR

**7.1** Gwariwyd £290k ar staff Asiantaeth yn ystod y flwyddyn hyd yma. Roeddent yn cael eu cyllido’n rhannol yn bennaf o gyllidebau staff oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £163k yn ymwneud â gweithwyr llanw ar gyfer swyddi gweigion. Mae’r Gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £93k ar weithwyr mewn canolfannau hamdden. Mae manylion llawn wedi’u cynnwys yn Atodiad D.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £248k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin 2024, a chyllidwyd £159k o’r gwariant hwnnw gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae Atodiad DD yn cynnwys crynodeb llawn o’r gwariant fesul gwasanaeth, ynghyd â manylion ychwanegol am y gwariant.

## 8. CASGLIADAU

**8.1** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, rhagwelir gorwariant o £0.090m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae llunio rhagolwg cywir o’r sefyllfa ariannol mor gynnar â hyn bob amser yn anodd, ac mae’r sefyllfa’n debygol o newid wrth i wasanaethau ddelio â materion a’r galw am wasanaethau yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o faterion nad ydynt wedi cael eu datrys eto fydd hefyd yn effeithio ar y sefyllfa ariannol gyffredinol.

**8.2** Mae’r prif feysydd sydd heb eu datrys eto yn ymwneud â:-

**i.** Ni chytunwyd eto ar y dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon (o Ebrill 2024) ac athrawon (o fis Medi 2024). Mae’r ddarpariaeth a wnaed yn y gyllideb ar gyfer y dyfarniad cyflog i staff nad ydynt yn athrawon yn ddigon i gwrdd â chynnig tâl presennol y cyflogwyr. Fodd bynnag, mae’r Undebau’n ceisio dyfarniad cyflog uwch ac, ar hyn o bryd, maent yn ymgynghori â’u haelodau ar y posibilrwydd o streicio. Gallai cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth ynglŷn â chynnydd o rhwng 5% a 6% ar gyfer grwpiau cyflog sector cyhoeddus eraill roi pwysau ar y Cyflogwyr i gynyddu eu cynnig. Mae’r Cyngor hefo cronfa clustnodedig gwerth £1.7m i gwrdd â phwysau chwyddiant, ond efallai na fydd hyn yn ddigon os yw’r dyfarniad cyflog terfynol yn agos at yr hyn y mae’r Undebau’n gofyn amdano.

**ii.** Llywodraeth Cymru (LlC) sy’n gosod cyflogau athrawon. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y byddai athrawon yn Lloegr yn derbyn codiad cyflog o 5.5%, ac efallai bod LlC yn ystyried codiad tebyg yng Nghymru. Yn y gorffennol, mae LlC wedi cyllido unrhyw ddyfarniadau cyflog i athrawon oedd yn uwch na’r hyn a ganiatawyd yn y setliad llywodraeth leol. Mae’n bosib, felly, na fydd rhaid i’r Awdurdod ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol.

**iii.** Mae cyfraniad y cyflogwr tuag at gostau pensiynau athrawon wedi codi o 23.68% i 28.68%. Roedd y gost ychwanegol o £1.3m wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddatganoledig i ysgolion, ond nid oedd y setliad llywodraeth leol yn cynnwys unrhyw gyllid ychwanegol. Mae trafodaethau’n mynd rhagddynt rhwng LlC a Thrysorlys Ei Fawrhydi, ond mae’n debygol y bydd LlC yn derbyn cyllid ychwanegol a dylai hyn gael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol. Ni chyhoeddwyd yr union ffigwr ac efallai na fydd yn cwrdd â’r gost yn llawn, ond, os daw cyllid ychwanegol, bydd hyn yn gyllid nad oeddem yn ei ddisgwyl a gellir ei ddefnyddio i wrthbwyso unrhyw gostau tâl ychwanegol sydd heb eu cyllido.

**8.3** Mae’r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn creu pryder arbennig, a rhagwelir gorwariant o £1.775m yn y Gwasanaethau Plant. Mae’r rhagolwg yn seiliedig ar lefel bresennol y galw, ond mae’r galw’n amrywio yn ystod y flwyddyn a gall newid yn sylweddol, e.e. gall un lleoliad ar gyfer cleient sydd â dibyniaeth uchel ac anghenion gofal arbenigol gostio rhwng £250k a £500k. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau’n golygu bod y sefyllfa’n gwaethygu.

Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effeithiau’r uchod yn cael eu hystyried yn yr adroddiadau monitro wrth i’r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

**8.4** Bydd y sefyllfa ariannol yn 2024/25 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2025/26 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu’r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu’r cynnydd mewn costau a welir yn 2024/25 ac adlewyrchu’r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor, gan gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso’r gyllideb refeniw yn 2025/26. Bydd rheolwyr yn monitro’r sefyllfa ariannol yn ofalus yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol ac efallai y bydd rhaid rhoi mesurau ar waith i arbed costau yn 2024/25, er mwyn cynnal lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol.

**ATODIAD B**

## RHAGOLWG O'R ALLDRO REFENIW AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2025 - CHWARTER 1

| Gwasanaeth/Swyddogaeth *Service/Function* | 2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2024/25 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2024/25 Ch1 Amrywiant Q1 Variance | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under) | 2024/25 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2023/24 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over/Underspend) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** ***Education, Skills and Young People*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion *Delegated Schools Budget* | 61,111 | 10,353 | 10,353 | 0 | 0.00% | 61,111 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog *Central Education* | 5,240 | 1,525 | 1,519 | (6) | -0.41% | 5,231 | (9) | -0.17% | (512) |
| Diwylliant *Culture* | 1,576 | 373 | 267 | (106) | -28.44% | 1,572 | (4) | -0.25% | (112) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** ***Adult Services*** | 38,462 | 8,024 | 7,813 | (211) | -2.63% | 38,071 | (391) | (1.02%) | (585) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** ***Children's Services*** | 14,434 | 4,299 | 4,571 | 272 | 6.32% | 16,209 | 1,775 | 12.30% | 1,403 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** ***Housing*** | 1,660 | 339 | 299 | (40) | -11.87% | 1,615 | (45) | (2.71%) | (63) |
| | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2024/25 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2024/25 Ch1 Amrywiant Q1 Variance | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under) | 2024/25 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2023/24 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over/Underspend) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff**<br>***Highways, Property & Waste*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 8,264 | 1,758 | 1,755 | (3) | -0.15% | 8,125 | (139) | -1.68% | 79 |
| Eiddo<br>*Property* | 1,991 | (858) | (857) | 1 | -0.17% | 1,974 | (17) | -0.85% | 106 |
| Gwastraff<br>*Waste* | 10,111 | 1,506 | 1,494 | (12) | -0.81% | 10,016 | (95) | -0.94% | (513) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 3,271 | 960 | 884 | (76) | -7.95% | 3,136 | (135) | -4.13% | (500) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 2,917 | 893 | 775 | (119) | -13.27% | 2,696 | (6) | -0.21% | (182) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,713 | 481 | 478 | (4) | -0.79% | 1,724 | 11 | 0.64% | (3) |
| TGCh<br>*ICT* | 4,701 | 2,282 | 2,418 | 136 | 5.96% | 4,650 | (51) | -1.08% | (546) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 1,243 | 270 | 255 | (14) | -5.34% | 1,210 | (33) | -2.65% | (89) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2024/25 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2024/25 Ch1 Amrywiant Q1 Variance | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under) | 2024/25 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2023/24 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over/Underspend) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 4,032 | 1,109 | 1,043 | (66) | -5.94% | 3,927 | (105) | -2.60% | (26) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 2,125 | 524 | 463 | (60) | -11.53% | 2,195 | 70 | 3.29% | (46) |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 2,193 | 861 | 928 | 67 | 7.80% | 2,176 | (17) | -0.78% | (76) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 809 | 208 | 195 | (13) | -6.11% | 833 | 24 | 2.97% | (3) |
| | | | | | | | | | |
| Costau heb gyllideb, ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau<br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income* | | | | | | 500 | 500 | 0.00% | 595 |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau**<br>**Total Service Budgets** | 165,854 | 34,907 | 34,654 | (254) | (0.73%) | 167,187 | 1,333 | 0.80% | (1,073) |
| | | | | | | | | | |
| Ardollau<br>*Levies* | 4,931 | 4,931 | 4,931 | 0 | -0.00% | 4,931 | 0 | 0.00% | 0 |

| **Gwasanaeth/Swyddogaeth** ***Service/Function*** | **2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget** | **2024/25 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date** | **2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend** | **2024/25 Ch1 Amrywiant Q1 Variance** | **2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under)** | **2024/25 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget** | **2023/24 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over/Underspend)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyddhad Trethi Dewisol *Discretionary Rate Relief* | 105 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 131 | 26 | 24.48% | 35 |
| Cyllido Cyfalaf *Capital Financing* | 5,753 | 1,037 | 608 | (429) | 0.00% | 5,149 | (604) | (10.49%) | (181) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill *General & Other Contingencies* | 1,929 | 1,929 | 111 | (1,818) | (94.25%) | 1,900 | (28) | (1.47%) | (2,035) |
| Arbedion Cyllideb i'w Gyflawni Budget Savings to be Achieved | (1,000) | 0 | 0 | 0 | 0.00 | (548) | 452 | 0.00% | 0 |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General *Reserves* | (4,425) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (4,425) | 0 | 0.00% | 1,728 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol *Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | 31 |
| Budd-daliadau a Roddwyd *Benefits Granted* | 7,392 | 351 | 2,954 | 2,603 | 741.66% | 6,894 | (498) | (6.73%) | (574) |
| Na ellir ei reoli *Uncontrollable* | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** ***Total Corporate Finance*** | 13,885 | 8,248 | 8,604 | 356 | 4.31% | 13,233 | (652) | (4.70%) | 996 |
| **Cyfanswm 2024/25** ***Total 2024/25*** | **179,739** | **43,155** | **43,258** | **102** | **0.24%** | **180,420** | **681** | **0.38%** | **(2,069)** |
| | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth<br>*Service/Function* | 2024/25 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2024/25 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2024/25 Ch1 Amrywiant Q1 Variance | 2024/25 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2025 Estimated Expenditure to 31 March 2025 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2025 gor/(tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2025 over/(under) | 2024/25 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget | 2023/24 Gor/(Tan) Wariant Drafft Draft Over/Underspend) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllido**<br>***Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (25,341) | (7,797) | (7,797) | 0 | 0.00% | (25,341) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor<br>*Council Tax* | (48,387) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (48,455) | (68) | 0.14% | 513 |
| Premiwm y Dreth Gyngor<br>*Council Tax Premium* | (3,766) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (4,289) | (523) | 13.89% | (176) |
| Grant Cynnal Refeniw<br>*Revenue Support Grant* | (102,245) | (31,461) | (31,460) | 0 | 0.00% | (102,245) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25**<br>***Total Funding 2024/25*** | **(179,739)** | **(39,257)** | **(39,257)** | **0** | **0** | **(180,330)** | **(591)** | **0.33%** | **337** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido**<br>***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **3,898** | **4,000** | **103** | **2.63%** | **90** | **90** | **0.05%** | **(1,732)** |

**ATODIAD C**

## DADANSODDIAD O'R AMRYWIANT A RAGWELIR FESUL GWASANAETH A'R RHESYMAU

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| **Addysg Ganolog** | Trafnidiaeth Ysgol | (172) | (172) | | | | | | | | | |
| | Prydau Ysgol | 105 | | | 105 | | | | | | | |
| | Strategaeth ADY | | | | | | | | | | | |
| | Eithriadau i'r ysgol | (19) | | | | | | (19) | | | | |
| | Canolfan Iaith | 101 | | | | 101 | | | | | | |
| | Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar | (47) | (40) | (7) | | | | | | | | |
| | Clwb Gofal Plant | 62 | | | | | 62 | | | | | |
| | Addysg Bellach | | | | | | | | | | | |
| | Addysg Canolog | (48) | | | | (48) | | | | | | |
| | Lleoliadau All-Sirol | (19) | (19) | | | | | | | | | |
| | Millbank | 15 | | | | | | 15 | | | | |
| | Arall | 13 | | | | | | | | | | 13 |
| | **CYFANSWM** | **(9)** | **(231)** | **(7)** | **105** | **53** | **62** | **(4)** | **-** | **-** | **-** | **13** |
| **Diwylliant** | Amgueddfeydd ac Orielau | 53 | | (52) | | | 50 | 30 | | | | 25 |
| | Llyfrgelloedd | (73) | | (78) | | (10) | 15 | | | | | |
| | Archifau | 16 | | 16 | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **(4)** | **-** | **(114)** | **-** | **(10)** | **65** | **30** | **-** | **-** | **-** | **25** |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | Henoed - Preswyl | (83) | 211 | | | | (294) | | | | | |
| | Henoed - Nyrsio | (34) | (32) | | | | (2) | | | | | |
| | Henoed – Gofal Cartref | 58 | 58 | | | | | | | | | |
| | Henoed – Arall | (29) | (20) | 9 | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol – Preswyl | (2) | 49 | | | | (51) | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Nyrsio | | | | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol – Gofal Cartref | (17) | (17) | | | | | | | | | |
| | Anabledd Corfforol - Arall | (66) | (14) | (52) | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Preswyl | | | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Gofal Cartref | (51) | (51) | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Preswyl – Gofal Dydd | 18 | (18) | | | | 18 | | | | | |
| | Anabledd Dysgu - Llety â Chymorth | 4 | 4 | | | | | | | | | |
| | Anabledd Dysgu – Arall | 7 | 1 | 6 | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Iechyd Meddwl – Preswyl | (25) | (52) | | | | 27 | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Gofal Cartref | (11) | (11) | | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl – Llety â Chymorth | 1 | 1 | | | | | | | | | |
| | Iechyd Meddwl - Arall | (177) | (56) | (121) | | | | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Preswyl | 465 | 38 | 497 | | | (70) | | | | | |
| | Uned Ddarpau – Gofal Cartref | (84) | 33 | (96) | | | 45 | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Gofal Dydd | (98) | (18) | (101) | | | 21 | | | | | |
| | Uned Ddarparu – Llety â Chymorth | (176) | (25) | (151) | | | | | | | | |
| | Uned Darparwyr – Arall | (12) | 31 | (43) | | | | | | | | |
| | Gwasanaethau Cymorth Rheolaeth | (80) | (3) | (77) | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **(391)** | **61** | **(146)** | **-** | **-** | **(306)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Gwasanaethau Plant** | Plant sy'n Derbyn Gofal – Lleoliadau All Sirol | 1,642 | 1,642 | | | | | | | | | |
| | Gofal Maeth | 56 | 56 | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Cartrefi Clyd | 59 | (13) | 72 | | | | | | | | |
| | Plant sy'n Derbyn Gofal - Arall | 162 | 162 | | | | | | | | | |
| | Cymorth i Deuluoedd | (9) | (9) | | | | | | | | | |
| | Plant hefo Anableddau | 76 | 130 | (54) | | | | | | | | |
| | Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol | (140) | | (140) | | | | | | | | |
| | Gwasanaethau Ieuenctid | | | | | | | | | | | |
| | Arall | (71) | (1) | (70) | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **1,775** | **1,967** | **(192)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Tai** | Gwasanaethau Tai | (41) | | (41) | | | | | | | | |
| | Digartrefedd | (3) | 210 | | | | (105) | | | (106) | | (5) |
| | Canolfan J.E.O'Toole | (1) | | (3) | | | | | | | | 2 |
| | **CYFANSWM** | **(45)** | **210** | **(44)** | **-** | **-** | **(105)** | **-** | **-** | **(103)** | **-** | **(3)** |
| **Priffyrdd** | Cefnogaeth a Rheolaeth Priffyrdd | | | | | | | | | | | |
| | Cludiant Cymunedol Môn | | | | | | | | | | | |
| | Meysydd Parcio a Rheolaeth Parcio | 30 | | | | | 30 | | | | | |
| | Rheoli Datblygu | (40) | | | | | (40) | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Gwaith Stryd Preifat | (50) | | | | | (50) | | | | | |
| | Cyllideb Gwaith | 70 | | | | | | 70 | | | | |
| | Cynnal a Chadw a Rheoli | | | | | | | | | | | |
| | Dylunio Cynnal a Chadw | (80) | | | | | (80) | | | | | |
| | Cludiant Cyhoeddus | (60) | | | | (60) | | | | | | |
| | Fflyd | | | | | | | | | | | |
| | Fflyd Arall | (9) | | | | | | | | | | (9) |
| | **CYFANSWM** | **(139)** | **-** | **-** | **-** | **(60)** | **(140)** | **70** | **-** | **-** | **-** | **(9)** |
| **Eiddo** | Rheolaeth a Staffio | (17) | | (17) | | | | | | | | |
| | Glanhau<br>Eiddo Masnachol | | | | | | | | | | | |
| | Eiddo'r Cyngor | | | | | | | | | | | |
| | Dylunio Pensaernïol ac Ymgynghoriaeth | | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **(17)** | **-** | **(17)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Gwastraff** | Casglu a Gwaredu Gwastraff | | | | | | | | | | | |
| | Cynhyrchu Trydan | (80) | | | | | (80) | | | | | |
| | Ail-gylchu | | | | | | | | | | | |
| | Safleoedd Gwastraff | | | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Gweinyddu a Rheoli | | | | | | | | | | | |
| | Arall | (15) | | | | | | | | | | (15) |
| | **CYFANSWM** | **(95)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(80)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(15)** |
| **Datblygu Economaidd** | Datblygu Economaidd | 23 | 72 | (60) | | (7) | | | | | | 18 |
| | Cyrchfan | (67) | | (82) | | (27) | 10 | 42 | | | | (10) |
| | Hamdden | (91) | | 28 | | | (134) | (15) | | | | 30 |
| | **CYFANSWM** | **(135)** | **72** | **(114)** | **-** | **(34)** | **(124)** | **27** | **-** | **-** | **-** | **38** |
| **Cynllunio** | Gweinyddu Cynllunio | | | | | | | | | | | |
| | Rheoli Cynllunio | 44 | | 10 | | | 14 | | 20 | | | |
| | Rheoli Adeiladu | 21 | | | | | 21 | | | | | |
| | Polisi Cynllunio | | | | | | | | | | | |
| | Cadwraeth | (25) | | (24) | | | | | | | | (1) |
| | Cofrestru Tir | 0 | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **40** | **-** | **(14)** | **-** | **-** | **35** | **-** | **20** | **-** | **-** | **(1)** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | Iechyd yr Amgylchedd | (17) | | (17) | | | | | | | | |
| | Rheoli Cŵn / Pla | | | | | | | | | | | |
| | Iechyd Anifeiliaid | | | | | | | | | | | |
| | Safonau Masnach | | | | | | | | | | | |
| | Trwyddedu | | | | | | | | | | | |
| | Cofrestrwyr | (11) | | (11) | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Marchnadoedd | | | | | | | | | | | |
| | Iechyd a Diogelwch | (18) | | (17) | | | | | | | | (1) |
| | **CYFANSWM** | **(46)** | | **(45)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(1)** |
| **Trawsnewid** | Adnoddau Dynol | 11 | | 22 | | | | | | | | (11) |
| | Hyfforddiant | | | | | | | | | | | |
| | TG | (51) | | (135) | | | | | | | | 84 |
| | Trawsnewid Corfforaethol | (6) | | (6) | | | | | | | | |
| | Cyswllt Môn | (44) | | (44) | | | | | | | | |
| | Cyfathrebu | | | | | | | | | | | |
| | Partneriaeth Ynys Môn / Gwynedd | 17 | | | | | | | | | | 17 |
| | **CYFANSWM** | **(73)** | **-** | **(163)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **90** |
| **Adnoddau** | Archwilio a Risg | (46) | | (97) | | | | | 51 | | | |
| | Budd-daliadau ac Adnoddau | 48 | | 63 | | (23) | (20) | | | | | 28 |
| | Gwasanaethau Cyllid | (24) | | (28) | | | | | | | | 4 |
| | Caffael | (14) | | (14) | | | | | | | | |
| | Rheolaeth | (69) | | (45) | | | (14) | | | | | (10) |
| | **CYFANSWM** | **(105)** | **-** | **(121)** | **-** | **(23)** | **(34)** | **-** | **51** | **-** | **-** | **22** |
| **Busnes y Cyngor** | Gwasanaethau Etholiadol | 3 | | 3 | | | | | | | | |
| | Cynllunio Argyfwng | | | | | | | | | | | |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | Gwasanaethau Pwyllgor | (29) | | (29) | | | | | | | | |
| | Cyfieithu | 4 | | 4 | | | | | | | | |
| | Gwasanaethau Cyfreithiol | 92 | | 74 | | | 7 | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **70** | **-** | **52** | **-** | **-** | **7** | **-** | **-** | **-** | **11** | **-** |
| **Rheolaeth Corfforaethol** | Rheolaeth Corfforaethol | 24 | | 24 | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM** | **24** | **-** | **24** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Corfforaethol a Democrataidd** | Risg ac Yswiriant | (10) | | | | | | | | | | (10) |
| | Cyfraniadau Pensiwn | (15) | | (15) | | | | | | | | |
| | Ffioedd Archwilio | 22 | | | 22 | | | | | | | |
| | Crwner | (20) | (17) | | | | | | | | | (3) |
| | Ardoll Prentisiaeth | 9 | | 9 | | | | | | | | |
| | Treuliau a Chymorth Aelodau | (5) | | | | | | | | | | (5) |
| | Gwariant Dinesig | 5 | | | | | | | | | | 5 |
| | Corfforaethol Arall | (3) | | | | | | | | | | (3) |
| | **CYFANSWM** | **(17)** | **(17)** | **(6)** | **22** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(16)** |
| **Arall** | Darpariaeth Costau heb ei Gyllidebu | 500 | | | | | | | | | | 500 |
| | **CYFANSWM** | **500** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **500** |

| Gwasanaeth | Is Wasanaeth | Amrywiant | Rheswm am yr Amrywiant | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | Newid yn y galw am Wasanaeth £'000 | Amrywiant Staff / Asiantaethau £'000 | Newidiadau i Gontractau / Pris £'000 | Newid i Gyllid Grant £'000 | Amrywiant Incwm £'000 | Costau Adeiladu £'000 | Ymgynghori £'000 | Trosglwyddo I / (O) Arian Wrth Gefn £'000 | Cyllideb Gor /(Tan) Ddarpariaeth £'000 | Amrywiol £'000 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | **CYFANSWM GWASANAETH** | **1,333** | **2,062** | **(907)** | **127** | **(74)** | **(620)** | **123** | **71** | **(106)** | **11** | **646** |

**ATODIAD CH**

**CRYNODEB O SEFYLLFA CYLLIDEBAU WRTH GEFN YN YSTOD CHWARTER 1**

| | Cyllideb<br><br>£ | Trosglwyddiadau i Wasanaethau<br><br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br><br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br><br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br><br>£ | Cyllideb Rhagweledig<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 382,282 | - | 382,282 | - | 382,282 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 300,000 | - | 300,000 | 110,968 | 189,032 | - |
| Arall Clustnodedig | 150,000 | 700,000 | 850,000 | - | 850,000 | - |
| Chwyddiant cyflog | 49,209 | - | 49,209 | - | 49,209 | - |
| Twf Rhanbarthol – Bwrdd Uchelgais Economaidd | 86,250 | (57,880) | 28,370 | - | - | (28,370) |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | (71,014) | 268,986 | - | 268,986 | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | - | 50,000 | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,357,741** | **571,106** | **1,928,847** | **110,968** | **1,789,509** | **(28,370)** |

**ATODIAD D**

**COSTAU ASIANTAETH RHWNG EBRILL  A MEHEFIN 2024**

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio heb ei defnyddio / Grant / Cyfraniad Allanol | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 34,695 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | **34,695** | | | |
| Gwastraff | 70,710 | Cyllideb Craidd Benodol | Dros Dro | Tasgau penodol ar y safle |
| | 21,815 | Cyllideb Graidd Benodol / Cyfraniad Allanol | Dros Dro | Tasgau penodol ar y safle |
| | **92,525** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 34,698 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **34,698** | | | |
| Gwasanaethu Oedolion | 128,072 | Cyllideb Craidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **128,072** | | | |
| **Cyfanswm** | **289,990** | | | |

## CRYNODEB O WARIANT AR YMGYNGHORWYR HYD AT DDIWEDD CHWARTER 1 2024/25

| Crynodeb o Wariant ar Ymgynghorwyr fesul Gwasanaeth | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Chwarter 1 £** | **Cyfanswm 2024/25 £** |
| Addysg Canolog | **7,097** | **7,097** |
| Diwylliant | **13,613** | **13,613** |
| Economaidd ac Adfywio | **119,484** | **119,484** |
| Eiddo | | |
| Priffyrdd | **53,753** | **53,753** |
| Ysgolion | | |
| Gwastraff | **19,093** | **19,093** |
| CRT | | |
| Tai | | |
| Corfforaethol a Democrataidd | | |
| Gwasanaeth Oedolion | | |
| Gwasanaethau Plant | **3,209** | **3,209** |
| Corfforaethol | | |
| Trawsnewid | **3,713** | **3,713** |
| Busnes y Cyngor | **18,168** | **18,168** |
| Adnoddau | **9,970** | **9,970** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **248,097** | **248,097** |
| Cyllidwyd gan: | | |
| Cyllideb Craidd | **72,552** | **72,552** |
| Grant | **129,111** | **129,111** |
| Cyfraniad Allanol | **29,411** | **29,411** |
| Cronfeydd Wrth Gefn / Darpariaethau | **17,023** | **17,023** |
| **Cyfanswm** | **248,097** | **248,097** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **24 MEDI 2024** |
| Pwnc: | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER CYNTAF 2024/25** |
| Deilydd Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyllid: | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>E-bost: | **Jemma Robinson**<br>**Jemma.robinson@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol; | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2024/25 yn ystod chwarter 1.
- Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol, gwerth £11.369m, a gostyngiad o £1.345m yng nghyllideb y CRT i'r rhaglen gyfalaf, a newidiadau mewn cyllid yn unol ag Atodiad C, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £69.361m ar gyfer 2024/25.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y gyllideb flynyddol.

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)**(gorfodol) | Mae'r TA wedi adolygu'r adroddiad yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2024 ac mae'r sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Trafodwyd y prosiectau cyfalaf sy'n cael eu rheoli gan y Tîm Eiddo a chytunwyd ar wariant hyd yma a'r rhagolygon gwariant. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Trafodwyd y prosiectau cyfalaf sy'n cael eu rheoli gan y Tîm TGCh a chytunwyd ar wariant hyd yma a'r rhagolygon gwariant. |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Trafodwyd sefyllfa'r gyllideb yng nghyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 11 Medi 2024. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn cyllido buddsoddiadau mewn asedau ac isadeiledd sy'n ofynnol i ganiatáu'r Cyngor gwrdd â'r amcanion hir dymor a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig, yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| **3** | **A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae cyllid ar gyfer y prosiectau wedi'i gytuno a'i gynllunio gyda sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru (LlC) yn benodol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf 2024/25 wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir gan y rhaglen gyfalaf yn effeithio ar yr agenda cydraddoldeb, e.e. mynediad i ysgolion i'r anabl, grantiau cyfleusterau i'r anabl. Nid oes unrhyw effaith ar agenda'r iaith Gymraeg. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2024/25
Atodiad B – Crynodeb o Wariant y Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a Rhagolygon Gwariant ar Ddiwedd y Flwyddyn
Atodiad C – Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2024/25, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024; ac
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 23 Gorffennaf 2024.

**ATODIAD A**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi cynnydd gwariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £13.836m ar gyfer 2024/25, a rhaglen gyfalaf o £30.002m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £15.499m gael ei ddwyn ymlaen o 2023/24, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m, a £30.918m ar gyfer y CRT. Ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen ar ôl gosod y gyllideb, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, ac addaswyd rhywfaint o'r cyllid, a daw hyn i gyfanswm o £11.369m. Roedd gostyngiad o £1.345m yng nghyllideb y CRT hefyd. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 i £69.361m. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

| Cyllidir gan: | Cyllideb wreiddiol 2024/25 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn £'000 | Llithriad a gymeradwywyd yn yr alldro Ch4 2023/24 £'000 | Gostyngiad yn y gyllideb CRT £'000 | Cynlluniau ychwanegol / addasiadau yn dilyn gosod y gyllideb £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant | 20,075 | 10,039 | (1,173) | 11,114 | **40,055** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,634 | 3,233 | (162) | 162 | **5,867** |
| Benthyca Digefnogaeth | 3,636 | 0 | 2,169 | 0 | **5,805** |
| Cyfraniad Refeniw | 17,315 | 754 | (2,688) | 0 | **15,381** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 178 | 345 | 509 | 0 | **1,032** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | | 1,112 | | 93 | **1,205** |
| Benthyciad | | 16 | | 0 | **16** |
| **CYFANSWM** | **43,838** | **15,499** | **(1,345)** | **11,369** | **69,361** |

Gweler Atodiad C am fanylion newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ers gosod y gyllideb.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2024/25

**2.1** Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o wariant cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2024, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2024 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi'i Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd % | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,049 | 100 | 92 | 0 | 92 | 92 | 9 |
| Tai - CRT | 29,573 | 6,572 | 6,479 | 0 | 6,479 | 99 | 22 |
| Dysgu Gydol Oes | 6,690 | 2,058 | 1,868 | 147 | 2,015 | 98 | 30 |
| Economaidd ac Adfywio | 11,758 | 710 | 274 | 676 | 950 | 134 | 8 |
| Priffyrdd | 6,999 | 1,020 | 509 | 508 | 1,017 | 100 | 15 |
| Rheoli Gwastraff | 264 | 239 | 239 | 0 | 239 | 100 | 91 |
| Eiddo | 11,303 | 31 | 29 | 0 | 29 | 94 | 0 |
| Trawsnewid | 500 | 40 | 26 | 14 | 40 | 100 | 8 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,225 | 20 | 17 | 0 | 17 | 85 | 1 |
| **Cyfanswm** | **69,361** | **10,790** | **9,533** | **1,345** | **10,878** | **101** | **16** |

| **Cyllidir gan:** | |
|---|---|
| Grant Cyfalaf | 40,055 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,032 |
| Benthyca â Chymorth | 5,867 |
| Benthyca heb Gymorth | 5,805 |
| Cyfraniad Refeniw | 15,381 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,205 |
| Benthyciad | 16 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **69,361** |

**2.2** Hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, gwariwyd 104% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol, ond dim ond 11% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn a gwariwyd y rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1, ond nid yw rhai cynlluniau wedi cychwyn eto ac mae eu cyllidebau wedi'u proffilio i'w gwario yn ystod y chwarter nesaf, neu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Plas Arthur, Canolfan Glanhwfa, gwaith adfer RAAC a'r gyllideb cerbydau. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2024/25 ac mae adran 3.1 yn yr adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad arnynt.

**2.3** Mae'r CRT wedi gwario 99% o'r gyllideb a broffiliwyd a 22% o'r gyllideb flynyddol. Pan osodwyd cyllideb 2024/25 a'r cyllid cysylltiedig roedd grantiau cyllido ar gael nad oeddent yn hysbys pan baratowyd y gyllideb. Mae manylion cyllido'r gyllideb wedi cael eu haddasu erbyn hyn, fel y gwelir yn Atodiad C. Mae'r gyllideb prynu eiddo presennol a datblygu eiddo newydd wedi cael ei hadolygu ac, ar ôl derbyn gwybodaeth bellach, gwneir cais i ostwng y gyllideb benodol honno gan £1.345m, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £15.657m. Rhagwelir, ar hyn o bryd, y bydd cyfanswm y gyllideb CRT yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Am ragor o wybodaeth am wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant a ragwelir, gweler adroddiad monitro cyllideb chwarter 1 y CRT, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 24 Medi 2024.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2024/25 ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:-

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy -** Symudodd plant a staff i'r adeilad newydd yn Ysgol y Graig ar gyfer tair wythnos olaf tymor yr haf. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y safle er mwyn cwblhau gwaith ar y briffordd, y maes parcio a thirlunio. Ni ellir plannu coed tan fis Hydref. Mae angen cwblhau rhywfaint o waith mecanyddol a thrydanol erbyn mis Medi. Mae gwaith adnewyddu ac ailfodelu'n mynd rhagddo yn yr hen ysgol a dylai'r gwaith hwnnw fod wedi'i gwblhau erbyn canol Medi.
- **Ffyniant Bro (gan gynnwys y Fenter Treftadaeth Treflun (THI) Cam II)** –
  - Dechreuodd gwaith ar safle Eglwys Sant Cybi ar 28 Mai 2024, oddeutu 6 mis yn hwyrach na'r dyddiad cychwyn arfaethedig yn y rhaglen wreiddiol. Oherwydd hynny, disgwylir i'r gwaith orffen llawer iawn hwyrach na'r dyddiad a ragwelwyd yn wreiddiol. Er hynny, gan fod cwmpas y gwaith wedi lleihau, dylai'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2025. O ran y gost, rhagwelir gorwariant ar hyn o bryd, ond mae rhywfaint o gyllid wedi'i sicrhau'n barod gan yr Esgobaeth. Mae archeolegwyr yn parhau i weithio ar y safle ac mae cwmpas y gwaith hwnnw wedi'i ymestyn yn sylweddol ar ôl canfod olion archeolegol yn yr ardal tu ôl i Eglwys y Bedd, ac ni fydd modd defnyddio cymaint â'r disgwyl o deils a godwyd yn Sant Cybi. Gallai'r ddau fater hyn arwain at gynnydd pellach yn y gwariant.
  - Ehangu Canolfan Ucheldre – Gwnaed cynnydd da ar yr estyniad newydd, er bod y dyddiad cwblhau wedi llithro bellach i Awst 2025.
  - Y Ganolfan Chwarae a Blaen y Traeth – Mae gwaith ar y Cabannau'n mynd rhagddo'n dda, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau dechrau mis Awst. Mae rhywfaint o fân broblemau wedi codi mewn perthynas â gwasanaethau, ond maent wedi'u datrys yn awr. Bydd gwaith yn dechrau ar adeiladau'r Empire ganol Gorffennaf ac mae'r Cyngor Tref wedi dod i gytundeb â'r contractwr i wneud y gwaith fesul cam. Bydd gwaith allanol ar yr estyniad a'r Sinema yn cychwyn. Bydd y Ganolfan Chwarae'n cau ar ôl cwblhau gwaith ar y Sinema, a bydd gwaith tu mewn yn cychwyn. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor Tref barhau i weithredu heb gau'n gyfan gwbl.

- Rhaglen Eiddo Gwag – Erbyn hyn, mae tendrau diwygiedig wedi'u rhyddhau ar gyfer prosiectau'r HSBC a'r Adeilad Canolog ac mae disgwyl i'r tendrau gael eu dychwelyd erbyn 22 Gorffennaf. Mae gwaith ar 9 Stryd Stanley yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i waith ar y siop a blaen y siop gael ei gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf. Bydd y fflat yn cael ei gwblhau'n ddiweddarach gan fod rhaid gosod system chwistrellu newydd ac mae angen cysylltiad dŵr newydd er mwyn darparu digon o bwysedd dŵr. Mae oedi'n parhau ar 14 a/b Stryd Stanley wrth i broblemau strwythurol sydd wedi codi gydag eiddo cysylltiedig gael eu hasesu.

- Menter Treftadaeth Treflun Cam II – Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer yr holl flaenau siopau, heblaw am 14 a/b Stryd Stanley, wedi'u cyflwyno ac mae nifer wedi derbyn caniatâd cynllunio yn barod. Bwriedir rhyddhau tendrau ar gyfer y gwaith ar GwerthwchiGymru ym mis Gorffennaf, am gyfnod o 28 diwrnod. Yn gyffredinol, mae amcangyfrifon y Syrfewyr Meintiau yn unol â'r rhaglen wreiddiol. Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer yr holl brosiectau yn y Cynllun Grantiau Eiddo wedi'u cyflwyno bellach, ac ni chodwyd unrhyw bryder sylweddol, ac mae rhai prosiectau wedi'u caniatáu. Mae tendrau'n cael eu datblygu ar gyfer yr holl brosiectau, a bydd rhai ohonynt yn cael eu cyhoeddi ar GwerthwchiGymru ym mis Gorffennaf ac Awst.

- **Grantiau Gwaith Graddfa Fach** – Cymeradwywyd 5 cynllun ar gyfer 2024/25 (tri chynllun adeiladu a dau gynllun dylunio). Mae'r gwaith adeiladu ar y cynlluniau hyn wedi'i amserlennu i gychwyn yn ystod chwarter 2 a 3.

- **Llanfairpwll, Porthaethwy (Achos Busnes Llawn - ABLl)** – Mae ABLl Porthaethwy'n mynd rhagddo'n dda. Fodd bynnag, mae oedi ar achos busnes Llanfairpwll oherwydd problemau'n gysylltiedig ag adnoddau.

- **Teithio Llesol –** Sicrhawyd grant o £1.527m gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gynyddu lefelau teithio llesol a gwella iechyd a llesiant, gwella ansawdd aer, lleihau allyriadau carbon, cysylltu cymunedau a gwella teithio llesol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

    - £0.500m ar gyfer gwaith craidd ar nifer o gynigion ar gyfer cynlluniau, ac mae'n cynnwys gwaith datblygu ymlaen llaw, gwaith graddfa fach a gweithgareddau monitro ac arfarnu;
    - £0.589m mewn perthynas â Cham 2 Caergybi – Trearddur (Gwaith ar Gyffordd 2 a Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw);
    - £0.438m mewn perthynas â Cham 1 Pont Marquis – Malltraeth.

  Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau ar Gam 1 Metro Gogledd Cymru Caergybi – Trearddur. Mae dyluniadau a dogfennau Adran 278 bron â'u cwblhau ar gyfer Cam 2 y cynllun uchod dros Gyffordd 2 yr A55. Cynhaliwyd ymweliad safle gyda'r prif gontractwr ar gyfer y cynllun cyfalaf ym Malltraeth – Pont Marquis, a chytunwyd ar fân newidiadau yn y dyluniad, ac mae'r gwaith adeiladu wedi'i raglennu i gychwyn ym mis Ionawr a'i gwblhau cyn diwedd Mawrth (chwarter 4). Mae Gweithgareddau Datblygu Ymlaen Llaw yn mynd rhagddynt yn Llanfairpwll, Amlwch, Benllech, Gaerwen, Malltraeth / Niwbwrch a'r Fali, a chynhaliwyd ymweliad safle ar hyd yr holl lwybrau cyn cychwyn y cam dylunio ar gyfer Gwaith Mân.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (2023/24) –** Caniataodd LlC estyniad amser, tan ddiwedd Awst 2024, ar gyfer adeiladu'r Hwb Cerbydau Trydan ym Mhlas Arthur ac mae'r gyllideb gyfan wedi'i hymrwymo. Cwblhawyd gwaith arallgyfeirio ceblau trydan SPEN ar gyfer Hwb Cerbydau Trydan Plas Arthur ac mae gwaith adeiladu'r Hwb Cerbydau Trydan ym Mhlas Arthur wedi'i amserlennu gyda'r prif gontractwr a bydd yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2024.

- **Cronfa Trawsnewid i Gerbydau Allyriadau isel Iawn (2024/25) –** Dyfarnwyd £0.503m i hyrwyddo prosiectau isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn unol â Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan LlC. Pwrpas y cyllid hwn yw hwyluso parhad y gwaith o ddarparu safleoedd gwefru cyflym ar 8 safle gwahanol ar yr Ynys. Cyflwynwyd dyfynbrisiau i SPEN ar gyfer nifer o safleoedd ar yr Ynys er mwyn deall beth fyddai cost cysylltu â'r rhwydwaith trydan, a chafwyd trafodaethau i gadarnhau'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio yn Nhrearddur oherwydd y perygl sylweddol o lifogydd.
- **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau –** Dyfarnwyd £0.072m i gefnogi cynlluniau cyfalaf sy'n cyfrannu at amcanion LlC i wella mynediad a diogelwch ac annog cerdded a beicio mewn cymunedau. Mae pwyslais penodol ar wella llwybrau i ac o ysgolion. Y nod yw newid sut mae pobl yn teithio, gan arwain at wella cynhwysiant cymdeithasol a gwella diogelwch cymunedol. Cysylltwyd â'r Adran Addysg ac Ysgol Llanfairpwll er mwyn cytuno ar fanylion y cynllun. Mae trefniadau wedi'u gwneud gyda Swyddog Coed y Cyngor, Contractwr Coed a SPEN er mwyn torri llystyfiant a thocio coed ar ffiniau'r safle ym mis Gorffennaf 2024 er mwyn agor pwyntiau mynediad cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu a gynlluniwyd i gychwyn diwedd Gorffennaf 2024.
- **Gwaith Adfer RAAC –** Ar ddiwedd 2023/24, dyfarnwyd £1.695m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar waith RAAC hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, a dygwyd ymlaen £1.014m i flwyddyn ariannol 2024/25 er mwyn cwblhau gweithgareddau RAAC.
  - Yn Ysgol David Hughes (YDH), cwblhawyd gwaith adfer ar y Bloc Celf yn ystod chwarter 1, gan gynnwys ailaddurno a gosod carpedi newydd, yn ogystal â thynnu asbestos o'r Bloc Ffreutur cyn gwneud gwaith adfer. Bydd gwaith adfer ar y Bloc Ffreutur ac ail-orchuddio'r to yn cael ei wneud yn ystod chwarter 2 2024/25, a bydd y gwaith hwn yn cwblhau'r Gwaith Adfer yn YDH.
  - Yn Ysgol Uwchradd Caergybi (YUC), cwblhawyd gwaith adfer ar y Blociau Tai (B a D), gyda gwaith ar y Bloc Gweinyddol (M) yn parhau. Bydd gwaith adfer ar Ardal y Llwyfan, ynghyd â chywiro mân ddiffygion mewn rhai ardaloedd yn cael ei wneud yn ystod chwarter 2 2024/25, a bydd rhannau o'r to yn cael ei ailorchuddio. Bydd y gwaith hwn yn cwblhau'r Gwaith Adfer RAAC sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn YUC. Mae'r RAAC yn YUC yn destun cynllun rheoli, a rhagwelir efallai y bydd rhaid gwneud rhagor o waith, mewn ardaloedd penodol, yn y dyfodol mewn ymateb i unrhyw ddirywiad a nodir yn y cyflwr.
- **Gwaith Toi yn Ysgol Santes Fair –** Sicrhawyd £0.153m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect ail doi, gwerth £0.219m, yn Ysgol Gynradd Santes Fair. Mae'r Cyngor yn darparu arian cyfatebol ar gyfer gweddill y gyllideb. Dechreuodd y gwaith yn gynnar yn chwarter 2 ac mae disgwyl i'r gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Awst 2024.
- **Ysgol David Hughes – Bloc Technoleg Bwyd** – Sicrhawyd £0.115m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect gwerth £0.163m yn yr ysgol, a bydd yr ysgol a'r Cyngor yn cyfrannu gweddill y gyllideb. Mae'r gwaith yn cynnwys tynnu rhywfaint o asbestos, gosod llawr newydd, gorffeniadau y waliau a'r nenfwd, gosod unedau, byrddau gwaith a chyfarpar newydd a gwaith mecanyddol a thrydanol cysylltiedig. Dechreuodd y gwaith ar ddechrau chwarter 2, a disgwylir iddo fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Awst 2024.
- **Plas Arthur** – Sicrhawyd £0.995m o gyllid grant i gyfrannu at brosiect gwerth £1.084m ym Mhlas Arthur, a bydd y Cyngor yn cyfrannu cyllid o gyllidebau cyfalaf sydd eisoes yn bodoli ar gyfer gweddill y gyllideb. Bydd y gwaith yn cael ei wneud ar du allan yr adeilad, gan gynnwys ail-orchuddio'r to, adnewyddu clymau wal, insiwleiddio waliau ceudod, adnewyddu ffenestri a drysau a gosod cladin ar y tu allan. Dylid nodi mai hwn yw'r gwaith cyntaf mewn cyfres o gamau arfaethedig, yn amodol ar gyllid, ac, felly, ni fydd y gwaith yn cael ei wneud ar yr adeilad cyfan. Dechreuodd y gwaith ym mis Mai 2024, a disgwylir iddo fod wedi gorffen erbyn diwedd Medi 2024.

- **Grant Gwres Carbon Isel (Swyddfeydd y Cyngor)** – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Tachwedd 2023 a chynhaliwyd arolygon daear yn dilyn hynny. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y safle ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu a pheirianyddol wedi'i gwblhau, mae'r pympiau gwres a chyfarpar hanfodol arall wedi'u gosod a'u cysylltu'n llwyddiannus â'r adeilad gan ddefnyddio pibellau tan-ddaear. Rhagwelir y bydd y gwaith yn parhau trwy gydol mis Awst 2024, a rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd Medi 2024. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosib cadw at yr amserlen hon os bydd angen i SPEN wneud unrhyw waith uwchraddio angenrheidiol er mwyn uwchraddio capasiti cyflenwi trydan i swyddfeydd y Cyngor.

- **Grant Gwres Carbon Isel (4 grant)** – Dyfarnwyd cyllid gwerth £15.7m mewn pedwar grant ar wahân. Mae'n rhaid cwblhau un o'r dyfarniadau grant erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25, a'r tri arall erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Mae Gwasanaeth Ynni LlC yn darparu cyllid grant tuag at 90% o'r costau ac mae'r Cyngor yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill o gyllidebau cyfalaf sydd eisoes yn bodoli. Cwblhawyd gwaith allanol yn llwyddiannus mewn nifer o safleoedd yn gydamserol, gan gynnwys gosod sylfeini a llociau gyda giatiau arnynt a ddyluniwyd i amgylchynu pympiau gwres ac offer a chyfarpar arall. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae pibelli mewnol a gwresogyddion wedi cael eu huwchraddio mewn sawl lleoliad. Yn ogystal, mae mesurau adeiladwaith wedi eu rhoi ar waith ar safle arall.

- **Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2024/25) –** Dyfarnwyd £0.477m o gyllid grant gan LlC yn 2024/25 i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Nod y grant yw gwneud y gorau o amgylcheddau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, a rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn gwella hygyrchedd, hyrwyddo arfer cynhwysol, cefnogi dysgu a llesiant disgyblion. Bydd hyn yn cefnogi amcanion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a diwygio ADY, er mwyn creu system ddwyieithog unedig ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc o 0 i 25 sydd ag ADY, a darparu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion. Disgwylir tanwariant o thua £0.088m ar y prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyflawni ar hyn o bryd ar gyfer y grant hwn.

- **Grant Ysgolion Bro (2024/25)** - Dyfarnwyd £0.790m yn 2024/25 i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion tu allan i oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ysgolion yn ddiogel a'u hagor tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn caniatáu i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r swm a ddyfarnwyd yn gysylltiedig â thair ysgol benodol. Ychydig iawn a wariwyd ar y cynllun hwn yn ystod chwarter 1, ond mae disgwyl i'r gyllideb gael ei gwario'n llawn.

- Dyfarnwyd cyllid gofal cymdeithasol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o nifer o ffrydiau cyllido gwahanol, fel a ganlyn:-

  - **Y Gronfa Gofal Integredig (ICF) –** Hawliwyd £0.162m drwy'r ICF mewn blynyddoedd blaenorol ac o gyllid a ddadleolwyd gan grantiau er mwyn cwblhau prosiectau sydd wedi llithro i 2024/25. Mae'r cyllid sy'n cael ei reoli fel rhan o'r rhaglen yn cynnwys y ddau brosiect isod:-

    - Cartrefi clyd arbenigol;
    - Gofal Ychwanegol yn ne'r Ynys.

  Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cyllid sy'n weddill yn cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chaiff ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at y cynlluniau gwario uchod sydd wedi eu cynnwys yng nghyllideb y CRT.

  - **Y Gronfa Gymunedol Integreiddio ac Ail-gydbwyso (IRCF) –** Dyfarnwyd £0.244m o gyllid cyfalaf drwy'r IRCF i gyllido:-

- Gors Felen (£0.063m) – Defnyddir y buddsoddiad hwn i greu amgylchedd synhwyraidd diogel ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu yng Nghanolfan Gors Felen yn Llangefni. Bydd yr amgylchedd pwrpasol hwn yn caniatáu i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a hybu eu hannibyniaeth.

- Canolfan Glanhwfa (£0.774m ynghyd â grant ychwanegol o £0.210m) - Defnyddir y cyllid i drawsnewid capel / adeilad hanesyddol nid nepell o ganol tref Llangefni, ychwanegu at y ddewislen bresennol o weithgareddau ar gyfer pobl sydd â dementia a chreu'r Ganolfan Dementia gyntaf ar Ynys Môn. Bydd y Ganolfan yn cael ei rhedeg gan Ganolfan Glanhwfa mewn partneriaeth â Gwasanaeth Asesu'r Cof Gogledd Cymru a darparwyr eraill trwy gydol yr wythnos, a bydd unigolion a gofalwyr yn elwa ar y ddarpariaeth yn ystod eu taith dementia. Bydd yr unigolion hyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau, derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, sesiynau cefnogi gofalwyr ac ymuno â chlwb prydau fydd yn cael ei redeg ddwywaith yr wythnos gan Bwyd Da Môn ac Age Cymru. Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y prosiect hwn wedi cychwyn a bydd yn cymryd 12 mis, felly, bydd y cyllid yn cael ei rannu dros ddwy flwyddyn ariannol - bydd y mwyafrif o'r cyllid yn cael ei wario yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r derbyniadau cyfalaf a gynlluniwyd:-

| | **Cyllideb 2024/25 £'000** | **Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2024 £'000** | **Rhagolwg hyd at 31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 0 | 33 | 33 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 372 | 81 | 81 |
| **CRT** | 247 | 0 | 247 |
| **Cyfanswm** | **619** | **114** | **361** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £0.361m, ac roedd £0.114m wedi'i dderbyn hyd at 30 Mehefin 2024 (32%).

**3.2.3** Er bod y derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn £0.361m, mae £3.261m o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf, gan fod £2.900m o dderbyniadau cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2023/24 yn y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf. Ni fydd y cyfan o'r swm hwn ar gael i gyllido rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol gan y bydd cyllid yn cael ei glustnodi i gylllido'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, fel rhan o arian cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn, cyllido gwelliannau hamdden, derbyniadau cyfalaf y CRT, yn ogystal â chyllid a glustnodwyd ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn ddiwethaf.

## 4. GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR 2024/25

**4.1** Isod ceir tabl sy'n dangos y Gwariant a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragwelir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragwelir £'000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Tai – Cronfa Gyffredinol | 1,049 | 1,049 | 0 | 0 |
| Tai - CRT | 29,573 | 29,573 | 0 | 0 |
| Dysgu Gydol Oes | 6,690 | 6,602 | (88) | (1) |
| Economaidd ac Adfywio | 11,758 | 11,757 | (1) | (0) |
| Priffyrdd | 6,999 | 6,954 | (45) | (1) |
| Rheoli Gwastraff | 264 | 264 | 0 | 0 |
| Eiddo | 11,303 | 11,024 | (279) | (2) |
| Trawsnewid | 500 | 500 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,225 | 938 | (287) | (23) |
| **Cyfanswm** | **69,361** | **68,661** | **(700)** | **(1)** |
| **Cyllidir gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragwelir £'000** | **Amrywiant £'000** | **Amrywiant %** |
| Grant Cyfalaf | 40,055 | 39,680 | (375) | (1) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,032 | 810 | (222) | (22) |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,867 | 5,867 | 0 | 0 |
| Benthyca Digefnogaeth | 5,805 | 5,805 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 15,381 | 15,381 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,205 | 1,102 | (103) | (9) |
| Benthyciad | 16 | 16 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **69,361** | **68,661** | **(700)** | **(1)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yw £0.700m, gyda'r posibilrwydd y bydd yn llithro i raglen gyfalaf 2025/26. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2024/25 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26.

Mae'r tanwariant sylweddol a ragwelir yn rhaglen gyfalaf y gronfa gyffredinol yn cael ei grynhoi isod:-

**Dysgu Gydol Oes**
Mae disgwyl i'r cynllun Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) danwario yn erbyn cyfanswm y gyllideb eleni, fel yr esbonnir ym mharagraff 3.1, uchod.

**Priffyrdd**
Rhagwelir tanwariant o thua £0.045m yn y gyllideb ar gyfer cerbydau a cherbydau graeanu. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau a wnaethpwyd yn barod ac archebion pellach a gynlluniwyd. Rhaid nodi, er hynny, y gallai LlC ddarparu cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol hon tuag at gerbydau trydan. Os digwydd hynny, gallai'r tanwariant a ragwelir gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r cyllid grant i brynu rhagor o gerbydau.

**Eiddo**
Ni fydd y gyllideb ar gyfer Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus yn cael ei gwario'n llawn; ychydig iawn o wariant sy'n cael ei ragweld o'r gyllideb hon yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd y gyllideb hon i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen grant Y Pethau Pwysig LlC sy'n cyllido 80% o gostau cymwys.

Nid oes rhaglen Y Pethau Pwysig yn 2024/25, ond mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y rhaglen yn rhedeg yn 2025/26, ac y bydd y tanwariant yn y gyllideb ar gael i gefnogi ceisiadau grant. Ni chredir y byddai'n synhwyrol ymrwymo'r gyllideb hon ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyllido'n llawn gan y Cyngor eleni, tra bod posibilrwydd o ddefnyddio'r cyllid i wireddu prosiectau yn y dyfodol lle bydd 80% o'r costau'n cael eu cyllido gan grantiau. Mae'r cynllun gwella toiledau cyhoeddus arfaethedig fydd yn meintioli'r gofynion cyfalaf a blaenoriaethu asedau i fuddsoddi ynddynt wedi'i ohirio gan fod y swyddog arweiniol wedi symud i swydd arall yn y Swyddogaeth Eiddo. Bydd y cynllun yn ailgychwyn yn awr bod olynydd wedi'i benodi.

**Gwasanaethau Oedolion**
Mae disgwyl i gynlluniau Canolfan Glanhwfa danwario yn erbyn cyfanswm y gyllideb eleni, fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.1, uchod.

**4.3** Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2025 yw £156.753m, sef y gofyn sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn cyllido ei Raglen Gyfalaf. Mae benthyca allanol yn £121.364m ar hyn o bryd gan olygu, yn ei hanfod, fod angen i'r Awdurdod fenthyg £35.389m i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf bresennol. Os caiff yr arian hwn ei fenthyca'n allanol, ni fydd yr Awdurdod yn mynd tu hwnt i'r terfynau benthyca a gymeradwywyd, yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2024/25 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan LlC) ac amcangyfrif o werth unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir. Disgwylir i raglen gyfalaf 2025/26 ddilyn yr un egwyddorion, gyda'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca digefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido adnewyddu cerbydau bob blwyddyn, buddsoddi mewn TGCh, adnewyddu asedau presennol a dyraniad blynyddol i gwrdd â chost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a byddant yn cael eu harfarnu fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, bydd unrhyw gyllid dros ben yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor, fel y cânt eu nodi yng Nghynllun y Cyngor 2022-2027, ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw neu gynhyrchu incwm ychwanegol yn y dyfodol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Dengys y canlyniadau ar ddiwedd chwarter 1, a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir, fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Er bod disgwyl i rai prosiectau danwario ar hyn o bryd, rhaid nodi fod cyllidebau wedi cael eu hymrwymo a bod gofyn amdanynt, a gofynnir i'r cynlluniau hyn lithro i 2025/26 er mwyn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.361m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2024/25 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a Rhagolwg o Wariant ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant o gymharu â'r Proffil (£) | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | (Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai – Cronfa Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 878,910 | 100,000 | 92,500 | 0 | 92,500 | (7,500) | 92 | 11 | 878,910 | 0 | 0 |
| Grant Galluogi | 139,786 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 139,786 | 0 | 0 |
| Tai Fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,049,346** | **100,000** | **92,500** | **0** | **92,500** | **(7,500)** | **92** | **9** | **1,049,346** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Tai - CRT** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 1,600,000 | 100,000 | 84,327 | 0 | 84,327 | (15,673) | 84 | 5 | 1,600,000 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,216,006 | 1,200,000 | 1,185,792 | 0 | 1,185,792 | (14,208) | 99 | 19 | 6,216,006 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,700,000 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | (2,000) | 0 | 0 | 1,700,000 | 0 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 60,000 | 62,892 | 0 | 62,892 | 2,892 | 105 | 13 | 500,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol a Datblygu Eiddo Newydd | 15,657,000 | 4,700,000 | 4,731,154 | 0 | 4,731,154 | 31,154 | 101 | 30 | 15,657,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 500,000 | 125,000 | 106,544 | 0 | 106,544 | (18,456) | 85 | 21 | 500,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 400,000 | 80,000 | 4,071 | 0 | 4,071 | (75,929) | 5 | 1 | 400,000 | 0 | 0 |
| Fflyd | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 300,000 | 0 | 0 |
| SATC | 2,700,000 | 305,000 | 304,435 | 0 | 304,435 | (565) | 100 | 11 | 2,700,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **29,573,006** | **6,572,000** | **6,479,215** | **0** | **6,479,215** | **(92,785)** | **99** | **22** | **29,573,006** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl | 134,763 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 134,763 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeilad  Addysg | 553,747 | 50,000 | 49,411 | 0 | 49,411 | (589) | 99 | 9 | 553,747 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 68,901 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 68,901 | 0 | 0 |
| Canopïau Allanol | 3,077 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 3,077 | 0 | 0 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023/24 | 108,385 | 108,385 | 108,385 | 0 | 108,385 | 0 | 100 | 100 | 108,385 | 0 | 0 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol 2024/25 | 476,761 | 50,000 | 51,141 | 0 | 51,141 | 1,141 | 102 | 11 | 388,700 | (88,061) | (18) |
| Ysgolion Bro | 789,680 | 50,000 | 16,038 | 32,168 | 48,205 | (1,795) | 96 | 6 | 789,680 | 0 | 0 |
| Gwaith Adfer RAAC | 1,013,521 | 200,000 | 166,848 | 14,812 | 181,660 | (18,340) | 91 | 18 | 1,013,521 | 0 | 0 |
| Uned Gofal Plant y Fali | 281,166 | 100,000 | 72,402 | 14,743 | 87,145 | (12,855) | 87 | 31 | 281,166 | 0 | 0 |
| Santes Fair – Gwaith ar y To | 218,607 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 218,607 | 0 | 0 |
| Ysgol David Hughes – Bloc Technoleg Bwyd | 162,950 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 162,950 | 0 | 0 |
| Cychwyn y Rhaglen Band B | 2,878,000 | 1,500,000 | 1,403,827 | 84,982 | 1,488,809 | (11,191) | 99 | 52 | 2,878,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **6,689,558** | **2,058,386** | **1,868,052** | **146,705** | **2,014,757** | **(43,628)** | **98** | **30** | **6,601,497** | **(88,061)** | **(1)** |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant o gymharu â'r Proffil (£) | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | (Tan) / Gor Wariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Canolfan Hamdden Amlwch - Lloriau | 50,527 | 50,000 | 47,524 | 2,381 | 49,905 | (95) | 100 | 99 | 50,000 | (527) | (1) |
| Porth Twristiaeth | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 1,282,000 | 500,000 | 117,866 | 629,928 | 747,794 | 247,794 | 150 | 58 | 1,282,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Llesiant Amgylcheddol | 122,543 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 122,543 | 0 | 0 |
| Llithrfa Porth y Wrach – Camerâu Gorfodaeth | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymunedol Newry | 51,287 | 10,000 | (973) | 10,000 | 9,027 | (973) | 90 | 18 | 51,287 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Morwrol | 177,514 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 177,514 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 193,953 | 50,000 | 2,382 | 33,802 | 36,184 | (13,817) | 72 | 19 | 193,953 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyniant Bro | 9,800,000 | 100,000 | 107,612 | 0 | 107,612 | 7,612 | 108 | 1 | 9,800,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **11,757,824** | **710,000** | **274,411** | **676,111** | **950,522** | **240,522** | **134** | **8** | **11,757,297** | **(527)** | **(0)** |
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Cerbydau | 520,789 | 100,000 | 80,894 | 45,220 | 126,114 | 26,114 | 126 | 24 | 504,789 | (16,000) | (3) |
| Cerbydau Graeanu | 456,000 | 200,000 | 0 | 197,880 | 197,880 | (2,120) | 99 | 43 | 427,000 | (29,000) | (6) |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 2,116,975 | 300,000 | 287,721 | 0 | 287,721 | (12,279) | 96 | 14 | 2,116,975 | 0 | 0 |
| Cynllun Llifogydd Llanfair | 349,334 | 5,000 | 5,010 | 0 | 5,010 | 10 | 100 | 1 | 349,334 | 0 | 0 |
| CBLl Cynllun Llifogydd Menai | 69,518 | 30,000 | 5,551 | 25,000 | 30,551 | 551 | 102 | 44 | 69,518 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 346,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 346,800 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Grantiau Gwaith Graddfa Fach | 529,641 | 50,000 | 35,996 | 0 | 35,996 | (14,004) | 72 | 7 | 529,641 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 1,527,338 | 300,000 | 62,670 | 239,558 | 302,228 | 2,228 | 101 | 20 | 1,527,338 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau – Mannau Gwefru Cerbydau Trydan 2023/24 | 163,521 | 10,000 | 9,897 | 0 | 9,897 | (103) | 99 | 6 | 163,521 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | 161,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 161,500 | 0 | 0 |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 71,750 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 71,750 | 0 | 0 |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn 2024/25 | 502,500 | 5,000 | 2,508 | 0 | 2,508 | (2,492) | 50 | 0 | 502,500 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 178,705 | 20,000 | 18,580 | 0 | 18,580 | (1,420) | 93 | 10 | 178,705 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **6,999,439** | **1,020,000** | **508,827** | **507,658** | **1,016,485** | **(3,515)** | **100** | **15** | **6,954,439** | **(45,000)** | **(1)** |

**ATODIAD B**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant wedi'i Ymrwymo (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiant o gymharu â'r Proffil (£) | Cyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Cyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragwelir (£) | (Tan) / Gorwariant a Ragwelir (£) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith Compostio Caeedig | 7,791 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 7,791 | 0 | 0 |
| Cyfarpar Ailgylchu | 255,857 | 238,524 | 238,524 | 0 | 238,524 | 0 | 100 | 93 | 255,857 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **263,648** | **238,524** | **238,524** | **0** | **238,524** | **(0)** | **100** | **90** | **263,648** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Presennol | 900,505 | 30,000 | 28,367 | 0 | 28,367 | (1,633) | 95 | 3 | 900,505 | 0 | 0 |
| Plas Arthur | 1,083,753 | 1,000 | 250 | 0 | 250 | (750) | 25 | 0 | 1,083,753 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Eiddo | 15,596 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 15,596 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel – Swyddfeydd y Cyngor | 23,900 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 23,900 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 231 | 2,002,567 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 2,002,567 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 249 | 1,539,374 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 1,539,374 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 250 | 3,899,555 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 3,899,555 | 0 | 0 |
| Grant Gwres Carbon Isel - 251 | 1,557,982 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 1,557,982 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 279,574 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (279,574) | (100) |
| **CYFANSWM** | **11,302,806** | **31,000** | **28,617** | **0** | **28,617** | **(2,383)** | **92** | **0** | **11,023,232** | **(279,574)** | **(2)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh | 411,513 | 10,000 | 0 | 9,630 | 9,630 | (370) | 96 | 2 | 411,513 | 0 | 0 |
| System Ffôn | 88,500 | 30,000 | 25,971 | 4,684 | 30,655 | 655 | 102 | 35 | 88,500 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **500,013** | **40,000** | **25,971** | **14,313** | **40,284** | **284** | **101** | **8** | **500,013** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gardd Synhwyraidd Gors Felen | 62,353 | 20,000 | 17,108 | 0 | 17,108 | (2,892) | 86 | 27 | 62,353 | 0 | 0 |
| Canolfan Glanhwfa | 987,041 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 700,000 | (287,041) | (29) |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 162,362 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 162,362 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 13,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,520 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,225,276** | **20,000** | **17,108** | **0** | **17,108** | **(2,893)** | **86** | **1** | **938,235** | **(287,041)** | **(23)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **69,360,916** | **10,789,911** | **9,533,225** | **1,344,788** | **10,878,013** | **88,102** | **101** | **16** | **68,660,713** | **(700,203)** | **(1)** |

**Newidiadau i gyllidebau / cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd ar ôl gosod y gyllideb**

| | | CYLLID | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllun** | **Cyllideb £** | **Grant £** | **Cyfraniad Refeniw £** | **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £** | **Cronfa Wrth Gefn Gyfalaf £** | **Benthyca â Chefnogaeth £** | **Benthyca Digefnogaeth £** | **Cronfa Wrth Gefn Arall £** |
| Galluogi | 139,786 | 139,786 | | | | | | |
| Teithio Llesol | 1,527,338 | 1,527,338 | | | | | | |
| ADY 2024/25 | 476,761 | 476,761 | | | | | | |
| Cynlluniau Grant Graddfa Fach | 529,641 | 464,369 | | | 65,272 | | | |
| Gardd Synhwyraidd Gors Felen | 62,353 | 62,353 | | | | | | |
| Canolfan Glanhwfa | 987,041 | 987,041 | | | | | | |
| Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | 161,500 | 161,500 | | | | | | |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 71,750 | 71,750 | | | | | | |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | 502,500 | 502,500 | | | | | | |
| Ysgol DH – Bloc Technoleg Bwyd | 162,950 | 115,000 | | | 27,950 | 20,000 | | |
| Cyfalaf Adeiladau Addysg | (490,752) | | | | | (490,752) | | |
| Cyfalaf Adeiladau'r Cyngor | (202,790) | | | | | (202,790) | | |
| Gwaith Toi Ysgol Santes Fair | 218,607 | 153,000 | | | | 65,607 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 231 | 1,059,524 | 953,571 | | | | 105,953 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 249 | 941,700 | 847,530 | | | | 94,170 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 250 | 2,285,610 | 2,057,049 | | | | 228,561 | | |
| Grant Gwres Carbon Isel - 251 | 907,935 | 817,142 | | | | 90,793 | | |
| Plas Arthur | 1,083,753 | 995,295 | | | | 88,458 | | |
| Ysgolion Bro 2024/25 | 789,680 | 789,680 | | | | | | |
| Y Gronfa Gofal Integredig | 162,362 | | | | | 162,362 | | |
| Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | (8,023) | (8,023) | | | | | | |
| CRT* | (1,345,000) | (1,172,661) | (2,688,074) | 509,441 | | (162,362) | 2,168,656 | |
| **CYFANSWM** | **10,024,226** | 9,940,981 | (2,688,074) | 509,441 | 93,222 | 0 | 2,168,656 | 0 |

*Roedd cyllideb y CRT ar gyfer 2024/25 yn cynnwys amcangyfrif ar gyfer cyllid grant oedd yn rhy uchel, ac, yn ogystal â gostwng y gyllideb yn ôl y gofyn, mae'r cyllid wedi cael ei ddiwygio hefyd.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **24 MEDI 2024** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 1, 2024/25** |
| Deilydd Portffolio: | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CARWYN EDWARDS**<br>**01248 752699**<br>**CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2024/25.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gyllideb refeniw gyda gwarged a gynlluniwyd o £8,369k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2024/25 yw £29,573k. Mae cyllideb cyllid grant gwerth £10,578k a chronfa wrth gefn clustnodedig sydd â balans o £510k yn gostwng y gyllideb net i £18,485k.

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £10,116k. Bydd £7,011k yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT, a bydd y balans o £3,105k yn cael ei gyllido gan fenthyca allanol.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian o'i gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa gwarged / diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 1 yn dangos tanwariant o £270k, o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Rhagwelir tanwariant o £23k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant cyfalaf £93k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, fel yr esbonnir yn Atodiad B isod. Disgwylir i'r gyllideb o £10,578k ar gyfer incwm grantiau gael ei chyflawni'n llawn a bydd swm o £509k o'r gronfa wrth gefn clustnodedig yn cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (cyfuniad o refeniw a chyfalaf) nawr yn £10,093k, £23k yn llai na'r gyllideb.

## 5. Incwm

**5.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd incwm £68k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd. Gellir priodoli'r diffyg o £57k mewn incwm rhenti yn rhannol i'r ffaith bod llai o eiddo y gellir eu gosod o gymharu â'r gyllideb, ac yn rhannol oherwydd nad yw eiddo newydd wedi cael ei drosglwyddo i'r stoc dai er mwyn ei osod yn unol â'r amserlen. Incwm is na'r disgwyl o'r Tariff Cyflenwi Trydan sydd i gyfrif yn bennaf am y diffyg o £11k sy'n weddill. Rydym yn rhagweld £67k yn llai o incwm na'r disgwyl ar ddiwedd y flwyddyn.

## 6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**6.1** Ar ddiwedd chwarter 1, roedd gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £18k yn fwy na'r gyllideb a broffiliwyd. Y prif resymau am y canlyniad hwn yw tanwariant o £16k ar gostau staffio yn y tîm rheoli stadau (secondiadau tu allan i'r CRT, dyfarniad cyflog 2024 heb ei gytuno eto), a gorwariant o £36k, yn bennaf oherwydd nad yw gwariant gwirioneddol ar systemau TG y CRT wedi digwydd yn unol â'r amserlen yn y gyllideb. Rydym yn rhagweld gorwariant o £37k ar ddiwedd y flwyddyn.

## 7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw

**7.1** Roedd tanwariant o £355k ar waith trwsio a chynnal a chadw ar ddiwedd chwarter 1. Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT), sydd £306k yn is na'r gyllideb. Mae hyn yn gyfuniad o sawl ffactor:-

**(i)** tanwariant ar gostau staffio oherwydd swyddi gweigion a nid yw dyfarniadau cyflog 2024 wedi eu cytuno eto (£25k yn llai na'r gyllideb);

**(ii)** gwariwyd llai ar ddeunyddiau o storfeydd ac mae'r gwariant £127k yn llai na'r gyllideb. Mae'r gwariant hwn yn bennaf yn gysylltiedig â gwaith sy'n seiliedig ar y galw a gallai'r sefyllfa newid yn ystod y flwyddyn. Er hynny, ar sail lefelau gweithgarwch presennol, rydym yn rhagweld tanwariant o £150k ar ddiwedd y flwyddyn;

**(iii)** gwariwyd llai na'r gyllideb ar isgontractwyr ac mae gwariant £149k yn llai na'r gyllideb. Unwaith eto, gwariant yn gysylltiedig â gwaith sy'n seiliedig ar y galw yw hwn, a gall y sefyllfa newid yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld tanwariant o £156k ar ddiwedd y flwyddyn;

**(iv)** tanwariant ychwanegol ar drafnidiaeth (cyllideb ar gyfer cerbydau i'w defnyddio gan staff gweithredol mewn swyddi sy'n wag), yn ogystal â rhai amrywiadau cyffredinol eraill mewn gwariant.

**7.2** Mae gwariant ar staff nad ydynt yn staff cynnal a chadw yr UCChT £47k yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1, yn rhannol oherwydd swyddi gweigion ac yn rhannol oherwydd nad yw dyfarniadau cyflog 2024 wedi'u cytuno eto.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sydd yn ffurfio rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd chwarter 1 rydym yn rhagweld cyllideb gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf gros ar gyfer 2024/25 yw £29,573k. Y gyllideb cyllid grant ar gyfer 2024/25 yw £10,578k a'r gyllideb cyfraniadau eraill yw £510k. Rydym yn rhagweld cyllideb gytbwys ar gyfer gwariant cyfalaf (gweler Atodiad B am ddadansoddiad manwl) ac rydym yn rhagweld cyllideb gytbwys ar gyfer incwm grantiau. Rydym yn rhagweld hefyd y bydd y gronfa wrth gefn clustnodedig, gwerth £509k, yn cael ei defnyddio'n llawn.

Mae'r cyllid grant sy'n cael ei ragweld, gwerth £10,578k, yn cael ei grynhoi yn y tabl isod:-

| Ffynhonnell | Rhagolwg Chwarter 1 £ |
|---|---:|
| Y Gronfa Tai â Gofal | 100,000 |
| CADW | 73,676 |
| Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) | 324,730 |
| Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol | 568,157 |
| Grant Tai Cymdeithasol | 5,582,609 |
| Y Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,690,000 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024/25 | 872,899 |
| Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024/25 Dyraniad Ychwanegol | 366,268 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **10,578,339** |

**9.2** Gwariant SATC – Mae'r gyllideb o £2,700k yn cael ei rhannu fel a ganlyn:- £1,500k i fynd i'r afael â gwaith SATC a wrthodwyd gan denantiaid ac elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaeth yn newid dwylo, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac ail-weirio systemau wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes. Bydd y £1,200k sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i sefydlu rhaglen 5 mlynedd ar gyfer adnewyddu ceginau sydd bellach dros 15 oed. Rhagwelir y bydd tendrau am y contract yn cael eu gwahodd a'u harfarnu yn ystod chwarter 2. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.

**9.3** Gwariant Risg Tân – Bwriedir gwario'r gyllideb o £400k ar sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005. Bydd y mesurau arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â gosod drysau tân newydd (FD60) mewn fflatiau ac uwchraddio systemau larymau tân mewn blociau o fflatiau. Bydd y contract gosod drysau tân newydd yn cael ei dendro a'i ddyfarnu yn ystod chwarter 2. Rhagwelir y bydd y gyllideb lawn yn cael ei defnyddio yn 2024/25.

**9.4** Gwariant ar Addasiadau Sector Cyhoeddus – Mae'r Gwasanaethau Tai yn disgwyl i'r galw am addasiadau canolig a mawr barhau'n uchel a bydd y gyllideb o £500k a neilltuwyd yn cyllido gwaith megis gosod lifftiau grisiau, cawodydd â mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.

**9.5** Gwariant Perfformiad Ynni – Yn ystod chwarter 1, paratowyd dogfennau contract gyda'r bwriad o sefydlu rhaglen 5 mlynedd ar gyfer darparu mesurau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio yn y tymor hwy. Bydd y contract, sy'n ymwneud yn bennaf â gosod systemau Solar PV ar y stoc dai, ac sydd wedi cael ei gymeradwyo bellach gan SPEN (yn amodol ar gynnwys mesurau cyfyngu allforio fel rhan o'r gosodiadau), yn cael ei dendro a'i ddyfarnu yn ystod chwarter 2. Os yw'r contract yn cael ei ddyfarnu'n llwyddiannus, bydd y gyllideb o £1,700k yn cael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.

**9.6** Gwariant Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd – Neilltuwyd cyllideb gwerth cyfanswm o £6,216k ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw traddodiadol sydd wedi'i gynllunio, ac mae'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gyfer cynlluniau a ddyfarnwyd yn 2023/24 lle'r oedd gwaith arnynt wedi dechrau'n barod. Mae'r ymrwymiad a ddygwyd ymlaen yn bennaf yn ymwneud â pharhau gwaith Cam 2 ym Maes Cynfor, Bae Cemaes a Cilgant Morrison, Caergybi. Mae'r Gwasanaethau Tai'n bwriadu tendro Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd arall yn ystod chwarter 2, ar gyfer Cam 2 Tan y Bryn, Y Fali, ac, os yw'r contract yn cael ei ddyfarnu'n llwyddiannus, mae disgwyl i'r gyllideb ar gyfer 2024/25 gael ei hymrwymo'n llawn.

**9.7** Gwariant Gwaith Amgylcheddol – Mae cyllideb gwerth £500k wedi'i neilltuo ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn ystod 2024/25. Bydd cyfran o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â'r gwaith a gynlluniwyd i ddymchwel garejys yn Llangefni, Moelfre ac Amlwch nad yw'n ymarferol eu cadw. Defnyddir y gyllideb hefyd ar gyfer gwelliannau wedi'u targedu ar stadau tai ac uwchraddio gwaith trin y mae'r Gwasanaethau Tai'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu. Rhagwelir y caiff y gyllideb ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25.

**9.8** Gwariant Contract Gwres Canolog – Yn ystod 2024/25, nod y Gwasanaethau Tai yw adnewyddu oddeutu 600 o foeleri, a neilltuwyd cyllideb o £1,600k ar gyfer y prosiect. Dyfarnwyd contract ar gyfer y rhaglen adnewyddu boeleri ar gyfer eleni yn ystod chwarter 1. Rhagwelir y bydd y gwariant yn cynyddu ac yn parhau'n gyson trwy gydol chwarteri 2, 3 a 4. Rhagwelir y caiff y gyllideb lawn ei defnyddio yn ystod 2024/25.

**9.9** Adnewyddu Fflyd – Mae'r gyllideb yn neilltuo swm o £300k er mwyn cychwyn rhaglen dreigl o adnewyddu fflyd gerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau, yn bennaf y faniau a ddefnyddir gan weithwyr.

**9.10** Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd – Disgwylir i'r gyllideb o £15,657k gael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2024/25. Gweler Atodiad C am ddadansoddiad manwl o'r cynlluniau.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,189k. Roedd y gyllideb yn caniatáu ar gyfer defnyddio £7,011k o'r balans hwn, gan adael yr isafswm balans o £1,177k ar gyfer y gronfa wrth gefn a nodwyd gan y Swyddog Adran 151, ac mae hyn gyfystyr â 5% o'r gyllideb incwm ar gyfer 2024/25.

**11. Benthyciadau'r CRT**

**11.1** Mae'r diffyg refeniw / cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer eleni yn £10,116k. Mae hyn yn cael ei gyllido gan £7,011k o gronfa wrth gefn y CRT a £3,105k gan fenthyca allanol. Rydym yn rhagweld tanwariant o £23k ar ddiwedd y flwyddyn, felly, mae'r gofyn am gyllid allanol wedi gostwng gan yr un swm.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? | | |
|---|---|---|
| Ydi | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio, gydag adroddiadau eraill, i lunio cynllun busnes a chyllideb flynyddol y CRT. Bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu wrth osod y gyllideb flynyddol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaethau Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |
| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2024. Ymgorfforwyd y sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried yn y cyfarfod ar 3 Medi 2024. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| **5** | Eiddo | Amherthnasol |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| **7** | Caffael | Amherthnasol |
| **8** | Sgriwtini | Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn cael ei hysbysu am ganlyniadau adroddiadau monitro chwarterol y CRT. |
| **9** | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F - Atodiadau**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd chwarter 1 2024/25.
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 1 2024/25.
- Atodiad C – Cynlluniau cyfalaf adeiladu tai newydd a rhagolygon hyd at ddiwedd chwarter 1 2024/25.

**Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2024-2054 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2024).

**ATODIAD A**

## *CYFRIF REFENIW TAI 2024/25*

| | Cyllideb Flynyddol 2024/25 | Cyllideb a broffilwyd hyd at Mis 3 | Gwirioneddol hyd at Mis 3 | Amrywiant hyd at Mis 3 | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn | Amrywiant ar Ddiwedd y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Anheddau | (22,764,700) | (5,691,176) | (5,634,205) | 56,971 | (22,707,729) | 56,971 |
| Modurdai | (267,820) | (66,956) | (66,192) | 764 | (267,056) | 764 |
| Taliadau Gwasanaeth | (185,730) | (46,433) | (45,016) | 1,417 | (184,313) | 1,417 |
| Arall | (233,340) | (29,337) | (20,585) | 8,752 | (225,839) | 7,501 |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 341,470 | 0 | 0 | 0 | 341,470 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(23,110,120)** | **(5,833,902)** | **(5,765,998)** | **67,904** | **(23,043,467)** | **66,653** |
| **Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 252,940 | 62,795 | 58,925 | (3,870) | 258,373 | 5,433 |
| Gweinyddu Rhenti | 450,530 | 111,851 | 112,971 | 1,120 | 453,532 | 3,002 |
| Rheoli Stadau | 684,480 | 170,827 | 154,724 | (16,103) | 674,706 | (9,774) |
| Gwariant Refeniw Arall | 2,354,450 | 556,131 | 592,682 | 36,551 | 2,392,606 | 38,156 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **3,742,400** | **901,604** | **919,302** | **17,698** | **3,779,217** | **36,817** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 6,576,240 | 1,633,814 | 1,327,867 | (305,947) | 6,469,775 | (106,465) |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 1,192,960 | 297,750 | 250,544 | (47,206) | 1,171,507 | (21,453) |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 1,098,220 | 322,293 | 320,193 | (2,100) | 1,099,990 | 1,770 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **8,867,420** | **2,253,857** | **1,898,604** | **(355,253)** | **8,741,272** | **(126,148)** |
| | | | | | | |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 1,646,000 | 0 | 0 | 0 | 1,646,000 | 0 |
| Llog a Dderbynnir | (400,000) | 0 | 0 | 0 | (400,000) | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Tai | 53,870 | 0 | 0 | 0 | 53,870 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Canolog | 831,260 | 0 | 0 | 0 | 831,260 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **2,131,130** | **0** | **0** | **0** | **2,131,130** | **0** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **14,740,950** | **3,155,461** | **2,817,906** | **(337,555)** | **14,651,619** | **(89,331)** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(8,369,170)** | **(2,678,441)** | **(2,948,092)** | **(269,651)** | **(8,391,848)** | **(22,678)** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2024/25 | 29,573,006 | 6,572,000 | 6,479,215 | (92,785) | 29,573,006 | 0 |
| Cyllid grant | (10,578,339) | 0 | 0 | 0 | (10,578,339) | 0 |
| Cyfraniadau eraill | (509,441) | 0 | 0 | 0 | (509,441) | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **18,485,226** | **6,572,000** | **6,479,215** | **(92,785)** | **18,485,226** | **0** |
| ***Cyllidir Gan*** | | | | | | |
| Gwarged refeniw | (8,369,170) | 0 | 0 | 0 | (8,391,848) | (22,678) |
| Arian wrth gefn CRT | (7,011,400) | 0 | 0 | 0 | (7,011,400) | 0 |
| Benthyca digefnogaeth | (3,104,656) | 0 | 0 | 0 | (3,081,978) | 22,678 |
| **Cyfanswm Cyllido Gwariant Cyfalaf** | **(18,485,226)** | **0** | **0** | **0** | **(18,485,226)** | **0** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,188,500) | 0 | 0 | 0 | (8,188,500) | 0 |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 7,011,400 | 0 | 0 | 0 | 7,011,400 | 0 |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(1,177,100)** | **0** | **0** | **0** | **(1,177,100)** | **0** |

ATODIAD B

**CYLLIDEB CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI 2024/25**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol 2024/25 £ | Cyllideb a Broffilwyd i Mis 3 £ | Gwirioneddol i Mis 3 £ | Amrywiant i Mis 3 £ | Rhagolwg Diwedd Blwyddyn £ | Amrywiant Diwedd Blwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CRT Tai | | | | | | |
| Contract Gwresogi Canolog | 1,600,000 | 100,000 | 84,327 | (15,673) | 1,600,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw a gynlluniwyd | 6,216,006 | 1,200,000 | 1,185,792 | (14,208) | 6,216,006 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,700,000 | 2,000 | 0 | (2,000) | 1,700,000 | 0 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500,000 | 60,000 | 62,892 | 2,892 | 500,000 | 0 |
| Prynu Eiddo Cyfredol a Datblygu Eiddo Newydd | 15,657,000 | 4,700,000 | 4,731,154 | 31,154 | 15,657,000 | 0 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 500,000 | 125,000 | 106,544 | (18,456) | 500,000 | 0 |
| Risg Tân | 400,000 | 80,000 | 4,071 | (75,929) | 400,000 | 0 |
| SATC | 2,700,000 | 305,000 | 304,435 | (565) | 2,700,000 | 0 |
| Adnewyddu Fflyd | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 300,000 | 0 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **29,573,006** | **6,572,000** | **6,479,215** | **(92,785)** | **29,573,006** | **0** |



ATODIAD C

**CYLLIDEB DATBLYGIADAU NEWYDD 2024/25**

| Cynllun | Nifer yr Unedau Ychwanegol | Cyllideb 2024/25 | Gwariant hyd Mis 3 | Rhagolwg Gwariant Mis 4 - 12 | Cyfanswm Gwariant a Ragwelir 2024/25 | Amrywiant a Ragwelir yn Ch1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ |
| Lôn Lwyd, Pentraeth | 10 | 2,723,500 | 2,723,500 | 0 | 2,723,500 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 55 | 100,000 | 35,911 | 64,089 | 100,000 | 0 |
| Plas Alltran, Caergybi | 4 | 238,000 | 88,014 | 149,986 | 238,000 | 0 |
| Cae Braenar, Caergybi | 23 | 4,000,000 | 514,398 | 3,485,602 | 4,000,000 | 0 |
| Adnewyddu 15 Uned | 0 | 1,000,000 | 447,353 | 552,647 | 1,000,000 | 0 |
| Prynu 15 Uned yn ól | 15 | 1,500,000 | 0 | 1,500,000 | 1,500,000 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Niwbwrch | 14 | 2,500,000 | 1,925 | 2,498,075 | 2,500,000 | 0 |
| Hen Safle Ysgol Thomas Ellis | 43 | 21,500 | 6,315 | 15,186 | 21,500 | 0 |
| Parc y Coed, Llangefni Cam 2 | 10 | 294,000 | 143,514 | 150,486 | 294,000 | 0 |
| Stad y Bryn, Llanfaethlu | 9 | 2,175,000 | 477,239 | 1,697,761 | 2,175,000 | 0 |
| Plas Penlan, Llangefni | 12 | 50,000 | 5,418 | 44,582 | 50,000 | 0 |
| Maes Mona, Amlwch | 40 | 60,000 | 3,816 | 56,184 | 60,000 | 0 |
| Ffordd Garreg Lwyd, Caergybi | 8 | 865,000 | 326,842 | 538,158 | 865,000 | 0 |
| Dargadwaethau a Gariwyd Ymlaen | 0 | 0 | -45,563 | 45,563 | 0 | 0 |
| Cynlluniau yn y Cyfnod Cyn Cynllunio | 0 | 130,000 | 2,473 | 127,527 | 130,000 | 0 |
| **Cyfanswm** | **243** | **15,657,000** | **4,731,154** | **10,925,846** | **15,657,000** | **0** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **24 MEDI 2024** |
| Pwnc: | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2025/26 – 2027/28** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID** |
| Rheolwr Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>**01248 752601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/ion a rheswm/rhesymau**

**Argymhellion**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw, ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o osod y gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2025/26.

Mae'r adroddiad manwl ynghlwm fel Atodiad1.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, sydd yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Felly, nid ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb, a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi, mae'n unol â pharagraff 4.3.2.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ni fydd y penderfyniad, er y bydd yn cael effaith ar gyllideb 2025/26, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn creu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. O ganlyniad, ni fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2024/25.

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r CATC yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 3 blynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu i ddiwallu anghenion yr Ynys a'i thrigolion. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Mae nodi a chytuno ar sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer cost gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd cynllunio ariannol da yn golygu bod modd osgoi costau dianghenraid yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor, ynghyd â'r 21 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi gosod allan sefyllfa ariannol ar draws Cymru i Lywodraeth Cymru (LlC).<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r rhagdybiaethau manwl a ddefnyddir yn y cynllun. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol yn destun proses ymgynghori gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad cyn cyflwyno ei gynigion cyllideb terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth bob blwyddyn. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol,<br>a byddai cynigion unigol yn cael eu hasesu mewn perthynas â'u heffaith ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yr adeg hynny. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei chael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. | Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai effaith cynigion unigol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol yn cael ei hasesu bryd hynny. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith |

| E – Gyda phwy yr ymgynghorwyd? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2024. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr a'r TA yn y drafft terfynol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 - Adroddiad Manwl ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>Atodiad 2 – Rhagdybiaethau’r CATC<br>Atodiad 3 - Amcangyfrif o’r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2025/26 – 2027/28<br>Atodiad 4 - Dadansoddiad o Gyllideb 2024/25 yn ôl Gwasanaeth a'r math o ddarpariaeth |
| **Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.

**1.2.** Paratowyd y CATC yn ystod cyfnod parhaus o ansicrwydd economaidd. Mae chwyddiant bellach yn sylweddol is ac o gwmpas targed Banc Lloegr ond mae cyfraddau llog yn parhau'n uchel. Bydd y newid yn Llywodraeth y DU yn arwain at newid mewn strategaeth economaidd a pholisi ariannol a chyllidol. Gallai hyn arwain at newid yn lefel y cyllid y gall Cynghorau Cymru ei dderbyn. Bydd digwyddiadau ledled y byd, fel y rhyfel parhaus yn yr Wcráin ac etholiadau arlywyddol America sydd ar fin digwydd hefyd yn dylanwadu ar sefyllfa economaidd y byd ac yn ychwanegu at lefel yr ansicrwydd.

**1.3.** Bydd y Canghellor Llafur newydd yn cyhoeddi ei Datganiad Hydref ar 30 Hydref 2024, a gall y datganiad gynnwys mwy o fanylion ynghylch lefel y cyllid y bydd Llywodraeth Cymru (LlC) yn ei dderbyn o 2025/26 ymlaen. Mae'r CATC hwn yn seiliedig ar y rhagamcanion ariannol presennol a osodwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU, ac efallai y bydd yn newid.

**1.4.** Nid yw'r sefyllfa mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff NJC ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 wedi'i setlo eto, gyda bwlch sylweddol rhwng cynnig cyflog y cyflogwr a chais yr Undebau. O ystyried bod tâl staff NJC yn cyfrif am tua £65m o wariant y Cyngor, mae'r diffyg cytundeb yn cynyddu'r ansicrwydd i'r cyllidebau wrth symud ymlaen. Yn ogystal â hyn, nid yw LlC eto wedi cyhoeddi dyfarniad cyflog athrawon, sy'n weithredol o fis Medi 2024. Mae cyflog athrawon yn cyfrif am £36m o wariant y Cyngor.

**1.5.** Mae'r CATC yn ystyried yr holl newidiadau y gwyddys amdanynt y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2024/25, ac mae'n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflogau, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid LlC, pwysau demograffig a phwysau o ran galw).

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL BRESENNOL Y CYNGOR

**2.1.** Ym mis Mawrth 2024, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Refeniw 2024/25**

| | £'m |
|---|---:|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2023/24** | **174.569** |
| Chwyddiant Cyflog a Chostau eraill sy'n Gysylltiedig â Staff | 4.813 |
| Chwyddiant nad yw'n Gyflog | 2.446 |
| Pwysau Cyllidebol a Buddsoddiadau Gwasanaeth | 3.825 |
| Newidiadau Cyllido Cyfalaf | 1.424 |
| Incwm Ychwanegol – uwchlaw cynnydd yn lefel chwyddiant | (0.365) |
| Arbedion Cyllidebol | (2.548) |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2024/25** | **184.164** |
| | |
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 127.586 |
| Y Deth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 52.153 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 4.425 |
| **Cyfanswm Cyllid 2024/25** | **184.164** |

**2.2.** Gwelwyd cynnydd o £9.595m yn y gyllideb refeniw net derfynol ar gyfer 2024/25, sy'n cyfateb i gynnydd o 5.5%. Cynyddodd y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) 2.8% (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad). Cynyddodd debyd y Dreth Gyngor 10.7%. Cynyddodd y tâl Band D 9.5%, gyda gweddill y cynnydd mewn debyd y Dreth Gyngor o ganlyniad i'r newid yn sylfaen y dreth a chynnydd yn y premiwm ail gartrefi o 75% i 100%.

**2.3.** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, nododd y Cyngor danwariant net o £1.732m (0.99%), gyda'r holl Wasanaethau ar wahân i Ofal Cymdeithasol Plant a Phriffyrdd, yn nodi tanwariant yn erbyn eu cyllideb. Roedd y sefyllfa o ran Priffyrdd yn gysylltiedig â thaliadau untro a sefyllfa sylfaenol y Gwasanaeth yw bod gwariant o fewn y gyllideb.

**2.4.** Mae'r sefyllfa o ran Gwasanaethau Plant yn fwy pryderus, gyda nifer y plant mewn gofal yn cynyddu a chost lleoliadau yn cynyddu'n sylweddol. Mae'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Plant wedi cynyddu 90% ers 2016/17, tra bod cyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor ond wedi codi 48.5%, ac mae'r gyllideb bellach yn cyfrif am 7.8% o gyllideb refeniw net y Cyngor o'i gymharu â 6.1% yn 2016/17. Er gwaethaf y cynnydd mewn cyllid, mae'r Gwasanaeth yn parhau i orwario ei gyllideb (10.7% yn 2023/24) ac mae sefyllfa ariannol y Gwasanaeth yn risg i sefydlogrwydd ariannol y Cyngor.

**2.5.** Cafodd sefyllfa ariannol y Cyngor ei gwella hefyd gan apêl lwyddiannus y Cyngor yn erbyn gwerth ardrethol nifer o eiddo ac arweiniodd hynny at ad-daliad o £1.64m sydd wedi'i ychwanegu at falansau cyffredinol y Cyngor.

**2.6.** Mae'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd 2023/24 wedi cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor o £14.039m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £15.614m, er bod £4.425m wedi'i ddefnyddio fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25. Mae hyn yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i £11.189m. Gellir defnyddio'r balansau cyffredinol i gyllido costau ychwanegol heb eu cyllido sy'n codi yn ystod y flwyddyn a byddent yn gyllido unrhyw orwariant a allai godi yn ystod 2024/25. Mae'r Cyngor wedi gosod targed o gadw 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net fel isafswm balans ar gyfer cronfeydd wrth gefn cyffredinol, ar gyfer 2024/25, mae hyn gyfwerth â £9.2m, sydd £2m yn is na'r lefel bresennol.

**2.7.** Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor i gyllido prosiectau penodol untro, i gyllido costau disgwyliedig yn y dyfodol (e.e. colledion heb eu hyswirio) a chyllid grant nas defnyddiwyd, yn £16.778m ar 31 Mawrth 2024, gostyngiad o £2.859m yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn, gan dynnu £2.00m o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'u trosglwyddo'n ôl i falansau cyffredinol y Cyngor.

**2.8.** Bu gostyngiad ym Malansau Ysgolion hefyd yn ystod 2023/24, o £6.716m i £5.577m. Mae sefyllfa gyllidebol y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod capio'r cynnydd o ran chwyddiant a ddarparwyd yn y gyllideb ac, o ganlyniad, mae Ysgolion wedi defnyddio eu balansau i bennu cyllideb gytbwys. Ar gyfer 2024/25, mae ysgolion yn bwriadu defnyddio £2.17m arall o'u balansau i gyllido eu costau. Os yw'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yr un mor heriol ag y mae ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd balansau'r ysgol yn gostwng ymhellach.

**2.9.** Cafodd y Cyngor gynnydd yn lefel y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan LC, i fyny £3.439m (2.8%) ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd mewn cyllid yn cynnwys y pwysau chwyddiant a wynebir gan y Cyngor ac, felly, nid oedd yn gynnydd ariannol mewn termau real. Bu cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor, ac nid oedd y cynnydd hwn ynghyd â'r cynnydd yn yr AEF yn ddigonol i gyllido'r cynnydd oedd ei angen yng nghyllideb refeniw net y Cyngor. O ganlyniad, defnyddiwyd £4.425m o gronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb, yn ogystal â defnyddio £3.78m yn 2023/24. Mae'n bosibl defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr ac mae hynny'n rhoi amser i'r Cyngor sicrhau bod gwariant hirdymor yn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael, ond nid yw'n bosibl parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor hir ac mae defnyddio'r cronfeydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor.

**2.10.** Mae CIPFA yn argymell defnyddio 4 dangosydd gwydnwch ariannol i asesu sefyllfa ariannol y Cyngor, sef:-

- Bwlch Cyllido fel canran o'r Gwariant Refeniw Net, cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor;
- Gor / Tan wariant mewn perthynas â gwariant refeniw net;
- Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel canran o'r gyllideb refeniw net;
- Costau Cyllido Cyfalaf fel canran o wariant refeniw net.

**2.11.** Mae'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â phob dangosydd fel a ganlyn:-

### 2.11.1 Tabl 2 - Bwlch cyllido fel Canran o Wariant Refeniw Net

| Blwyddyn | Cyllideb Ddisymyd £'m | AEF £'m | Y Dreth Gyngor y flwyddyn flaenorol (nodyn 1) £'m | Cyfanswm y Cyllid cyn Cynnydd y Dreth Gyngor £'m | Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido £'m | % Bwlch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 132.337 | 94.924 | 33.644 | 128.568 | 3.769 | 2.85% |
| 2019/20 | 134.702 | 95.159 | 35.087 | 130.246 | 7.156 | 5.21% |
| 2020/21 | 142.203 | 101.005 | 39.370 | 140.375 | 1.828 | 1.29% |
| 2021/22 | 147.076 | 104.825 | 41.161 | 145.986 | 1.090 | 0.74% |
| 2022/23 | 155.501 | 114.549 | 42.957 | 157.506 | (2.005) | (1.29%) |
| 2023/24 | 173.830 | 123.665 | 44.879 | 168.544 | 5.286 | 3.04% |
| 2024/25 | 188.992 | 126.973 | 47.628 | 174.601 | 14.391 | 7.61% |
| Nodyn 1 – Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol yn cael eu haddasu i ystyried newidiadau i sylfaen y dreth | | | | | | |

Mae'r tabl yn dangos bod y cyfnod o lymder wedi parhau yn 2018/19 a 2019/20, a bod y bwlch cyllido yn golygu bod angen gwneud arbedion a chynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. Yna bu gwelliant yn y sefyllfa yn 2020/21 a 2021/22, a llwyddwyd i lenwi'r bwlch cyllido drwy godi'r dreth gyngor ar sail chwyddiant neu'n is na chwyddiant. Yn 2022/23, roedd y sefyllfa'n sylweddol well ac roedd yn golygu bod modd gwneud buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau, ond gwaethygodd y sefyllfa eto yn 2023/24 a 2024/25, gyda'r bwlch cyllido'n cael ei lenwi'n bennaf drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb.

Trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn sut mae'r sefyllfa ar gyfer 2025/26 ymlaen yn cymharu â'r data hanesyddol hwn.

### 2.11.2 Tabl 3 - Gor / Tan wariant mewn perthynas â Gwariant Refeniw Net

| Blwyddyn | Cyllideb Refeniw Net £'m | Gwariant Refeniw Net Gwirioneddol £'m | Gor / (Tan) Wariant £'m | % y Gor / (Tan) Wariant |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 Gwirioneddol | 130.900 | 131.533 | 0.633 | 0.48% |
| 2019/20 Gwirioneddol | 135.210 | 134.902 | (0.308) | (0.23%) |
| 2020/21 Gwirioneddol | 142.146 | 137.942 | (4.204) | (2.96%) |
| 2021/22 Gwirioneddol | 147.120 | 142.323 | (4.797) | (3.26%) |
| 2022/23 Gwirioneddol | 158.367 | 157.154 | (1.213) | (0.77%) |
| 2023/24 (yn destun archwiliad | 174.569 | 172.837 | (1.732) | (0.99%) |
| 2024/25 (rhagolygon yn Chwarter 1) | 184.164 | 184.254 | 0.090 | 0.05% |

Mae'r tabl yn tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa derfynol yn agos at y gyllideb yn 2018/19 a 2019/20, gyda gorwariant bach yn 2018/19 a thanwariant bach yn 2019/20. Yna cafodd Covid effaith sylweddol ar y galw am wasanaethau a lefel y cyllid a dderbyniwyd gan LlC a arweiniodd at 2 flynedd o danwariant sylweddol. Dechreuodd y sefyllfa normaleiddio yn 2022/23 ond, eto, yn sgil cyllid ychwanegol gan LlC gwellodd y sefyllfa gan alluogi'r Cyngor i danwario unwaith eto.

Mae blwyddyn ariannol 2023/24 wedi dychwelyd i lefel fwy arferol o wasanaeth a chyllid cyn Covid. Roedd y sefyllfa danwariant derfynol yn rhannol oherwydd ymdrech ar y cyd gan bob gwasanaeth i leihau gwariant trwy ymestyn y cyfnodau y mae swyddi staff yn wag a dileu gwariant nad oedd yn hanfodol. Roedd y sefyllfa hefyd o ganlyniad i anawsterau recriwtio a chyllid grant ychwanegol, er ar lefel is nag mewn blynyddoedd blaenorol.

**2.11.3 Tabl 4 - Cronfeydd wrth gefn y gellir eu Defnyddio fel Canran o'r Gyllideb Refeniw Net (NRE)**

| Blwyddyn | Cyllideb Refeniw Net £'m | Balansau Cyffredinol £'m | Cronfeydd wrth gefn clustnodedig £'m | Balansau Ysgolion £'m | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu Defnyddio £'m | % Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar sail NRE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 130.900 | 5.912 | 9.914 | 0.631 | 16.457 | 12.57% |
| 2019/20 | 135.210 | 7.060 | 10.090 | 0.197 | 17.437 | 12.83% |
| 2020/21 | 142.146 | 11.437 | 14.846 | 3.974 | 30.257 | 21.29% |
| 2021/22 | 147.120 | 12.278 | 25.562 | 7.827 | 45.667 | 31.04% |
| 2022/23 | 158.367 | 13.967 | 21.952 | 6.716 | 42.635 | 26.92% |
| 2023/24 | 174.569 | 15.604 | 19.633 | 5.577 | 40.814 | 23.38% |
| 2024/25 (rhagolwg) | 184.164 | 11.079 | 12.103 | 3.410 | 26.592 | 14.44% |

Mae'r tabl yn dangos bod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi cryfhau'n sylweddol ers 2018/19 o ganlyniad i'r tanwariant yn 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Er ei fod hefyd yn nodi bod y sefyllfa'n dechrau gwanhau gan ddefnyddio £4.425m o falansau cyffredinol a £2.167m o falansau ysgolion i gydbwyso cyllideb 2024/25, gan leihau'r ganran a ragwelwyd i'r lefelau cyn Covid. Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod gallu'r Cyngor i barhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau fel ffynhonnell gyllido yn dod i ben, a bydd angen mynd i'r afael â'r tangyllido strwythurol sylfaenol yng nghyllidebau yn y dyfodol.

### 2.11.4 Tabl 5 - Costau Cyllido Cyfalaf fel Canran o Wariant Refeniw Net

| Blwyddyn | Cyllideb Refeniw Net<br>£'m | DRI<br>£'m | Llog yn daladwy<br>£'m | Llog a dderbyniwyd<br>£'m | Cyfanswm Costau Cyllido Cyfalaf<br>£'m | % o Gostau Cyllido Cyfalaf ar sail NRE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 130.900 | 2.463 | 4.041 | (0.062) | 6.442 | 4.92% |
| 2019/20 | 135.210 | 2.655 | 4.261 | (0.127) | 6.789 | 5.02% |
| 2020/21 | 142.146 | 2.696 | 4.159 | (0.045) | 6.810 | 4.79% |
| 2021/22 | 147.120 | 2.752 | 3.988 | (0.016) | 6.724 | 4.57% |
| 2022/23 | 158.367 | 1.325 | 4.233 | (0.800) | 4.758 | 3.00% |
| 2023/24 | 174.569 | 1.446 | 5.773 | (3.071) | 4.148 | 2.38% |
| 2024/25 (cyllideb) | 184.164 | 1.603 | 4.812 | (0.670) | 5.745 | 3.12% |

Mae'r gostyngiad yn y ganran oherwydd dau ffactor. Yn gyntaf, nid ydym wedi gwneud unrhyw fenthyciadau allanol ychwanegol ers mis Chwefror 2020, ac rydym wedi defnyddio ein balansau arian parod ein hunain i ariannu gwariant cyfalaf a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gyllido drwy fenthyciadau â chefnogaeth neu digefnogaeth. Yn ail, hanerodd y newid ym mholisi'r DRI yn 2022/23 y tâl DRI blynyddol yn y blynyddoedd cynnar, er y bydd y tâl yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r dangosydd hwn yn ddangosydd da o sefyllfa ariannol gan ei fod yn dangos faint o gyllideb refeniw net flynyddol y Cyngor sy'n cael ei defnyddio i gyllido benthyciadau. Po isaf yw'r ffigwr, y mwyaf o gyllid sydd ar gael i gyllido gwasanaethau'r Cyngor.

## 3. RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

**3.1.** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod gan LlC, Llywodraeth y DU sy'n darparu holl gyllid LlC ac mae'r hyn sy'n digwydd yn economi'r DU a'r gyllideb yn cael effaith uniongyrchol ar LlC a chyllid awdurdodau lleol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r CATC.

**3.2.** Mae'r pandemig byd-eang, y rhyfel yn yr Wcráin ac effaith Brexit wedi bod yn sioc sylweddol i economi'r DU ac, o ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi darparu lefelau digynsail o gymorth i unigolion a busnesau ar ffurf grantiau Covid, grantiau cymorth ynni a grantiau cymorth costau byw. Roedd dyled gros Llywodraeth y DU (fel yr adroddwyd gan yr ONS) yn £2.73 triliwn, sef 99.5% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y wlad. Mae hyn yn cymharu â £2.57 triliwn ym mis Mehefin 2023 sef 100.5% o GDP.

**3.3.** Yn ystod 2023/24, benthycodd y Llywodraeth £121bn, o'i gymharu â £132bn yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac maent eisoes wedi benthyca £49.8bn arall yn chwarter cyntaf 2024/25. Mae'r Canghellor wedi cyhoeddi bod tua £20bn o ymrwymiadau heb eu cyllido ar hyn o bryd ond nad yw wedi gosod y targedau benthyca ar gyfer y blynyddoedd i ddod eto, ond mae'n debygol y bydd gofyn dechrau lleihau dyled fel cyfran o GDP yn ystod cyfnod y Senedd hon. Os yw'r economi'n tyfu a benthyca yn cwympo, dylai hyn ganiatáu i Lywodraeth y DU gyrraedd ei tharged i leihau dyled fel cyfran o GDP.

**3.4.** Mae nifer o ddigwyddiadau wedi achosi pwysau chwyddiant yn economi'r DU. Achoswyd y cynnydd yn bennaf gan y cynnydd sydyn mewn prisiau ynni, ar ôl i'r rhyfel ddechrau yn yr Wcráin, ond mae prinder ym marchnad lafur y DU yn dilyn Brexit, problemau cadwyn gyflenwi byd-eang ar ôl Covid a chostau mewnforio cynyddol hefyd wedi cyfrannu at y pwysau chwyddiant. Cyrhaeddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022, gan ostwng yn ôl i 2.0% ym mis Mehefin 2024, ond cynyddodd ychydig i 2.2% ym mis Gorffennaf 2024. Rhagwelir y bydd chwyddiant yn cynyddu ychydig yn ystod gweddill 2024, gan gyrraedd uchafbwynt o, neu oddeutu 3% cyn gostwng yn ôl i darged Banc Lloegr o 2% erbyn haf 2025.

**3.5.** Cafodd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ei thorri i 0.1% ym mis Mawrth 2020, ac arhosodd ar y lefel isel iawn hon tan ddechrau 2022. Wrth i chwyddiant ddechrau codi, ddaru Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) wneud cynnydd graddol bach yn y gyfradd sylfaenol o 0.25% neu 0.5% ym mhob adolygiad, i gyrraedd uchafbwynt o 5.25%, cyn cael ei ostwng i 5% ym mis Gorffennaf 2024. Mae Banc Lloegr wedi ymrwymo i reoli chwyddiant, gyda chyfraddau llog yn brif ysgogiad i gyflawni'r nod hwn. Wrth i gyfraddau llog godi, mae gan ddefnyddwyr lai o incwm gwario i'w wario ac mae hyn, yn ei dro, yn lleihau'r galw economaidd, sydd yn ei dro yn lleihau chwyddiant. P'un ai y bydd cyfraddau llog yn parhau i godi neu ostwng, mae hynny'n dibynnu os bydd chwyddiant yn unol â tharged Banc Lloegr neu yn agos ati. Yn ôl y rhagolygon presennol, mae chwyddiant bellach dan reolaeth a bydd cyfraddau llog yn parhau i ostwng yn raddol dros y misoedd nesaf, gan ostwng i 4.5% erbyn diwedd 2024, 3.25% erbyn diwedd 2025, gan gyrraedd 3% erbyn haf 2026. Mae'n debygol wedyn y byddant yn parhau ar y lefel hon hyd y gellir rhagweld ac ni fyddant yn disgyn i'r lefelau isel iawn a welwyd rhwng 2009 a 2021.

**3.6.** Yn dilyn cyfnod o ychydig neu ddim twf, aeth economi'r DU i ddirwasgiad technegol (2 chwarter olynol o dwf negyddol) yn ail hanner 2023. Mae dau chwarter cyntaf 2024 wedi gweld yr economi yn tyfu 1.3%, sy'n welliant ar y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhagwelir y bydd twf yn arafu yn ystod ail hanner 2024 ond bydd yn dal i fod yn bositif, a rhagwelir twf rhwng 1% a 2% ar gyfer 2025, 2026 a 2027.

**3.7.** Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu lefel trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol i'w lefel uchaf ers yr Ail Ryfel Byd, gyda refeniw treth bellach yn cyfateb i 40% o GDP. Mae rhewi trothwyon treth incwm a'r cynnydd yn y dreth gorfforaeth wedi cyfrannu at y cynnydd. Mae'r baich o ran treth uchel yn cyfyngu'n ddifrifol allu'r Llywodraeth i gynyddu gwariant cyhoeddus trwy gynyddu trethi uniongyrchol neu anuniongyrchol. Addawodd y Llywodraeth Lafur newydd i beidio â chynyddu treth incwm, yswiriant gwladol na TAW, a bydd hyn yn cyfyngu'n arw ar allu'r Llywodraeth i gyllido gwariant cyhoeddus ychwanegol drwy fwy o refeniw treth. Byddai'r twf yn yr economi wedyn yn creu mwy o refeniw treth gan y byddai busnesau'n creu mwy o elw a byddai gan y boblogaeth fwy o incwm gwario.

**3.8.** Mae Llywodraeth y DU dan bwysau cynyddol i gynyddu'r gwariant ar feysydd blaenoriaeth uchel, fel y GIG, ond hefyd i gynyddu gwariant ar amddiffyn, o ystyried y risgiau cynyddol yn dilyn rhyfel yr Wcráin. Gyda lefel benthyca ar ei huchaf erioed, a'r baich treth hefyd yn uchel, mae dewisiadau'r Llywodraeth o ran twf cyhoeddus yn gyfyngedig a bydd diogelu rhai gwasanaethau yn gofyn am doriadau mewn cyllidebau nad ydynt wedi'u diogelu.

**3.9.** Mae'r sefyllfa economaidd yn parhau i wella, gyda chwyddiant yn ôl dan reolaeth, y posibilrwydd o gyfraddau llog is a thwf economaidd unwaith eto. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r lefel uchaf erioed o ddyled genedlaethol a'r baich treth uchel, ac mae hyn yn cyfyngu ar y posibilrwydd o gynnydd mewn gwariant cyhoeddus yn y tymor byr i'r tymor canolig.

**3.10.** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddiogelu cyllideb y Gwasanaeth Iechyd, ynghyd â chynyddu gwariant ar amddiffyn. Bydd hyn yn gofyn am ostyngiadau mewn cyllidebau heb eu diogelu mewn termau real, gan gynnwys y cyllid a ddaw i Gymru.

## 4. CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU

**4.1.** Mae cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Ar ôl ystyried grantiau a drosglwyddwyd i mewn ac allan o'r setliad, a chyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd, bu gostyngiad yn setliad llywodraeth leol bob blwyddyn, mewn termau arian parod, rhwng 2013/14 a 2019/20. Dechreuodd godi yn 2020/21, ond dim ond yn 2022/23 yr oedd yn uwch na lefel 2013/14, pan gynyddodd y setliad 9.4%. Parhaodd y cynnydd o 7.9% yn 2023/24 i leihau'r bwlch rhwng lefel wirioneddol y setliad a lle byddai wedi bod pe byddai'r cynnydd o ran chwyddiant wedi'i gynnwys bob blwyddyn, ond cynyddodd setliad llai na chwyddiant o 3.3% y bwlch rhwng y setliad gwirioneddol a lle y dylai fod pe byddai chwyddiant wedi'i gynnwys bob blwyddyn. Felly, mewn termau real, mae'r cyllid yn dal i fod dros 10% yn llai na lefel 2013/14.

**4.2.** Mae tua 50% o gyllideb LlC yn cyllido’r GIG yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru o dan bwysau i fynd i'r afael â'r rhestrau aros cynyddol a’r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae Llywodraeth Leol yn cyfrif am tua 25% o gyllideb LlC. O ystyried bod y ddau faes yn wynebu pwysau o ran galw a chost, bydd yn anodd iawn gosod cyllidebau sy'n cyllido’n llawn y pwysau o ran chwyddiant a galw yn y GIG a Llywodraeth Leol.

**4.3.** Mae newid Llywodraeth y DU yn golygu nad oes amcangyfrif o gyllideb LlC ar gyfer 2025/26 ymlaen. Yn seiliedig ar drafodaethau anffurfiol gyda swyddogion LlC, y consensws ar draws Trysoryddion Cynghorau Cymru yw y gallai fod yn setliad arian gwastad h.y. dim cynnydd o ffigwr 2024/25, a chynnydd o 1%.

**4.4.** Mae LlC yn dal i fod mewn trafodaethau gyda Thrysorlys EM ynglŷn â’r cyllid ychwanegol a fydd ar gael i dalu am y cyfraniadau pensiwn uwch i gyflogwyr ar gyfer athrawon a diffoddwyr tân. Bydd hyn yn cynyddu'r sefyllfa sylfaenol ar gyfer 2024/25, ond bydd ond yn cyllido costau ychwanegol y bu'n rhaid i'r Cyngor eu cyllido yn 2024/25.

**4.5.** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd o 5.5% i athrawon o fis Medi 2024. Nid yw LlC eto wedi cyhoeddi'r dyfarniad cyflog i athrawon Cymru. Os bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ryddhau i'r Adran Addysg yn Lloegr, yna bydd hyn yn arwain at gyllid ychwanegol i Gymru drwy fformiwla Barnett. Bydd yn benderfyniad i LC p’un ai a ddyfernir yr holl gyllid neu ran o'r cyllid hwn i Gynghorau ond, unwaith eto, bydd ond, yn cyllido costau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r Cynghorau eu talu.

**4.6.** Mae dadansoddiad gan Dadansoddiad Ariannol Cymru ym mis Mehefin 2024, yn seiliedig ar effaith cyllideb y DU ym mis Mawrth ac addewidion maniffesto'r Blaid Lafur, yn amcangyfrif y byddai cyllideb LlC yn cynyddu 1.1% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real, ond, os caiff cyllid ychwanegol o'r gyllideb ei ddyrannu ar draws Iechyd ac Addysg fel yn Lloegr, byddai'n arwain at ostyngiad mewn termau real o 0.8% yn setliad llywodraeth leol Cymru yn 2025/26 gyda gostyngiad mewn termau real o 1.7% ym meysydd gwariant eraill LlC.

**4.7.** Mae'n annhebygol y bydd y sefyllfa ariannol ar gyfer 2025/26 yn dod yn fwy eglur nes i'r Canghellor gyhoeddi cyllideb y DU ar 30 Hydref 2024 a phan fydd LlC yn cyhoeddi ei chyllideb ar gyfer 2025/26 ar 10 Rhagfyr 2024.

## 5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1.** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Leol yn wynebu nifer o bwysau cyllidebol, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. Ym mis Rhagfyr 2023, amcangyfrifodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fod y Cynghorau yng Nghymru yn wynebu diffyg o £800m yn y gyllideb yn 2024/25 gyda diffygion pellach o £600m yn 2025/26 a 2026/27, yn seiliedig ar ddarparu'r gwasanaethau hyd at lefel y galw disgwyliedig a chyllido’r pwysau o ran chwyddiant.

**5.2.** Mae'r meysydd canlynol yn cael eu hystyried fel y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor dros dymor y cynllun hwn:-

i. **Codiadau cyflog – Cyflogau Staff nad ydynt yn Athrawon**
Nid yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25 wedi'i setlo hyd yma, ac mae’n annhebygol o gael ei ddatrys cyn diwedd 2024. Mae'r Undebau wedi gofyn am ddyfarniad cyflog o £3,000 neu 10%, p'un bynnag yw'r uchaf, sy'n cyfateb i gynnydd o 13.41% ar gyfer y pwynt cyflog isaf a 10% ar gyfer pob pwynt uwchben graddfa 5, tra bod cynnig y Cyflogwr yn £1,290 am bob pwynt hyd at radd 7 a 2.5% wedi hynny.

Dangosir effaith yr hyn y mae'r Undeb yn galw amdano a'r cynnig cyflog o'i gymharu â'r swm a ganiateir yng nghyllideb 2024/25 yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Effaith Dyfarniad Cyflog Staff Nad ydynt yn Athrawon ar Gyllideb 2024/25**

| | Y Gyllideb Sylfaen 2023/24 £'000 | Chwyddiant 2024/25 £'000 | Cyllideb 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb y Cyngor (cynnydd tybiedig o 3.5% yn 2024/25)** | **52,153** | **1,824** | **53,977** |
| **Cynnig Cyflog y Cyflogwr** | | | |
| Amcangyfrif o Gost y Cynnig i Weithwyr - cynnydd cyfartalog o 4.1% | | 2,139 | 54,292 |
| **Diffyg cyllido** | | | **315** |
| **Y Galw o ran Cyflog gan yr Undeb** | | | |
| Amcangyfrif o Gost yr hyn y mae'r Undeb yn galw amdano - cynnydd cyfartalog o 11.1% | | 5,779 | 57,932 |
| **Diffyg cyllido** | | | **3,955** |
| | | | |

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae cynnig y cyflogwr yn fforddiadwy o ran y gyllideb a ddarperir gan y Cyngor ond, wrth i'r dyfarniad cyflog gynyddu tuag at yr hyn y mae'r Undeb yn galw amdano, mae'n dod yn llai fforddiadwy a byddai'n rhoi pwysau sylweddol ar gyllideb 2024/25 a byddai angen cywiro hyn wedyn yng nghyllideb 2025/26.

Ar gyfer 2025/26 ymlaen, rhagwelir y dylai'r dyfarniad cyflog fod yn fwy cydnaws â chwyddiant ac mae 2% wedi cael ei ganiatáu yn y CATC. Fodd bynnag, un ffactor a all arwain at gynnydd uwch na chwyddiant yn ystod cyfnod y cynllun hwn yw effaith y cyflog byw cenedlaethol ar y graddfeydd cyflog. Dangosir y gwahaniaeth rhwng cyfradd yr awr y pwynt cyflog isaf a'r cyflog byw cenedlaethol yn Nhabl 7 isod:-

**Tabl 7**

**Cymharu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r pwynt isaf ar Raddfa Gyflog NJC**

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd yr Awr Pwynt Isaf ar Raddfa Gyflog NJC | £11.59 | £12.26[1] | £12.50[2] |
| | | | |
| Cyflog Byw Cenedlaethol | £10.42 | £11.44 | £11.85[3] |
| | | | |
| Y gwahaniaeth rhwng graddfa NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol | £1.17 | £0.82 | £0.65 |
| | | | |
| % y gwahaniaeth rhwng graddfa NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol | 11.2% | 7.2% | 5.5% |
| | | | |
| 1. Cynnydd yn seiliedig ar gynnig cyflog y Cyflogwr o £1,290 y flwyddyn | | | |
| 2. Yn seiliedig ar gynnydd chwyddiant o 2% | | | |
| 3. Yn seiliedig ar ragolwg OBR o'r cynnydd mewn enillion cyfartalog o 3.6% | | | |

Er mwyn cynnal neu gynyddu'r gwahaniaeth, byddai angen cynyddu'r pwyntiau isaf ar raddfa NJC yn uwch na chwyddiant ac efallai y bydd hyn yn golygu y bydd angen ailstrwythuro'r raddfa gyflog i greu bwlch digonol rhwng graddfeydd NJC a'r cyflog byw cenedlaethol.

**ii. Codiadau Cyflog – Cyflogau Athrawon**

LlC sy'n pennu cyflog athrawon, gyda'r dyfarniad cyflog yn weithredol o fis Medi bob blwyddyn. Nid oes dyfarniad cyflog wedi'i gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau mis Medi 2024 ac nid yw LlC wedi awgrymu beth fydd lefel unrhyw gynnydd yn y dyfodol.

Mae'r Canghellor wedi cyhoeddi cynnydd o 5.5% i athrawon yn Lloegr o fis Medi 2024. Gall hyn arwain at ddarparu cyllid ychwanegol i Gymru drwy fformiwla Barnett. Yn hanesyddol, mae LlC wedi cyllido'r cynnydd yng nghyflog athrawon drwy'r setliad llywodraeth leol ac os bydd cyllid ychwanegol yn cael ei dderbyn yng Nghymru a LlC yn dyrannu hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru, yna dylai'r dyfarniad cyflog terfynol fod yn gost-niwtral i'r Cyngor.

Wrth bennu cyllideb 2024/25 caniatawyd 2% ar gyfer cyflog athrawon ac, os yw'r cynnydd yn 5.5%, yna bydd angen cywiro cyllideb 2025/26. Effaith blwyddyn gyfan unioni hyn yw £1.27m.

Er y gallai fod rhywfaint o bwysau i gynyddu tâl athrawon uwchlaw chwyddiant yn y blynyddoedd i ddod i helpu i recriwtio a chadw staff, at ddibenion y CATC, caniatawyd 2% fel dyfarniadau cyflog yn y dyfodol. Mae pob cynnydd o 1% yn cynyddu gwariant y Cyngor o gwmpas £400k.

**iii. Cyfraniadau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon**

Ail-brisiwyd cynllun pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn 2022, gyda chyfraddau cyfrannu newydd i gyflogwyr yn weithredol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 i fis Mawrth 2026. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar gyfrifo cyfraddau cyfrannu cyflogwr, sy'n cynnwys perfformiad y gronfa y buddsoddwyd ynddi, lefel y cyfraddau gilt sy'n pennu cyfradd ddisgownt rhwymedigaethau yn y dyfodol a'r aelodaeth bresennol. O ystyried bod y cynllun yn cael ei gyllido'n llawn ar hyn o bryd, y gobaith yw y bydd unrhyw newid i'r gyfradd gyfrannu'n fach iawn. Byddai pob cynnydd o 1% yn y gyfradd gyfrannu'n cynyddu costau'r Cyngor oddeutu £500k.

Cafodd y Cynllun Pensiwn Athrawon ei ailbrisio ym mis Ebrill 2024, gyda chyfraddau cyfrannu athrawon yn cynyddu o 23.58% i 28.58%. Mae hyn yn gynnydd o 21% ac wedi ychwanegu tua £1.3m i gyllidebau'r Cyngor. Mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt ynghylch a fydd Llywodraeth y DU yn cyllido cyfanswm cost y cynnydd hwn ond, ar hyn o bryd, mae disgwyl y bydd tua 85% i 90% o'r costau'n cael eu cyllido. Caniatawyd y cynnydd mewn cyfraniadau yng nghyllideb 2024/25 a byddai unrhyw gyllid DU ychwanegol yn gyllid annisgwyl a byddai'n lleihau'r bwlch cyllido. Ni fydd y cynllun yn cael ei ailbrisio nesaf tan 2028 ac, felly, ni ddisgwylir newid pellach yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

**iv. Contractau Gwasanaeth Mawr**

Mae nifer o Wasanaethau'r Cyngor wedi'u allanoli, gan gynnwys casglu a gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol a chontractau bysiau gwasanaeth cyhoeddus. Mae mwyafrif y contractau yn gytundebau hirdymor a fydd yn dod i ben ar ôl diwedd y cyfnod dan sylw yn y cynllun hwn. Mae pris pob contract yn cael ei godi'n flynyddol gan ddefnyddio set o fynegeion chwyddiant a bennir ymlaen llaw sy'n cael eu diffinio ym mhob contract. Mae'r gyllideb ar gyfer y contractau hyn oddeutu £24 ac mae'r cynnydd fel arfer yn dibynnu ar fynegeion chwyddiant yn yr hydref blaenorol cyn y dyddiad cau. Wrth i chwyddiant ostwng, mae'r pwysau o ran cost y contractau hyn yn lleihau, gydag amcangyfrif o gynnydd o tua £0.6m yn 2025/26, gyda chynnydd tebyg yn 2026/27 a 2027/28.

**v. Costau Ynni**

Y gyllideb bresennol ar gyfer ynni (trydan a nwy) yn 2024/25 oedd £4.49m (£2.41m ar gyfer trydan a £2.08m ar gyfer nwy), gyda'r costau uchaf yn gysylltiedig ag ysgolion uwchradd, canolfannau hamdden a phrif swyddfeydd y Cyngor. Mae llawer o waith wedi ei wneud i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys gosod paneli solar a bwyler newydd yn Swyddfeydd y Cyngor a bydd cyllid grant pellach yn arwain at osod pympiau ffynhonnell gwres a gwell inswleiddio mewn 27 ysgol ac adeiladau eraill y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf.

Aildendrodd y Cyngor ei gontractau nwy a thrydan yn gynnar yn 2024, gyda'r cyfraddau newydd yn dod i rym o fis Hydref 2024, a phrisiau'n sefydlog tan fis Hydref 2027. Manteisiodd y broses dendro ar ostyngiad sylweddol ym mhrisiau nwy a thrydan, gyda gostyngiadau o dros 20% yn deillio o'r broses dendro. Bydd hyn yn lleihau costau ynni'r Cyngor oddeutu £1m, ond bydd y gostyngiad hwn yn fwy wrth i fwy o'r datrysiadau effeithlon o ran ynni gael eu gweithredu.

Bydd y prisiau'n sefydlog am y rhan fwyaf o'r cyfnod sy'n cael ei gynnwys gan y CATC.

**vi. Ffioedd Cartrefi Gofal Henoed, Nyrsio, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Phreswyl**

Ers nifer o flynyddoedd, penderfynwyd ar y cynnydd blynyddol mewn ffioedd nyrsio, pobl hŷn bregus eu meddwl a chartrefi gofal preswyl gan ddefnyddio pecyn cymorth safonol y mae pob un o'r 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynyddu eu ffioedd. Yn 2022, dechreuodd awdurdodau symud i ffwrdd o'r pecyn cymorth ond maent yn dal wedi ymrwymo i geisio cynnal trefniant rhanbarthol. Mae'r Cyngor wedi cynyddu ffioedd rhwng 30% a 40% yn y 3 blynedd ers 2021/22.

Mae cynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn parhau i ddadlau nad yw'r ffioedd sy'n cael eu talu gan y Cynghorau yn cyllido'n llawn y costau y mae cartrefi gofal yn eu hwynebu, a bod y ffioedd a delir gan gynghorau Gogledd Cymru yn gyffredinol yn is na'r rhai a dalwyd gan gynghorau yn y De.

Mae nifer y cleientiaid sy'n cael eu rhoi mewn cartrefi wedi sefydlogi ac mae'r costau bellach o fewn y gyllideb, ond gallai hyn newid yn gyflym, yn enwedig dros y gaeaf pan fydd y pwysau i ryddhau cleifion o'r ysbyty yn cynyddu.

Mae'r cynllun yn parhau i ganiatáu cynnydd uwch na chwyddiant mewn ffioedd yn 2025/26, gyda chynnydd mewn ffioedd wedyn yn gostwng yn ôl i lefelau chwyddiant yn 2026/27 a 2027/28. Mae pob cynnydd o 1% mewn ffioedd yn ychwanegu tua £100k at wariant y Cyngor.

**vii. Contract Gofal Cartref**

Mae rhan o'r gwasanaeth gofal cartref wedi'i allanoli i'r sector preifat, gyda'r contractau'n cael eu haildendro'n rheolaidd. Mae cynnydd blynyddol yn y gyfradd fesul awr yn cael ei drafod gyda phob darparwr, a'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar gost yw'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Disgwylir i'r Cyflog Byw Cenedlaethol godi 3.6% yn 2025/26 a darparwyd ar gyfer hyn yn y cynllun, gyda chynnydd yn unol â chwyddiant cyffredinol yn y ddwy flynedd ganlynol.

**viii. Gwasanaethau Plant**

Yn sgil buddsoddiad cynyddol ac effaith Covid, roedd costau Gwasanaethau Plant o fewn y gyllideb yn 2020/21 a 2021/22, fodd bynnag, mae sefyllfa'r gyllideb wedi gwaethygu gyda gorwariant o £1m (8%) yn y Gwasanaeth yn 2022/23 a £1.4m (11%) yn 2023/24. Yn ôl y rhagolygon cychwynnol, er gwaethaf cynnydd o 10% yng nghyllideb 2024/25, amcangyfrifir y bydd y Gwasanaeth yn gorwario £1.78m (12%) eto yn 2024/25.

Mae nifer y plant mewn gofal yn parhau i gynyddu ac, er gwaethaf cynnydd yn lefel y ddarpariaeth ar yr Ynys (Cartrefi Clyd, Rhieni Maethu), mae nifer uwch o blant yn cael eu lleoli gyda gwasanaeth allsirol gan y sector preifat. Mae'r galw am y lleoliadau hyn yn cynyddu'n genedlaethol, sy'n cynyddu costau lleoliadau ar gyfradd sy'n sylweddol uwch na chwyddiant.

Mae LlC yn deddfu i ddileu elw yn sgil Gofal Plant, gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth a ddarperir drwy'r sector cyhoeddus. Yn y tymor hir, dylai'r capasiti cynyddol hwn sefydlogi'r costau sy'n wynebu cynghorau ond, yn y tymor byr, nid yw'n ateb y broblem gapasiti ac mae rhai darparwyr sector preifat yn gadael y farchnad yng Nghymru, gan waethygu'r broblem.

Er bod y Gwasanaeth yn ceisio lleihau costau, mae'r cynllun yn darparu dau fuddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r sefyllfa gorwario, cyllid ychwanegol i fodloni cynnydd pellach yn y galw a chynnydd chwyddiant sy'n uwch na chwyddiant prisiau cyffredinol. Bydd hyn yn cynyddu'r gofyniad yn y gyllideb 20% yn 2025/26, 5% yn 2026/27 a 2.6% yn 2027/28.

**ix. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

Yn yr un modd â'r Gwasanaethau Plant, mae risg sylweddol y bydd y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion (henoed, iechyd meddwl, anabledd dysgu ac ati) yn cynyddu. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau chwyddiant ar gyflog a chostau darparwyr y sector preifat. Mae'r sefyllfa yn 2024/25 wedi gwella gyda'r cynnydd ychwanegol yn y gyllideb yn ddigon i ateb y galw presennol, er y gall hyn newid yn gyflym.

Mae'r cynllun yn caniatáu cynnydd o £1m yn y gyllideb i ateb y galw cynyddol yn 2025/26 a 2026/27, yn ogystal ag unrhyw gynnydd mewn chwyddiant.

**x. Digartrefedd**

Mae'r gyllideb net ar gyfer 2024/25 yn £750k, fodd bynnag, mae cyllid grant ychwanegol gan LlC a thaliadau budd-daliadau tai yn cynyddu'r gwariant gros i tua £2.5m. Mae'r galw wedi cynyddu ond mae hyn wedi cael ei dalu yn bennaf drwy gyllid grant ychwanegol.

Y risg yw y bydd cyllid grant yn gostwng ond na fydd llai o alw. Yna byddai pwysau'r gyllideb yn disgyn ar gyllideb graidd y Cyngor. Mae cronfa wrth gefn glustnodedig wedi'i chreu a fyddai'n lliniaru'r risg. O ganlyniad, dim ond cynnydd cymedrol mewn costau a ganiateir dros oes y cynllun h.y. 2% yn ychwanegol at chwyddiant.

xi. **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers i'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i setliad llywodraeth leol, nid yw'r swm sydd yn yr Asesiad Gwariant Safonol gan LlC wedi newid i raddau helaeth. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Bu cynnydd o 8% yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 er mwyn cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y Dreth Gyngor a'r cynnydd disgwyliedig mewn llwyth achosion. Hyd yma, nid yw'r cynnydd disgwyliedig mewn llwyth achosion wedi dod i'r amlwg yn 2024/25, a rhagwelir y bydd gwariant ar lefel cyllideb 2023/24, h.y. £500k yn is na chyllideb 2025/26. Dylai hyn olygu y gellir cywiro'r gyllideb yn 2025/26 i leihau'r llwyth achosion a ragwelir.

xii. **Costau Cyllido Cyfalaf**

Yn ogystal â thaliadau llog ar fenthyciadau sy'n bodoli'n barod a rhai newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (a elwir yn Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI). Penderfynir ar y DRI yn unol â'r Polisi DRI, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn gofyn am rywfaint o fenthyca ychwanegol ac, wrth i lefel y benthyca gynyddu, mae'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan y polisi DRI a thaliadau llog cysylltiedig hefyd yn cynyddu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y CATC er mwyn rhoi ystyriaeth i lefel y benthyca â chefnogaeth a ganiateir yn y setliad cyllido, ynghyd â'r gwariant y mae'r Cyngor wedi'i gynllunio ar Ysgol y Graig.

Fodd bynnag, dylid nodi bod cost gwaith adeiladu wedi cynyddu ers i'r cyfnodau clo gael eu llacio, gyda phrinder deunyddiau a llafur yn golygu bod y prisiau wedi codi. Er ei bod yn ymddangos bod y cynnydd wedi arafu, does dim arwydd y bydd prisiau'n dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn Covid. Mae hyn yn cynyddu costau prosiectau cyfalaf, a gallai hynny arwain at fenthyca ychwanegol, a fydd yn ei dro yn arwain at gynnydd yn y costau cyllido cyfalaf. O ystyried yr ansicrwydd presennol, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer y risg bosibl hon yn y cynllun presennol.

Roedd balansau arian parod uchel a'r cynnydd sydyn mewn cyfraddau llog yn golygu bod y cyllidebau oedd yn derbyn llog wedi cynyddu oddeutu £1m yn 2023/24. Fodd bynnag, mae balansau arian parod yn 2024/25 yn sylweddol is wrth i gronfeydd wrth gefn arian ddechrau gostwng a rhagwelir y bydd hyn, ar y cyd â dechrau torri cyfradd llog, yn arwain at gyllideb is ar gyfer y llog a dderbynnir. Bydd angen i rywfaint o'r benthyciadau mewnol presennol gael eu allanoli i ailgyflenwi balansau arian parod ac, er y bydd hyn yn cynyddu enillion buddsoddiad, bydd y benthyca ychwanegol yn arwain at gostau uwch o ran talu llog, a fydd yn gorbwyso unrhyw adenillion llog ychwanegol a geir. Mae rhagor o fanylion am strategaeth fenthyca a buddsoddi'r Cyngor yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac adroddiadau Diweddaru a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

xiii. **Ardoll y Gwasanaeth Tân**

Yn wahanol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll bob blwyddyn, sy'n cael ei rhannu rhwng 6 awdurdod Gogledd Cymru ar sail poblogaeth, gydag Ynys Môn yn cyfrannu tua 10%. Mae'r ardoll wedyn yn cael ei gyllido o gyllideb refeniw net y Cyngor ac mae swm mewn perthynas â'r gwasanaeth tân wedi'i gynnwys yn Asesiad Gwariant Safonol LlC.


Yn debyg i Gynghorau, mae'r Gwasanaeth Tân wedi wynebu cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau cyffredinol a chyfraniadau pensiwn uwch. Ni chefnogwyd y cynnig i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Tân gan yr Awdurdod Tân, ac mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wrthi'n adolygu opsiynau eraill ar hyn o bryd, a allai greu arbedion.

Roedd y dyfarniad cyflog ar gyfer diffoddwyr tân yn cyd-fynd â rhagdybiaethau'r gyllideb ar gyfer 2024/25, ond bu newid yng nghyflog diffoddwyr tân wrth gefn, gan gynyddu'r cyflog o 10% o gyflog diffoddwr tân llawn amser i 15%. Mae hyn yn gynnydd o 50% o ran costau cyflog ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn. Gan fod gan Ogledd Cymru gyfran uchel o ddiffoddwyr tân wrth gefn, mae'r newid hwn yn cael mwy o effaith ar Ogledd Cymru o'i gymharu ag Awdurdodau Tân eraill.

Mae'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr hefyd yn berthnasol i'r Gwasanaeth Tân. Unwaith eto, rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y DU a bydd cyllid ychwanegol yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth gan LIC (trwy'r 6 awdurdod). Mae tua £400k o'r gost ddisgwyliedig o £700k wedi'i gynnwys yn yr ardoll yn 2024/25 a dylai'r rhan fwyaf o'r gweddill gael ei gyllido. Mae'r Gwasanaeth Tân yn dal i lunio eu cynigion cyllideb ar gyfer 2025/26 ond mae pob cynnydd o 1% yn yr ardoll yn ychwanegu tua £50k at gyllideb gwariant y Cyngor.

**xiv. Chwyddiant Cyffredinol mewn Prisiau**

Mae cyllidebau blynyddol nad ydynt yn gyllidebau cyflogau yn cael eu codi bob blwyddyn er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol neu chwyddiant penodol. Os nad yw contractau'n nodi pa fynegai prisiau penodol y dylid ei defnyddio, neu os nad yw pennawd gwariant penodol yn profi cyfradd chwyddiant sylweddol uwch neu is, yna defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel ffactor chwyddiant. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r CPI wedi parhau'n isel ac nid yw wedi bod yn ffactor sylweddol wrth bennu'r gyllideb. Fodd bynnag, mae CPI wedi codi'n sylweddol yn 2022, gan godi i'r gyfradd uchaf o 11% yn Hydref 2022, ond mae wedi gostwng ers hynny i darged Banc Lloegr, sef 2%, erbyn canol 2024. Mae'r graff isod yn dangos rhagolygon presennol Banc Lloegr:-




Bydd tua £44m o gyllideb y Cyngor yn cael ei effeithio gan gynnydd cyffredinol yn lefel chwyddiant. Yn seiliedig ar y senario mwyaf tebygol, caniatawyd 1.9% fel lefel chwyddiant yn 2025/26, gan godi i 2% am y 2 flynedd ddilynol.

**xv. Awdurdod Iechyd y Porthladd**

Gan ddechrau ym mis Hydref 2024, bydd gofyn i'r Cyngor wirio dogfennau 1% o'r traffig cymwys, a bydd gwasanaeth archwilio llawn yn dechrau ym mis Hydref 2025. Bydd y gwasanaeth yn gallu codi ffi am archwilio a gwirio dogfennau ond, hyd nes y byddwn yn gwybod faint o draffig fydd yna, mae perygl na fydd y ffioedd a godir yn ddigon i dalu'r costau. Mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda LlC i sicrhau cyllid grant am y cyfnod cychwynnol er mwyn sicrhau nad oes cost i'r Awdurdod yn sgil gweithredu'r gwasanaeth.

Mae'r CATC yn tybio nad oes costau i'r Awdurdod, ond amcangyfrifir mai cost gwirio dogfennau 1% am flwyddyn lawn yw £450k yn y flwyddyn gyntaf a £350k wedi hynny, a chost darparu'r gwasanaeth llawn yw £3.3m yn y flwyddyn gyntaf, gan ostwng i £2.9m wedi hynny.

**xvi. Cynllun y Cyngor**

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi 66 o dasgau, amcanion a thargedau unigol sy'n ymdrin â 6 thema strategol. Bydd y rhan fwyaf o'r gost o gyflawni'r amcanion hyn yn cael ei gyllido o'r gyllideb gyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai, cyllid craidd cyfredol, cyllid grant wedi'i sicrhau a chyllid grant ychwanegol eto i'w sicrhau. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r cyllid posibl wedi nodi 6 amcan unigol yn ymwneud â themâu Addysg, yr Iaith Gymraeg a Gofal Cymdeithasol a Lles sy'n gofyn am £550k o gyllid refeniw ychwanegol er mwyn caniatáu i'r amcanion gael eu cyflawni.

**xvii. Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor**

Mae'r Gwasanaethau Tai yn defnyddio elfen o bremiwm y Dreth Gyngor a godir ar gartrefi gwag ac ail gartrefi i ddarparu benthyciadau a grantiau i ymgeiswyr cymwys i'w helpu i brynu a / neu adnewyddu cartref ar Ynys Môn. Y gyllideb yn 2023/24 oedd £1.2m. Mae unrhyw danwariant ar y gyllideb hon yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn glustnodedig. Yn 2024/25, roedd y gronfa wrth gefn glustnodedig yn ddigon i gyllido'r cynllun yn 2024/25 ac, fel rhan o'r broses i gydbwyso'r gyllideb, tynnwyd y dyraniad hwn o gyllideb 2024/25 am flwyddyn. Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer ailsefydlu'r gyllideb hon ynghyd â chynnydd chwyddiant. Byddai hyn yn golygu mai'r gyllideb sydd ar gael yw £1.39m.

Dyrannwyd swm o £300k hefyd yn 2023/24 i dalu costau ychwanegol gweithredu Erthygl 4, sy'n rheoli nifer yr ail gartrefi mewn ardal drwy'r system gynllunio. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu eto a ddylid gweithredu Erthygl 4 ai peidio, ac mae'r £300k a ddyrannwyd yn 2023/24 wedi'i gadw fel cronfa wrth gefn clustnodedig. Yn 2024/25, ni ddyrannwyd unrhyw gyllideb ac mae'r gronfa wrth gefn dal ar gael i gyllido'r gost ychwanegol yn 2025/26.

## 6. INCWM

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm y Cyngor (heb gynnwys AEF, y Dreth Gyngor a chyllid grant penodol) yn dod i gyfanswm o £49m. Mae hyn yn cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus (£24m), ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth (£6.9m), ffioedd a thaliadau a bennir gan y Cyngor (£5.6m), cytundebau rhentu hirdymor mewn perthynas â thir ac eiddo (£1.5m) a gweithgareddau y gellir codi tâl amdanynt o fewn y Cyngor i wasanaethau eraill y Cyngor (£10.7m).

**6.2.** Polisi'r Cyngor yw cynyddu'r ffioedd a thaliadau dewisol 3% bob blwyddyn, er, mewn rhai gwasanaethau, mae cynnydd uwch na chwyddiant mewn ffioedd a thaliadau yn golygu bod ffioedd y Cyngor wedi dod yn llawer nes at y ffioedd a godir gan y sector preifat, e.e. gwasanaethau hamdden. At ddibenion y cynllun hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau dewisol yn parhau i godi 3% y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun.

**6.3.** Yn ychwanegol i incwm o'r ffioedd a thaliadau, derbynnir swm sylweddol o incwm grant. Gall y grantiau a dderbynnir fod ar gyfer cyllido prosiectau neu wasanaethau penodol, tra bod eraill yn fwy cyffredinol eu natur ac yn cefnogi gwasanaethau craidd. O ystyried sefyllfa ansicr cyllid y sector cyhoeddus, mae risg y bydd grantiau'n cael eu targedu a'u lleihau er mwyn lleihau gwariant cyhoeddus, yn hytrach na gostyngiad yn y setliad ariannol cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan LIC. Yn achos grantiau sy'n cyllido prosiectau penodol, yna mae'n bosibl dirwyn y prosiect i ben os daw'r grant i ben, ond mae hyn yn anos pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfuniad o gyllideb graidd a grantiau.

## 7. CYLLIDEB RAGAMCANEDIG AR GYFER 2025/26 – 2027/28

**7.1.** Trwy ystyried yr holl faterion y manylwyd arnynt ym mharagraffau 5 a 6, a gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2, mae'n bosibl amcangyfrif y gyllideb refeniw ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Fe'i dangosir yn Nhabl 8 isod:-

## Tabl 8
## Cyllideb Gwariant Refeniw Net Ragamcanedig 2025/26 i 2027/28

| | 2025/26 £'m | | 2026/27 £'m | | 2027/28 £'m | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | | **184.164** | | **196.005** | | **202.340** |
| **Pwysau Chwyddiant** | | | | | | |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon | 3.321 | | 1.079 | | 2.068 | |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 1.472 | | 0.758 | | 1.160 | |
| Contractau Gwasanaeth Mawr | 0.638 | | 0.656 | | 0.508 | |
| Chwyddiant Ynni | (0.987) | | 0.000 | | 0.070 | |
| Chwyddiant arall nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau | 0.836 | | 0.842 | | 0.909 | |
| Incwm | (0.874) | | (0.996) | | (0.954) | |
| Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 1.880 | | 1.541 | | 0.934 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 0.366 | | 0.359 | | 0.196 | |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân | 0.197 | | 0.103 | | 0.105 | |
| **Cyfanswm Pwysau Chwyddiant** | | **6.849** | | **4.342** | | 4.996 |
| **Pwysau sy'n cael ei Arwain gan Alw** | | | | | | |
| Galw Gwasanaethau Plant | 2.158 | | 0.166 | | 0.000 | |
| Galw Gwasanaethau Oedolion | 0.961 | | 0.835 | | 0.000 | |
| Lleoliadau Addysg y Allsirol | 0.000 | | 0.019 | | 0.000 | |
| Cludiant Ysgolion | 0.036 | | 0.037 | | 0.000 | |
| Digartrefedd | 0.015 | | 0.015 | | 0.000 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Newid yn y Llwyth Achosion a Amcangyfrifwyd | (0.510) | | 0.135 | | 0.000 | |
| Gweithredu Cynllun y Cyngor | 0.550 | | 0.000 | | 0.000 | |
| | | **3.210** | | **1.207** | | 0.000 |
| **Costau Eraill** | | | | | | |
| Cyllido Cyfalaf | 0.335 | | 0.201 | | 0.300 | |
| Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Prosiectau Tai ac Erthygl 4 | 1.447 | | 0.585 | | 0.051 | |
| **Cyfanswm Costau Eraill** | | **1.782** | | 0.786 | | 0.351 |
| **Cyllideb Refeniw Net a Amcangyfrifwyd** | | **196.005** | | **202.340** | | **207.687** |
| | | | | | | |
| **Cynnydd Blynyddol** | | **11.841** | | **6.335** | | **5.347** |
| **Canran y Cynnydd Blynyddol** | | **+ 6.43%** | | **+ 3.23%** | | **+ 2.64%** |

**7.2.** Mae'r amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net yn cynrychioli cynnydd o 12.80% dros y cyfnod o 3 blynedd.

**7.3.** Mae rhagor o fanylion am y Gyllideb Refeniw Net a amcangyfrifir a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 2 a 3.

**7.4.** Mae'r ffigyrau a ddangosir uchod yn seiliedig ar y senario mwyaf tebygol ar gyfer yr holl ragdybiaethau. Mae senarios gorau a gwaethaf posibl hefyd wedi'u modelu. Mae'r modelau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau mwyaf optimistaidd a phesimistaidd ar gyfer pob un o'r penawdau gwariant. Dangosir canlyniadau'r ymarfer modelu yn Nhabl 9 isod:-

**Tabl 9**
**Modelau o'r Senarios Gorau a Gwaethaf 2025/26 i 2027/28**

| | **Achos Gorau** | **Cynnydd** | | **Achos Gwaethaf** | **Cynnydd** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **£'m** | **%** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **2024/25 Cyllideb Sylfaenol** | **184.164** | | | **184.164** | | |
| | | | | | | |
| Cyllideb Amcangyfrifiedig 2025/26 | 184.883 | + 0.719 | +0.40% | 206.247 | + 22.083 | +12.0% |
| | | | | | | |
| Cyllideb Amcangyfrifiedig 2026/27 | 184.943 | + 0.061 | 0.03% | 220.290 | + 14.033 | + 6.8% |
| | | | | | | |
| Cyllideb Amcangyfrifiedig 2027/28 | 185.086 | + 0.143 | 0.08% | 232.894 | + 12.604 | + 5.7% |

**7.5.** Mae'r 3 senario, gorau, gwaethaf a mwyaf tebygol, yn rhoi ystod eang o amcangyfrifon ar gyfer y gyllideb refeniw net ofynnol ar gyfer y tair blynedd sydd i ddod, ac mae'n dangos y lefel sylweddol o ansicrwydd sy'n bodoli o ran chwyddiant, yn enwedig cyflogau, a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud cynllunio ariannol yn anodd iawn.

## 8. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1.** Cyllidir y gyllideb ddisymyd a amcangyfrifir o'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a dderbynnir gan LlC (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyfun Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2.** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, nid yw LlC wedi rhoi unrhyw arwydd o'r newid posibl yn yr AEF yn 2025/26 ac a fydd yr AEF a dderbyniwyd yn 2024/25 yn cael ei gynyddu i gyllido'r cyfraniadau pensiwn ychwanegol i athrawon a diffoddwyr tân ac unrhyw gynnydd yng nghyflog athrawon, uwchlaw'r swm a ganiatawyd yn setliad llywodraeth leol 2024/25.

**8.3.** Yn 2024/25, derbyniodd Ynys Môn £127.586m mewn AEF gan LlC, gyda'r £52.153m oedd yn weddill yn dod o'r Dreth Gyngor, a chronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor ei hun, £4.425m.

**8.4.** Mae Tabl 10, isod, yn dangos yr incwm ychwanegol y byddai newidiadau amrywiol mewn AEF a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn eu cael ar gyllid y Cyngor (gan gymryd nad oes newid yn sylfaen y Dreth Gyngor) ac y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn sgil cynnydd ym mhremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cyllidebau ar brosiectau i helpu i gyflenwi tai fforddiadwy ar yr Ynys, h.y. heb unrhyw effaith ar y gyllideb:-

**Tabl 10**
**Effaith ar Newidiadau yn yr AEF a'r Dreth Gyngor ar Gyllid y Cyngor (net Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) 2025/26**

| | | Newid yn yr AEF – swm ariannol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | +0% | +1% | +2% | +3% | +4% | +5% | +6% | +7% |
| | | £'m | | | | | | | |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor (net o gynnydd yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) | 3% | 1.346 | 2.621 | 3.898 | 5.174 | 6.450 | 7.725 | 9.001 | 10.277 |
| | 4% | 1.795 | 3.071 | 4.347 | 5.622 | 6.898 | 8.174 | 9.450 | 10.726 |
| | 5% | 2.244 | 3.519 | 4.795 | 6.071 | 7.347 | 8.623 | 9.899 | 11.175 |
| | 6% | 2.692 | 3.968 | 5.244 | 6.520 | 7.796 | 9.072 | 10.347 | 11.623 |
| | 7% | 3.140 | 4.417 | 5.693 | 6.968 | 8.244 | 9.520 | 10.796 | 12.072 |
| | 8% | 3.589 | 4.865 | 6.141 | 7.417 | 8.693 | 9.969 | 11.245 | 12.521 |
| | 9% | 4.038 | 5.314 | 6.590 | 7.866 | 9.142 | 10.418 | 11.693 | 12.969 |
| | 10% | 4.487 | 5.763 | 7.039 | 8.315 | 9.590 | 10.866 | 12.142 | 13.418 |
| | 11% | 4.936 | 6.212 | 7.487 | 8.763 | 10.039 | 11.315 | 12.591 | 13.867 |
| | 12% | 5.384 | 6.660 | 7.936 | 9.212 | 10.488 | 11.764 | 13.040 | 14.315 |
| | 13% | 5.833 | 7.108 | 8.385 | 9.661 | 10.937 | 12.212 | 13.488 | 14.764 |
| | 14% | 6.282 | 7.558 | 8.834 | 10.109 | 11.385 | 12.661 | 13.937 | 15.213 |
| | 15% | 6.730 | 8.006 | 9.282 | 10.558 | 11.834 | 13.110 | 14.386 | 15.662 |
| | 16% | 7.179 | 8.455 | 9.731 | 11.007 | 12.283 | 13.559 | 14.834 | 16.110 |
| | 17% | 7.627 | 8.904 | 10.180 | 11.446 | 12.731 | 14.007 | 15.283 | 16.559 |
| | 18% | 8.076 | 9.353 | 10.628 | 11.904 | 13.180 | 14.456 | 15.732 | 17.008 |
| | 19% | 8.525 | 9.801 | 11.077 | 12.353 | 13.629 | 14.905 | 16.181 | 17.456 |
| | 20% | 8.974 | 10.250 | 11.526 | 12.802 | 14.077 | 15.353 | 16.629 | 17.905 |

**8.5** Er mwyn cyllido'r gofyniad cyllidebol ychwanegol a amcangyfrifir o £11.841m, ynghyd â disodli'r £4.425m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb yn 2024/25 gyda chyllid parhaol, byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r AEF godi 7% ac i'r Dreth Gyngor gynyddu dros 17% i greu digon o gyllid. Os na fydd cynnydd mewn AEF, byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Dreth Gyngor godi tua 36% er mwyn creu digon o gyllid parhaol i fodloni gofyniad cyllideb net o £196.005m.

**8.6** Mae'r sefyllfa ar gyfer 2026/27 a 2027/28 yn gwella wrth i'r cynnydd yn y gofyniad cyllideb net ostwng i 3.2% yn 2026/27 a 2.6% yn 2027/28. Byddai cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn y ddwy flynedd yn creu tua £2.2m o gyllid ychwanegol a, gyda chynnydd o 2% mewn AEF (yn unol â lefel chwyddiant cyffredinol), byddai bron yn bosibl gosod cyllideb gytbwys.

**8.7** Tâl Band D Ynys Môn ar gyfer 2024/25 yw'r 16eg uchaf allan o'r 22 awdurdod yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw cymharu'r tâl Band D yn rhoi cymhariaeth wirioneddol gan nad yw'n ystyried faint o eiddo sydd ym mhob band. Mae awdurdodau sydd â nifer uchel o eiddo ym Mand A a B yn tueddu i fod â thâl Band D uwch er mwyn creu digon o incwm.

**8.8** Drwy gymharu gwerth sylfaen y dreth fel canran o'r anheddau trethadwy, mae ffigwr Ynys Môn yn debyg i Sir y Fflint, Gwynedd a Cheredigion, tua 96% i 100%, ond mae tâl Band D Ynys Môn £86 yn is na Sir y Fflint, £184 yn is na Gwynedd a £154 yn is na Cheredigion. Mae hyn yn awgrymu bod tâl Band D Ynys Môn yn rhy isel ac mae rhywfaint o hyblygrwydd i gynyddu'r tâl. Mae pob cynnydd o 1% yn y tâl Band D yn cynyddu'r tâl o £16. Byddai cynyddu'r tâl Band D i'r un lefel â Sir y Fflint yn creu £2.85m yn ychwanegol mewn refeniw'r Dreth Gyngor, £6.10m pe bai'r tâl ar lefel Gwynedd a £5.11m pe bai'r tâl yn unol â Cheredigion.

## 9. PREMIWM Y DRETH GYNGOR

**9.1.** Yn 2022, ymgynghorodd y Pwyllgor Gwaith ar gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi, a'r penderfyniad terfynol oedd cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 75% yn 2023/24 a 100% yn 2024/25. Ni chynigiwyd unrhyw newid ar y premiwm ar gartrefi gwag, a arhosodd yn 100%.

**9.2.** Mae LlC bellach wedi rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru godi premiymau o hyd at 300% ond, hyd yma, nid oes yr un Cyngor yng Nghymru wedi codi'r premiwm i'r lefel hon.

**9.3.** Pwrpas y premiwm yw darparu modd i awdurdod lleol i helpu i:-

- Ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd i ddarparu cartrefi diogel a fforddiadwy;
- Cefnogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.

**9.4.** Mae'r lefel bresennol o bremiwm yn creu tua £3.6m, mae £1.2m o'r swm hwnnw wedi'i neilltuo ar gyfer darparu benthyciadau a grantiau i brynwyr tro cyntaf, mae £300k wedi'i neilltuo ar gyfer gweithredu Erthygl 4, defnyddir £150k i gyllido cost ychwanegol staff y Dreth Gyngor i gasglu'r premiwm a staff y Gwasanaethau Tai i weinyddu'r cynlluniau grantiau a benthyciadau. Buddsoddwyd £55k yn y Tîm Datblygu Economaidd i helpu i wella'r economi leol. Mae'r £1.9m sy'n weddill yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi cymunedau ac i ddarparu gwasanaethau twristiaeth. Mae'r mathau o wasanaethau a gyllidir yn cynnwys:-

- darparu cymhorthdal i gyllido ysgolion bach lle mae niferoedd disgyblion yn lleihau oherwydd niferoedd uchel o ail gartrefi;
- darparu gwasanaethau o amgylch ardaloedd arfordirol, gan gynnwys wardeiniaid traeth, gwasanaeth glanhau a chasglu gwastraff ychwanegol;
- galluogi'r Cyngor i ddelio â thensiwn cymunedol sy'n deillio o niferoedd uchel o dwristiaid mewn ardaloedd.

**9.5.** Gan fod y Cyngor wedi ymgynghori ar gyflwyno'r premiwm yn ôl yn 2015, cyn cyflwyno'r premiwm yn 2017, nid yw'n ofynnol ymgynghori er mwyn newid lefel y premiwm. Fodd bynnag, os codir lefel y premiwm yn uwch na 100%, mae canllawiau LlC yn cynghori'n gryf i awdurdodau lleol ymgynghori â phob parti â buddiant o leiaf 6 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn bethnasol iddi. Felly, byddai'n ofynnol i'r ymgynghoriad ddechrau cyn 1 Hydref 2024, os mai'r bwriad yw cynyddu'r naill bremiwm neu'r llall o 1 Ebrill 2025.

**9.6.** Byddai pob cynnydd o 10% yn y premiwm yn creu amcangyfrif o £325k (premiwm ail gartrefi) ac amcangyfrif o £50k (premiwm cartrefi gwag).

**9.7.** Mae nifer yr eiddo sy'n destun y premiwm ail gartrefi wedi gostwng ers i'r premiwm gael ei godi o 35% i 50% ac yna i 100%, er bod y darlun wedi'i ystumio rywfaint gan y ffaith bod LlC wedi newid y rheoliadau mewn perthynas â llety hunanarlwyo ac mae nifer o gartrefi, a oedd gynt yn destun Ardrethi Annomestig yn ôl ar gofrestr y Dreth Gyngor. Mae nifer yr eiddo sy'n destun y premiwm cartrefi gwag wedi aros yn weddol gyson dros y 3 blynedd diwethaf.

## 10. BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN

**10.1.** Mae balansau cyffredinol y Cyngor yn cynnwys digon o gyllid i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn, na ellir ei gyllido o'r gyllidebau refeniw neu gyfalaf presennol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig, i dalu am gost risgiau posibl, cost prosiectau sydd wedi'u cynllunio yn y dyfodol a chynnal cyllid grant nas defnyddiwyd neu unrhyw gyllid cyfyngedig arall sydd gan y Cyngor.

**10.2.** Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £15.607m o falansau cyffredinol a £16.778m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Y strategaeth y cytunwyd arni gan y Cyngor ar gyfer balansau cyffredinol yw cadw isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn. Felly, yn 2024/25, dylai'r isafswm yn y balans cyffredinol fod yn £9.2m. Wrth bennu cyllideb 2024/25, defnyddiwyd £4.425m o'r balansau cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb, sy'n lleihau lefel y balansau cyffredinol i £11.182m, sydd £1.98m yn uwch na'r balans gofynnol isaf. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai unrhyw orwariant ar gyllideb refeniw 2024/25 yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol. Yn ôl y rhagolygon ar ddiwedd chwarter 1 2024/25, amcangyfrifir y bydd y gyllideb refeniw yn gorwario £0.09m ac mae £0.1m o'r balansau cyffredinol eisoes wedi'i ddyrannu i gyllido gwariant nad oedd wedi'i ragweld. Mae hyn yn golygu y rhagwelir y ceir balans o £10.99m, sydd £1.79m yn uwch na'r trothwy isaf. Dylid nodi hefyd y byddai unrhyw gyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn 2024/25 gan LIC mewn perthynas â'r cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn athrawon yn arwain at gyllid annisgwyl ac y byddai'n cynyddu lefel y balansau cyffredinol. Felly, mae potensial i ddefnyddio balansau cyffredinol unwaith eto fel ffynhonnell cyllido, ond i raddau llai nag yn y ddwy flynedd flaenorol.

**10.3.** Cynhaliwyd adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn a clustnodedig yn 2023/24 a throsglwyddwyd £2.0m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor. Wedi'u cynnwys yn y cronfeydd wrth gefn clustnodedig mae £5.5m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer risgiau penodol, fel chwyddiant, colledion heb eu hyswirio a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau penodol. Gallai'r cronfeydd wrth gefn hyn gael eu rhyddhau yn ôl i'r balansau cyffredinol, ond byddai hyn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor oherwydd, pe bai'r risgiau yn dod yn realiti, byddai'r gost ariannol yn gorfod cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol.

## 11. DADANSODDIAD SENSITIFRWYDD

**11.1.** Mae'r amcangyfrif o'r sefyllfa ariannol a ddangosir yn Nhabl 8, uchod, yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n ymwneud â nifer o ffactorau. Mae Tabl 11, isod, yn dangos y newid yn y gyllideb gwariant net a fyddai'r canlyniad pe bai pob rhagdybiaeth yn amrywio 1%:-

**Tabl 11**
**Effaith ariannol Newid o 1% yn Rhagdybiaethau'r Gyllideb Ariannol**

| Rhagdybiaeth | Effaith Newid o 1% £'000 |
|---|---|
| Dyfarniad Cyflog NJC | 618 |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 369 |
| Chwyddiant Cyffredinol | 228 |
| Chwyddiant Contract Prif Wasanaeth | 250 |
| Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 392 |
| Incwm | 124 |
| Cyfradd Lllog a Dderbynnir | 150 |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 1,275 |
| Y Dreth Gyngor (net Cynllun Gostyngiadau'r Gyngor) | 402 |
| Galw o ran Lleoliadau Plant | 62 |
| Galw o ran Lleoliadau Gwasanaeth Oedolion | 260 |
| Digartrefedd | 7 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 73 |

## 12. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**12.1.** Os yw'r modelu ariannol yn gywir, yna bydd angen £11.845m ychwanegol ar gyfer y pwysau chwyddiant i ddarparu'r gwasanaeth presennol ac ar gyfer gofynion y pwysau ar y gyllideb yn 2025/26, er y dylid nodi bod y ffigwr hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau, a bydd angen gwneud addasiadau wrth i'r broses gyllideb fynd yn ei blaen.

**12.2.** Pe bai AEF yn codi 1% a bod y Dreth Gyngor yn codi 5%, dim ond £3.88m ychwanegol y bydd y cyllid ychwanegol yn ei greu (heb addasu ar gyfer y cynnydd mewn cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor), gan adael bwlch o £7.958m. Fodd bynnag, rhaid ystyried y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn 2024/25 hefyd ac, os na ddefnyddir cronfeydd wrth gefn yn 2025/26, yna mae'r diffyg cyllid yn cynyddu £4.425m i £12.383m.

**12.3.** Fel y dangosir ym mharagraff 9, mae gan y Cyngor rywfaint o gapasiti i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i helpu i leihau'r bwlch cyllido, ond wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mae risgiau gan nad ydynt yn ffynhonnell incwm gylchol ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn dileu'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Yn ogystal â hyn, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn lleihau cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor ac yn gwanhau ei sefyllfa ariannol. Rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw lefel y cronfeydd sy'n cael eu defnyddio yn gadael y Cyngor mewn sefyllfa lle nad oes ganddo ddigon o gyllid i dalu am unrhyw wariant annisgwyl neu i fynd i'r afael â risgiau posibl os ydynt yn arwain at sefyllfa sy'n gofyn am weithredu a chyllid.

**12.4.** Ar hyn o bryd, mae gan ysgolion £5.577m o gronfeydd wrth gefn, er bod £2.167m wedi'i ddefnyddio yn 2024/25 i gydbwyso'r gyllideb refeniw, mae hyn yn gadael balans o £3.410m, sy'n cyfateb i 6.4% o gyllideb ddatganoledig ysgolion 2024/25. Mae yna rywfaint o gapasiti, felly, i ysgolion gyfrannu tuag at y targed arbedion. Mae'r model ariannol yn cynyddu cyllideb ddatganoledig ysgolion i £54.46m, a byddai lleihau'r gyllideb hon 2% yn creu arbedion o £1.089m. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anos i ysgolion unigol gydbwyso eu cyllideb yn 2025/26, yn enwedig ysgolion llai lle mae'r hyblygrwydd o ran maint dosbarthiadau yn llai.

**12.5.** Nododd adolygiad diweddar o gyllideb Gwasanaethau Oedolion na fydd angen yr holl fuddsoddiad ychwanegol a wnaed yn 2024/25 oherwydd bod y galw am wasanaethau wedi sefydlogi, a nododd ymarfer cyllidebu'n seiliedig ar sero y gellid tynnu £500k allan o'r gyllideb. Mae'r model ariannol hefyd yn caniatáu cynnydd yn y gyllideb o £961k i gyllido pwysau demograffig. Er bod risg sylweddol y gallai'r galw am wasanaethau gynyddu, byddai peidio â darparu ar gyfer pwysau demograffig o fewn Gwasanaethau Oedolion yn lleihau'r gofyniad cyllidebol o £961k.

**12.6.** Mae'r model ariannol yn caniatáu chwyddiant o 1.9% ar gyllidebau cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn yn rhai a arweinir yn llwyr gan alw a gallai gwasanaethau leihau gwariant i gyd-fynd â'r gyllideb. Os caiff ysgolion eu heithrio, ac na chaniateir chwyddiant ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol, byddai hyn yn lleihau'r gyllideb o £158k.

**12.7.** Mae'r model ariannol yn caniatáu cyllideb o £1.447m i gyllido cost benthyciadau a grantiau i brynwyr tro cyntaf. Mae'r galw am y cymorth hwn yn amrywio a gall y Cyngor reoli nifer y ceisiadau a gymeradwywyd mewn unrhyw flwyddyn, mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor leihau'r gyllideb hon. Byddai ei gostwng yn ôl i £1m yn lleihau'r gofyniad cyllidebol o £447k.

**12.8.** Yn seiliedig ar yr addasiadau a nodir ym mharagraffau 12.3 i 12.7, byddai'r bwlch cyllido ar gyfer 2025/26 yn gostwng o £12.383m i £7.227m. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys bob blwyddyn, lle mae'r gyllideb yn amcangyfrif rhesymol a theg o'r costau a wynebir i ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gyllideb yn berthnasol iddi ac y gellir cyllido'r gost amcangyfrifedig o gyllid LlC, y Dreth Gyngor a chronfeydd wrth gefn a balansau. Os yw lefel y cyllid yn annigonol, mae hynny'n golygu mai'r unig opsiwn fyddai lleihau'r gyllideb gwariant net i'r lefel o gyllid sydd ar gael.

**12.9.** Unwaith eto, gan dybio bod y bwlch cyllid yn £7.227m, mae hynny'n cyfateb i arbedion refeniw o 3.9% o gyllideb gwariant net 2024/25. Fodd bynnag, mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac y mae'n rhaid eu cyllido, mae'r rhain yn cynnwys:-

- Ardoll yr Awdurdod Tân – £4.93m yn 2024/25;
- Costau Cyllido Cyfalaf – £6.42m yn 2024/25;
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – £7.28m yn 2024/25;
- Costau Pensiwn Hanesyddol – £1.01m yn 2024/25;
- Lwfansau Aelodau – £1.13m yn 2024/25;
- Ffioedd Archwilio ac Arolygu - £0.42m yn 2024/25;
- Costau'r Crwneriaid - £0.31m yn 2024/25;
- Gwasanaethau ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol Eraill - £2.67m yn 2024/25.

**12.10.** Yn ogystal â hyn, os yw cyllideb ysgolion wedi'i chapio ar 2%, nid yw'n bosibl cynnwys cyllideb ysgolion mewn unrhyw dargedau arbedion pellach. Felly, mae'n rhaid i unrhyw arbedion ddod o'r cyllidebau sy'n weddill (£106.9m yn 2024/25) ac mae hyn yn cyfateb i arbedion o 6.7% o'r cyllidebau lle mae'n bosibl gweithredu arbedion.

**12.11.** Mae dadansoddiad, sydd ynghlwm fel Atodiad 4, yn dangos y gyllideb sy'n cael ei gwario ym mhob gwasanaeth ar wasanaethau statudol, gwasanaethau anstatudol ac ati. Mae'n dangos bod 85.9% o gyllideb gwariant net y Cyngor yn cael ei wario ar wasanaethau statudol. Mae hyn yn cadarnhau y bydd hi'n anodd iawn cyflawni arbedion cyllidebol os ydym am gynnal gwasanaethau statudol.

**12.12.** Mae gwaith wedi dechrau i nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd y gellir eu cynnwys ond o ystyried y toriadau blaenorol oherwydd llymder a'r galw cynyddol am wasanaethau, nid yw Gwasanaethau wedi nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol y gellir eu creu. Dim ond trwy leihau gwasanaethau neu roi'r gorau i gynnal gwasanaethau y gellir creu unrhyw gynilion.

**12.13.** Wrth edrych ymlaen at 2026/27 a 2027/28, mae'r sefyllfa'n dangos rhywfaint o welliant fel y dangosir yn Nhabl 12, isod:-

**Tabl 12**
**Amcangyfrif o Ddiffyg Cyllid 2026/27 a 2027/28**

| | 2026/27 £'m | | 2027/28 £'m | |
|---|---|---|---|---|
| **Diffyg yn y Gyllideb a Ddygwyd Ymlaen** | | **12.283** | | **12.980** |
| Amcangyfrif o'r Cynnydd mewn Chwyddiant | 5.129 | | 5.347 | |
| Pwysau o ran Galw | 0.883 | | 0.000 | |
| **Amcangyfrif o'r Cynnydd yn y Gyllideb** | | **6.012** | | **5.347** |
| Cynnydd mewn AEF @ 2% | (2.577) | | (2.629) | |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor @ 5% | (2.738) | | (2.875) | |
| **Amcangyfrif o'r Cynnydd o ran Cyllid** | | **(5.315)** | | **(5.504)** |
| **Diffyg yn y Gyllideb a Ddygwyd Ymlaen** | | **12.980** | | **12.823** |
| **Diffyg Ychwanegol yn y Gyllideb yn y Flwyddyn** | | **0.697** | | **(0.157)** |

**12.14.** Yn seiliedig ar y rhagolygon hyn, dangosir y dangosydd gwydnwch ariannol sy'n pennu'r bwlch cyllido fel canran o'r gwariant refeniw net isod, yn Nhabl 13:-

**Table 13**
**Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido fel Canran o'r Gwariant Refeniw Net**

| Blwyddyn | Cyllideb Ddisymyd £'m | AEF £'m | Y Dreth Gyngor y flwyddyn flaenorol (nodyn 1) £'m | Cyfanswm y Cyllid cyn Cynnydd y Dreth Gyngor £'m | Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido £'m | % Bwlch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 132.337 | 94.924 | 33.644 | 128.568 | 3.769 | 2.85% |
| 2019/20 | 134.702 | 95.159 | 35.087 | 130.246 | 7.156 | 5.21% |
| 2020/21 | 142.203 | 101.005 | 39.370 | 140.375 | 1.828 | 1.29% |
| 2021/22 | 147.076 | 104.825 | 41.161 | 145.986 | 1.090 | 0.74% |
| 2022/23 | 155.501 | 114.549 | 42.957 | 157.506 | (2.005) | (1.29%) |
| 2023/24 | 173.830 | 123.665 | 44.879 | 168.544 | 5.286 | 3.04% |
| 2024/25 | 188.992 | 127.586 | 47.628 | 175.214 | 13.778 | 7.29% |
| 2025/26 rhagolwg - nodyn 1 | 196.005 | 128.862 | 52.153 | 181.015 | 14.990 | 7.65% |
| Rhagolwg 2026/27- nodyn 2 | 189.633 | 131.439 | 54.759 | 186.198 | 3.435 | 1.81% |
| Rhagolwg 2027/28 | 194.281 | 134.016 | 57.497 | 191.513 | 2.768 | 1.42% |
| Nodyn 1 - Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol wedi'u haddasu i ystyried newidiadau i sylfaen y dreth | | | | | | |
| Nodyn 2 – Mae'r gyllideb ddisymyd ar gyfer 2026/27 yn cymryd bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 yn cael ei diwygio i lawr i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael | | | | | | |

**12.15.** Gellir gweld mai'r sefyllfa ar gyfer 2025/26 yw'r sefyllfa waethaf y mae'r Cyngor wedi bod ar y cam hwn o'r broses o bennu'r gyllideb ers nifer o flynyddoedd, ac mae'n dilyn o 2024/25 a oedd hefyd yn flwyddyn heriol iawn yn ariannol o ran pennu'r gyllideb. Mae'r sefyllfa'n dechrau gwella yn 2026/27, ond mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth fod chwyddiant a dyfarniadau cyflog yn parhau'n isel, bod y galw am wasanaethau yn sefydlogi, bod arbedion cyllideb yn cael eu nodi a'u cyflawni a'r setliad llywodraeth leol o leiaf yn cadw i fyny â chwyddiant.

## 13. CASGLIADAU

**13.1.** Mae'r CATC yn nodi amcangyfrif o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y 3 blynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, y mae rhai ohonynt yn fwy sicr na'i gilydd. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth cyllido yn y dyfodol, ond mae nifer o faterion sy'n cynyddu'r ansicrwydd ynghylch y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys, amcangyfrif costau'r dyfodol ar adeg pan nad yw dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi'u cwblhau eto, amcangyfrif y galw am wasanaethau, effaith yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor a chyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol, ar ôl etholiad cyffredinol y DU. Mae lefel y cymorth gan LlC yn elfen allweddol o'r CATC, ac mae'r diffyg rhagolygon cywir yn y dyfodol o ran lefel y cyllid yn lleihau lefel y sicrwydd y gall y cynllun ei roi.

**13.2.** Bydd y galw am wasanaethau a'r pwysau i gynyddu cyflogau rhai rhannau o weithlu'r Cyngor (ar gyfer gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau dan gontract) yn cynyddu costau'n sylweddol, yn enwedig yn 2025/26. Os nad yw'r pwysau ychwanegol hwn yn cael ei adlewyrchu yn y setliad cyllido gan LlC, yna bydd yn rhaid i'r Cyngor weithredu toriadau pellach i wasanaethau a / neu gynnydd sy’n uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys, sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac sy'n adlewyrchu'n gywir gostau darparu'r gwasanaethau hynny.

**13.3.** Mae gan y Cyngor rai cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn 2025/26 i helpu i leihau'r bwlch cyllido posibl, ond mae'r cyllid y gellir ei ryddhau yn gyfyngedig ac ni fydd yn pontio'r bwlch i gyd. Os defnyddir cronfeydd wrth gefn, bydd hynny’n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor ac ond yn gohirio'r angen i wneud arbedion cyllidebol neu gynyddu’r Dreth Gyngor.

**13.4.** Mae'r CATC hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol, a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2025/26 a thu hwnt.

**13.5.** Rhaid ystyried cynyddu lefel y Dreth Gyngor yn uwch na'r lefel chwyddiant cyffredinol fel rhan o'r datrysiad ariannol cyffredinol i gyllido’r diffyg ariannol.

**ATODIAD 2**

**RHAGDYBIAETHAU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG**

| **SENARIO FWYAF TEBYGOL** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2025/26** | **2026/27** | **2027/28** |
| **Chwyddiant Cyflog a Phrisiau** | | | |
| Costau Cyflog, Yswiriant Gwladol a Phensiynau – Staff nad ydynt yn athrawon | 4.0% | 2.0% | 3.0% |
| Costau Cyflog, Yswiriant Gwladol a Phensiynau - Athrawon | 4.0% | 2.0% | 3.0% |
| Cyfradd Cyfraniad LGPS | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfradd Cyfraniadau Pensiwn Athrawon | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Trydan | -21.3% | 0.0% | 2.0% |
| Nwy | -22.8% | 0.0% | 2.0% |
| CPI (gan gynnwys unrhyw gywiriad o'r flwyddyn flaenorol) | 1.9% | 1.9% | 2.0% |
| Prif Gontractau Gwasanaeth | 3.0% | 3.0% | 2.0% |
| Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 5.0% | 3.0% | 2.0% |
| Ffioedd a Thaliadau | 3.0% | 3.0% | 2.0% |
| Y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% | 2.5% |
| Cyllid Allanol Cyfun | 1.0% | 2.0% | 2.0% |
| Grantiau'r Llywodraeth | 1.0% | 2.0% | 2.0% |
| Ardollau | 4.0% | 2.0% | 2.0% |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 4.1% | 0.8% | 2.0% |
| | | | |
| **Pwysau o ran Galw** | | | |
| Lleoliadau i Blant | 35.0% | 2.0% | 0.0% |
| Lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 5.0% | 2.0% | 0.0% |
| Cludiant Ysgol | 2.0% | 2.0% | 0.0% |
| Digartrefedd | 2.0% | 2.0% | 0.0% |
| Llwyth Achos Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | - 7.0% | 2.0% | 0.0% |
| | | | |

**ATODIAD 3a**

## CRYNODEB - AMCANGYFRIF O GYLLIDEB REFENIW NET 2024/25 – 2027/28

| | 2024/25 £'m | 2025/26 £'m | 2026/27 £'m | 2027/28 £'m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog – Staff nad ydynt yn athrawon gan gynnwys Pensiwn ac Yswiriant Gwladol | 63.994 | 67.315 | 68.944 | 71.013 |
| Cyflog – Athrawon gan gynnwys Pensiwn ac Yswiriant Gwladol | 36.451 | 37.923 | 38.681 | 39.842 |
| Costau Gweithwyr Eraill | 2.721 | 2.810 | 2.863 | 2.920 |
| Costau Eiddo | 7.528 | 7.672 | 7.822 | 7.978 |
| Ynni | 4.488 | 3.501 | 3.501 | 3.571 |
| Cludiant | 1.227 | 1.251 | 1.276 | 1.301 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 24.431 | 24.821 | 25.294 | 25.801 |
| Cludiant Ysgol | 4.493 | 4.665 | 4.840 | 4.937 |
| Prydau Ysgol | 3.267 | 3.332 | 3.398 | 3.466 |
| Lleoliadau Addysg Allsirol | 0.938 | 0.966 | 1.014 | 1.034 |
| Trefniadau Addysg ar y Cyd | 2.567 | 2.670 | 2.724 | 2.778 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 30.947 | 33.376 | 35.212 | 35.916 |
| Lleoliadau Gofal Plant | 8.237 | 10.806 | 11.513 | 11.743 |
| Casglu a Gwaredu Sbwriel | 8.874 | 9.140 | 9.414 | 9.602 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd a Goleuadau Stryd | 5.106 | 5.208 | 5.312 | 5.418 |
| Cludiant Bws Gwasanaethau Cyhoeddus | 2.310 | 2.379 | 2.451 | 2.500 |
| Cymorth i brynwyr tro cyntaf / Erthygl 4 | 0.002 | 1.449 | 2.034 | 2.085 |
| Digartrefedd | 1.120 | 1.157 | 1.193 | 1.217 |
| Lwfansau a Threuliau Aelodau | 1.125 | 1.148 | 1.171 | 1.194 |
| Crwneriaid | 0.306 | 0.312 | 0.318 | 0.325 |
| Ffioedd Archwilio ac Arolygu | 0.417 | 0.425 | 0.434 | 0.443 |
| Gwasanaeth Tân ac Ardollau Eraill | 4.931 | 5.129 | 5.231 | 5.336 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Eraill | 7.497 | 7.353 | 7.848 | 8.044 |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf a Llog a Dderbynnir | 5.753 | 6.087 | 6.288 | 6.588 |
| Cronfeydd wrth gefn ar gyfer Argyfyngau | 1.306 | 1.856 | 1.307 | 1.333 |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **230.036** | **242.751** | **250.083** | **256.385** |
| | | | | |
| Grantiau | (23.981) | (24.221) | (24.705) | (25.200) |
| Ffioedd a Thaliadau | (12.554) | (12.868) | (13.189) | (13.452) |
| Ad - daliadau | (7.795) | (8.085) | (8.244) | (8.409) |
| Rhenti | (1.542) | (1.572) | (1.604) | (1.636) |
| **CYFANSWM INCWM GROS** | **(45.872)** | **(46.746)** | **(47.742)** | **(48.697)** |
| | | | | |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **184.164** | **196.005** | **202.341** | **207.688** |
| | | | | |
| **Cynnydd o ran y Gyllideb Refeniw Net** | | **11.841** | **6.336** | **5.347** |
| | | | | |
| **% Cynnydd o ran y Gyllideb Refeniw Net** | | **6.43%** | **3.23%** | **2.64%** |

**ATODIAD 3b**

## CRYNODEB - AMCANGYFRIF O GYLLIDEB REFENIW NET YN ÔL GWASANAETH 2024/25 – 2027/28

| | 2024/25 £'m | | 2025/26 £'m | | 2026/27 £'m | | 2027/28 £'m | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Economaidd | 1.098 | | 1.145 | | 1.167 | | 1.204 | |
| Cyrchfan | 0.871 | | 0.899 | | 0.916 | | 0.942 | |
| Hamdden | 1.243 | | 1.114 | | 1.106 | | 1.150 | |
| Cynllunio | 1.128 | | 1.184 | | 1.207 | | 1.251 | |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1.789 | | 1.860 | | 1.896 | | 1.955 | |
| **Rheoleiddio** | | **6.129** | | **6.202** | | **6.292** | | **6.502** |
| Priffyrdd | 8.267 | | 8.515 | | 8.690 | | 8.901 | |
| Eiddo | 1.991 | | 1.955 | | 1.986 | | 2.064 | |
| Gwastraff | 10.111 | | 10.375 | | 10.658 | | 10.886 | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | **20.369** | | **20.845** | | **21.334** | | **21.851** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | **39.197** | | **42.005** | | **44.001** | | **45.039** |
| **Gwasanaethau Plant** | | **14.436** | | **17.306** | | **18.141** | | **18.590** |
| Ysgolion | 53.066 | | 54.461 | | 55.509 | | 57.081 | |
| Addysg Ganolog | 13.285 | | 13.795 | | 14.133 | | 14.461 | |
| Diwylliant | 1.576 | | 1.580 | | 1.605 | | 1.650 | |
| **Addysg a Diwylliant** | | **67.927** | | **69.836** | | **71.247** | | **73.192** |
| Adnoddau Dynol | 1.695 | | 1.753 | | 1.787 | | 1.838 | |
| TGCh | 4.683 | | 4.817 | | 4.946 | | 5.072 | |
| Trawsnewid | 1.243 | | 1.288 | | 1.312 | | 1.351 | |
| **Trawsnewid** | | **7.621** | | **7.858** | | **8.045** | | **8.261** |
| **Tai** | | **1.660** | | **1.720** | | **1.768** | | **1.813** |
| **Adnoddau** | | **4.017** | | **4.182** | | **4.265** | | **4.394** |
| **Busnes y Cyngor** | | **2.125** | | **2.203** | | **2.247** | | **2.312** |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | | **0.802** | | **0.833** | | **0.850** | | **0.875** |
| Cyllido Cyfalaf | 5.754 | | 6.087 | | 6.288 | | 6.588 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor / Budd-daliadau | 7.497 | | 7.354 | | 7.848 | | 8.045 | |
| Ardollau | 4.931 | | 5.129 | | 5.231 | | 5.336 | |
| Cymorth i brynwyr tro cyntaf | 0.002 | | 1.449 | | 2.034 | | 2.085 | |
| Corfforaethol a Democrataidd | 2.142 | | 2.200 | | 2.243 | | 2.288 | |
| Ad-daliadau CRT | (0.800) | | (0.832) | | (0.849) | | (0.866) | |
| Arbedion i'w canfod | (1.000) | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | |
| Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Argyfyngau | 1.355 | | 1.628 | | 1.356 | | 1.383 | |
| **Nid yn Wasanaeth** | | **19.881** | | **23.015** | | **24.151** | | **24.859** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | | **184.163** | | **196.005** | | **202.341** | | **207.688** |

**ATODIAD 4**

## CYLLIDEB 2024/25 YN ÔL ADRAN A MATH O WASANAETH

| Gwasanaeth | Statudol ac a yrrir gan Alw | | Statudol – heb ei yrru gan Alw | | Rhannol statudol, Rhannol Ddi-Statudol / Gofyniad Llywodraeth Cymru | | Anstatudol | | Gwasanaethau Cymorth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** | **£’m** |
| Datblygu Economaidd | 0.000 | | 0.000 | | 0.260 | | 0.422 | | 0.416 | |
| Cyrchfan | 0.000 | | 0.356 | | 0.000 | | 0.515 | | 0.000 | |
| Hamdden | 0.000 | | 0.000 | | 0.032 | | 0.835 | | 0.376 | |
| Cynllunio | 0.299 | | 0.556 | | 0.033 | | 0.000 | | 0.240 | |
| Gwarchod y Cyhoedd | 0.703 | | 1.016 | | 0.016 | | 0.054 | | 0.000 | |
| **Rheoleiddo** | | **1.002** | | **1.928** | | **0.341** | | **1.826** | | **1.032** |
| Priffyrdd | 0.463 | | 6.305 | | 0.161 | | 0.543 | | 0.795 | |
| Eiddo | 0.000 | | 1.735 | | 0.000 | | (0.325) | | 0.580 | |
| Gwastraff | 0.750 | | 9.361 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | **1.213** | | **17.401** | | **0.161** | | **0.218** | | **1.375** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | **34.712** | | **1.672** | | **0.397** | | **0.290** | | **2.126** |
| **Gwasanaethau Plant** | | **12.539** | | **0.608** | | **0.000** | | **0.883** | | **0.406** |
| Ysgolion | 53.066 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | |
| Addysg Ganolog | 6.897 | | 4.536 | | 0.422 | | 0.000 | | 1.430 | |
| Diwylliant | 0.000 | | 0.000 | | 1.506 | | 0.036 | | 0.034 | |
| **Addysg a Diwylliant** | | **59.963** | | **4.536** | | **1.928** | | **0.036** | | **1.464** |
| Adnoddau Dynol | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 1.695 | |
| TGCh | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 4.683 | |
| Trawsnewid | 0.000 | | 0.000 | | 0.099 | | 0.000 | | 1.144 | |
| **Trawsnewid** | | **0.000** | | **0.000** | | **0.099** | | **0.000** | | **7.522** |

| Gwasanaeth | Statudol ac a yrrir gan Alw | | Statudol – heb ei yrru gan Alw | | Rhannol statudol, Rhannol Ddi-Statudol / Gofyniad Llywodraeth Cymru | | Anstatudol | | Gwasanaethau Cymorth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £’m | £’m | £’m | £’m | £’m | £’m | £’m | £’m | £’m | £’m |
| **Tai** | | **1.068** | | **0.000** | | **0.215** | | **0.303** | | **0.074** |
| **Adnoddau** | | **0.753** | | **0.606** | | **0.000** | | **0.000** | | **2.658** |
| **Busnes y Cyngor** | | **0.544** | | **0.372** | | **0.387** | | **0.000** | | **0.822** |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | | **0.000** | | **0.000** | | **0.000** | | **0.000** | | **0.802** |
| Cyllido Cyfalaf | 0.000 | | 6.423 | | 0.000 | | (0.670) | | 0.000 | |
| Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor / Budd-daliadau | 7.393 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.105 | | 0.000 | |
| Ardollau | 0.000 | | 4.931 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | |
| Cymorth i brynwyr tro cyntaf | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.002 | | 0.000 | |
| Corfforaethol a Democrataidd | (0.214) | | 0.682 | | 1.542 | | 0.133 | | 0.000 | |
| Ad-daliadau CRT | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | (0.800) | | 0.000 | |
| Arbedion i’w Canfod | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | (1.000) | |
| Cronfeydd wrth gefn ar gyfer Argyfyngau | 0.000 | | 0.000 | | 0.000 | | 1.355 | | 0.000 | |
| **Nid yn Wasanaeth** | | **7.179** | | **12.036** | | **1.542** | | **0.125** | | **(1.000)** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | | **118.973** | | **39.159** | | **5.070** | | **3.681** | | **17.281** |
| **% GWARIANT NET** | | **64.6%** | | **21.3%** | | **2.7%** | | **2.0%** | | **9.4%** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **Pwyllgor Gwaith - 24/9/2024**<br>**Cyngor - 26/9/2024** |
| Pwnc / Testun: | **Newid y Cyfansoddiad – Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Carwyn Jones**<br>**Aelod Portffolio – Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer**<br><br>**Robin Williams**<br>**Aelod Portffolio – Dirprwy Arweinydd a Chyllid** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br><br>**Marc Jones**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>Ebost: | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau**<br>**01248 752566**<br>**maredyaxley@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob aelod** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

**Argymhellion**

1. Tynnu'r canlynol o'r Cyfansoddiad:

   - Polisi Pryderon a Chwynion
   - Rheolau Gweithdrefn Contractau a
   - dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r penderfyniadau hyn.

2. Bod y Polisi Pryderon a Chwynion, a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau (ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol) ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor.

3. Ni fydd y Cyngor llawn bellach yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau, a byddant yn cael eu cymeradwyo gan:

   - y Pwyllgor Gwaith; neu gan

- y Swyddog Monitro*, o dan bwerau dirprwyedig, os nad yw'r newidiadau'n darparu dewis lleol, neu'n fân newidiadau

  *Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau bob amser yn cael eu trafod â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**Cefndir / Trefniadau Presennol yn gysylltiedig â'r Polisi Pryderon a Chwynion**

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Polisi Pryderon a Chwynion (PPCh) sy'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac sy'n dilyn safonau a chanllawiau arfer da Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon.

Mae PPCh y Cyngor yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hyn.

Mae disgwyl i OGCC adolygu ei pholisi enghreifftiol yn ystod 2024/2025. Fel ac y mae pethau ar hyn o bryd, bydd rhaid i unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw gael eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn ar ôl cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Wedi hynny, bydd rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol ddilyn yr un broses.

**Cefndir / Trefniadau Presennol yn gysylltiedig â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau**

Bu newidiadau sylweddol ym maes caffael nwyddau a gwasanaethau yn y sector cyhoeddus. Bydd Deddf Caffael 2023 yn dod i rym yn fuan yn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr. Bydd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2024 yn dod i rym yn awdurdodaeth Cymru yn unig. Ynghyd â llu o ddogfennau a phrosesau eraill i gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth uchod mae Rheolau Gweithdrefnau Contractau newydd wedi cael eu llunio ac maent yn destun ymgynghoriad mewnol ar hyn o bryd.

O dan y trefniadau llywodraethu presennol, bydd rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r RhGCau, wedi iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Yn y dyfodol bydd rhaid dilyn yr un broses gymeradwyo ar gyfer pob newid sylweddol. Gan fod y ddeddfwriaeth newydd mor gymhleth, mae'r gyfraith ac ymarfer cyfreithiol yn y maes yn debygol o ddatblygu ac felly mae'n bosib y bydd angen rhagor o newidiadau wrth i'r ddeddfwriaeth ddod i gysylltiad â'r "byd go iawn".

**Y Newid Arfaethedig**

Mae'r rhain yn ymddangos ym mharagraffau 1 – 3 yn yr **Argymhellion** uchod. Yn gryno, mae'r cynnig yn golygu tynnu'r PPCh a'r RhGCau o'r Cyfansoddiad a chaniatáu i unrhyw newidiadau sylweddol yn y dyfodolgael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y PPCh a'r RhGCau, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol, ar gael mewn lle amlwg ar wefan y Cyngor.

**Ffactorau Perthnasol y dylid eu Hystyried**

1. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gynnwys y PCCh/RhGCau yn y Cyfansoddiad, ac nid yw hynny'n ddisgwyliedig gan reoleiddwyr y Cyngor chwaith.

2. Ni waeth pwy fydd yn gyfrifol am ddiwygio'r PCCh/RhGCau, y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith, bydd yr un faint o dryloywder ac atebolrwydd. Felly bydd agendau / adroddiadau / cyfarfodydd cyhoeddus / cofnod o benderfyniadau / cofnodion / gweddarllediadau boed yn gyfrifoldeb i'r Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith. Os bydd y rôl yn cael ei chyflawni gan y Pwyllgor Gwaith yna bydd modd i'r penderfyniadau gael eu galw i mewn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a'u huwchgyfeirio i'r Cyngor os yw'r Pwyllgor yn penderfynu gwneud hynny. Hefyd, mae'n bosib y bydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dymuno adolygu'r newidiadau cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad.

3. Mae'r trefniadau llywodraethu presennol yn debygol o amharu ar y broses adolygu a diwygio, gan fod newidiadau i'r Cyfansoddiad yn ddarostyngedig i'r broses gymeradwyo ddeuol a ddisgrifir uchod. Byddai'n fanteisiol cael proses fwy hyblyg.

4. Byddai'r broses o ddiwygio'r PCCh/RhGCau yn fwy effeithlon pe byddai'n cael ei chyflawni gan y Pwyllgor Gwaith gan fod y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn fisol. Byddai modd i swyddogion ymgynghori'n anffurfiol ag Aelodau Portffolio drwy gydol y broses yn ogystal. Ni fyddai hyn yn bosib pe byddai'r broses yn cael ei chyflawni gan y Cyngor llawn.

5. Er mwyn bod yn dryloyw, ac i sicrhau bod y fersiynau diweddaraf o'r PCCh/RhGCau ar gael yn rhwydd cynigir eu bod (ynghyd â'r holl ddogfennau ategol / cyngor / canllawiau) yn cael eu cyhoeddi mewn lle amlwg ar wefan y Cyngor. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud cwyn a chontractwyr / busnesau sy'n ymgeisio am gontractau'r Cyngor. Bydd cael yr holl ddogfennau perthnasol mewn un lle yn cynnig gwell profiad i ddefnyddwyr.

6. Nid oes unrhyw risgiau neu anfanteision yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Unwaith y bydd y penderfyniad wedi cael ei wneud, bydd bob amser yn bosib i'r Cyngor ailedrych ar y swyddogaeth dewis lleol, yn ddarostyngedig i'r rheol arferol o chwe mis.

## B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Parhau â'r trefniadau presennol ond, am y rhesymau ymarferol a nodir ym mharagraff A uchod, nid hyn yw'r opsiwn a ffefrir.

## C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Ni chaniateir i'r Cyngor gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad nes bo'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig. (Paragraff 2.15.2 o'r Cyfansoddiad).

## Ch - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amherthnasol gan fod hwn yn benderfyniad i'r Cyngor.

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu Sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Cefnogi'r cynigion yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Cefnogi'r cynigion yn yr adroddiad |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr Adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Cefnogi'r cynigion yn yr adroddiad |
| 7 | Caffael | Cefnogi'r cynigion yn yr adroddiad |
| 8 | Sgriwtini | |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu Sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 9 | Aelodau Lleol | |
| 10 | Eraill | Aelodau Portffolio Perthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| - Mae Polisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gael ar y ddolen hon<br>- Mae Rheolau Gweithdrefn Contractau cyfredol y Cyngor ar gael ar y ddolen hon |

This page is intentionally left blank